



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales
(The Official Record)**

Dydd Mercher 20 Tachwedd 2002

Wednesday 20 November 2002

Cynnwys
Contents

- 3 Ethol i Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd
Election to the North Wales Regional Committee
- 4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd
Questions to the Minister for Economic Development
- 15 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid
Questions on Finance to the Finance Minister
- 27 Datganiad ar Ganiatáu i Nyrsys ddarparu Presgripsiynau yng Nghymru
Statement on the Roll-out of Nurse Prescribing in Wales
- 35 Pwynt o Drefn
Point of Order
- 36 Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion
Composite Motion: Approval of Orders
- 38 Dirprwyo Swyddogaethau Gorchymyn Cymunedau Ewrop (Dynodiadau) (Rhif 2) 2001
Delegation of Functions of the European Communities (Designation) (No.2) Order 2001
- 43 Cymeradwyo'r Protocol Drafft ar Ddefnyddio Adnoddau'r Cynulliad yn ystod Ymgyrch Etholiadol 2003
Approval of the Draft Protocol on the Use of Assembly Resources During the 2003 Election Campaign
- 45 Adolygiad Canol Tymor o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin
Mid-term Review of the Common Agricultural Policy
- 78 Dadl Fer
Short Debate

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Ethol i Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd Election to the North Wales Regional Committee

Y Trefnydd (Carwyn Jones): Cynigiaf fod **The Business Minister (Carwyn Jones):** I propose that

y Cynulliad Cenedlaethol:

the National Assembly:

gan weithredu o dan Adran 61(5)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol David Ian Jones yn aelod o Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd. (NDM1219)

acting under section 61(5)(b) of the Government of Wales Act 1998, elects David Ian Jones to the North Wales Regional Committee. (NDM1219)

*Cynnig (NDM1219): O blaid 34, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM1219): For 34, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Cairns, Alun
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Jocelyn
Evans, Delyth
German, Michael
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, David Ian
Jones, Elin
Jones, Gareth
Law, Peter
Lloyd, David

Lloyd, Val
 Melding, David
 Middlehurst, Tom
 Morgan, Rhodri
 Pugh, Alun
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd Questions to the Minister for Economic Development

The Presiding Officer: Question 1 (OAQ20345) has been withdrawn.

Cymorth Grant i Fineline Cymru, Rhyl Grant Assistance to Fineline Cymru, Rhyl

Q2 Ann Jones: Will the Minister make a statement on the measures the Assembly is taking to recover grant assistance provided to Fineline Cymru in Rhyl? (OAQ20335)

C2 Ann Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae'r Cynulliad yn eu cymryd i adennill grantiau a dalwyd i Fineline Cymru yn y Rhyl? (OAQ20335)

The Minister for Economic Development (Andrew Davies): Following the failure of Fineline Cymru, a request for repayment of the regional selective assistance grant instalment has been lodged. Fineline Cymru's parent company, Fineline Apparel Ltd, provided a guarantee as a condition of the RSA offer and therefore, the Assembly Government has issued a formal request, seeking the repayment of the grant. We are proceeding in this way because, when the RSA offer was made, Fineline Apparel Ltd gave a guarantee that it would repay the monies should the subsidiary fail.

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies): Yn dilyn methiant Fineline Cymru, gofynnwyd iddo ad-dalu'r grant cymorth rhanbarthol dewisol. Darparodd Fineline Apparel Ltd, sef rhiant gwmmi Fineline Cymru, warant fel un o amodau'r cynnig cymorth rhanbarthol dewisol ac felly, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno cais ffurfiol am ad-daliad o'r grant. Yr ydym yn dilyn y trywydd hwn gan i Fineline Apparel Ltd, pan wnaed y cynnig cymorth rhanbarthol dewisol, warantu y byddai'n ad-dalu'r arian pe bai'r is-gwmmi'n methu.

Ann Jones: You will be aware of the action that women workers from Fineline Cymru in Rhyl had to take, to attempt to secure outstanding wages were the firm to go into receivership. I pay tribute to those women workers in my constituency who stood together against a man who—we now discover—has acted in the same way before. I also pay tribute to Eileen Turnbull from the GMB, and to you for your work over that weekend. I am sure that you are aware that Mr Potter of Fineline Apparel Ltd/Fineline Cymru has now set up again, in the same factory, under the name Cherub—doing

Ann Jones: Byddwch yn ymwybodol o'r camau y bu'n rhaid i fenywod a oedd yn gweithio i Fineline Cymru yn y Rhyl eu cymryd, mewn ymgais i sicrhau cyflogau a oedd yn ddyledus iddynt pe bai'r cwmni'n mynd yn fethdalwr. Talaf deyrnged i'r gweithwyr hynny yn fy etholaeth a safodd gyda'i gilydd yn erbyn dyn y gwyddom erbyn hyn iddo weithredu yn yr un modd yn y gorffennol. Talaf deyrnged hefyd i Eileen Turnbull o'r GMB, ac i chi am eich gwaith dros y penwythnos hwnnw. Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol fod Mr Potter o Fineline Apparel Ltd/Fineline Cymru wedi

exactly the same work. I believe that he has employed seven workers. Will you assure me that any request for RSA funding from this company will be treated fairly, but that the past history will be taken into consideration? Will you join me in seeking a change in corporate law by the Westminster Government to avoid such an occurrence in future?

Andrew Davies: I pay tribute to the work that you and the local Member of Parliament did with the local workforce who, I think everyone would agree, were put in a difficult position. Unfortunately, there have been examples of companies in Wales that have not acted correctly with regard to corporate responsibility, and Fineline Cymru falls into that category. Any further grant applications would be considered on their merits, but past history would need to be considered. Obviously, if there were links to a company that was previously granted RSA funding, and it was still within conditions, then we would need to take that into account.

Gareth Jones: Yr wyf yn falch eich bod yn ceisio cael yr arian hwn yn ôl ac, os ydych yn llwyddo, a fydddech mor garedig â'i anfon i Gonwy lle mae digon o'i angen? Cafodd y cwmni hwn grant o £30,000 ym mis Ionawr, er i gwmni Fineline (1500) Cyf yn Southampton—a oedd yn eiddo i'r un perchennog—fynd yn fethdalwr yn ôl ym mis Tachwedd. Fineline Cymru yw'r trydydd cwmni a gaewyd gan y perchennog hwn yn y 12 mis diwethaf. A oedd y wybodaeth hon ar gael i swyddogion pan ddyfarnwyd y grant i Fineline Cymru? Os nad oedd, a wnaiff y Gweinidog sicrhau nad yw gwybodaeth mor bwysig yn cael ei diystyru yn y dyfodol? Pa amodau oedd ynghlwm â'r grant, o ran niferoedd y swyddi i'w creu, ac am ba hyd?

Andrew Davies: When you ask for any money reclaimed to be sent to Conwy, you have profoundly misunderstood how our grant system works. It is entirely demand-led and it is up to individual companies to approach us, whether for regional selective assistance or for an Assembly investment grant.

sefydlu busnes arall, yn yr un ffatri, o dan yr enw Cherub—yn gwneud yr un gwaith yn union. Credaf ei fod wedi cyflogi saith o weithwyr. A roddwch sicrwydd imi y caiff unrhyw gais am arian cymorth rhanbarthol dewisol gan y cwmni hwn ei drin yn deg, ond y caiff y gorffennol ei ystyried? A ymunwch â mi i geisio newid y gyfraith gorfforaethol drwy Lywodraeth San Steffan er mwyn osgoi digwyddiad o'r fath yn y dyfodol?

Andrew Davies: Talaf deyrnged i'r gwaith a wnaethoch chi a'r Aelod Seneddol lleol gyda'r gweithlu lleol, a roddwyd, yr wyf yn siŵr y byddai pawb yn cytuno, mewn sefyllfa anodd. Yn anffodus, cafwyd enghreifftiau o gwmnïau yng Nghymru nad ydynt wedi gweithredu'n gywir o ran cyfrifoldeb corfforaethol, ac mae Fineline Cymru yn un ohonynt. Byddai unrhyw geisiadau pellach am grant yn cael eu hystyried yn ôl teilyngdod, ond byddai angen ystyried hanes y cwmni. Yn amlwg, pe bai cysylltiadau â chwmni a dderbyniodd arian cymorth rhanbarthol dewisol yn y gorffennol, a'i fod yn dal o fewn amodau, byddai angen inni ystyried hynny.

Gareth Jones: I am glad that you are trying to recover this money and, if you succeed, would you be so kind as to send it to Conwy where it is much needed? This company was awarded a grant of £30,000 in January, although Fineline (1500) Ltd in Southampton—another company owned by the same man—was declared bankrupt back in November. Fineline Cymru is the third company to be closed by this owner in the past 12 months. Was this information available to officials when the grant was awarded to Fineline Cymru? If not, will the Minister ensure that such important information is not disregarded in future? What conditions were attached to the grant, in terms of the number of jobs to be created, and their duration?

Andrew Davies: Pan ofynnwch i unrhyw arian a ddychwelir gael ei anfon i Gonwy, yr ydych wedi camddeall yn llwyr sut mae ein system grantiau yn gweithio. Caiff ei arwain yn llwyr gan y galw, a chyfrifoldeb cwmnïau unigol yw cysylltu â ni, pa un a yw hynny ar gyfer cymorth rhanbarthol dewisol neu ar gyfer grant buddsoddi gan y Cynulliad.

On the grant conditions, an agreement was entered into because of some of the perceived weaknesses of the claim. As I said, the offer was made to the parent company, and a parental guarantee was given by the parent company. A risk is attached to any form of government grant; there is no such thing as certainty when investing in a company. That was reflected in the fact that we asked for a parental guarantee, after seeing the business case for the application. In terms of future grant applications, I refer you to the answer that I gave to Ann.

Peter Rogers: You have dealt with most of the point with which I was concerned. This is not a one-off occurrence. I am aware of a similar situation in Anglesey where a company has started up again three times, causing distress to workers. What lessons are we learning, and are all other agencies, particularly county councils, briefed in understanding the distress that this is causing people? We ought to check up on this system.

Andrew Davies: I do not think that any criticism has been made of the grant application process in this case. It was a question of the viability of the individual company. There is little that the Government can do in terms of guaranteeing against that. As I said, there is no guarantee of the future viability of any company, but applications, together with the accompanying business case, are taken into account in the decision on whether or not to give regional selective assistance or an Assembly investment grant.

O ran amodau'r grant, daethpwyd i gytundeb oherwydd y canfyddiad bod rhai gwendidau yn y cais. Fel y dywedais, gwnaed y cynnig i'r rhiant gwmni, a gwnaeth y rhiant gwmni warant rhiant. Mae elfen o risg ynghlwm wrth unrhyw fath o grant gan y llywodraeth; nid oes y fath beth â sicrwydd wrth fuddsoddi mewn cwmni. Adlewyrchwyd hynny yn y ffaith ein bod wedi gofyn am warant rhiant, wedi gweld yr achos busnes ar gyfer y cais. Yn nhermau ceisiadau am grant yn y dyfodol, fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i Ann.

Peter Rogers: Yr ydych wedi ymdrin â'r rhan fwyaf o'r pwynt yr oeddwn am ei wneud. Nid digwyddiad unigryw yw hwn. Yr wyf yn ymwybodol o sefyllfa debyg yn Ynys Môn pan ailsefydlodd yr un cwmni deirgwaith, gan greu gofid i weithwyr. Pa wersi yr ydym yn eu dysgu, ac a yw pob asiantaeth arall, yn arbennig cynghorau sir, wedi cael dealltwriaeth o'r gofid y mae hyn yn ei achosi i bobl? Dylem gynnal archwiliad o'r system hon.

Andrew Davies: Ni chredaf i'r broses gwneud cais am grant gael ei beirniadu o gwbl yn yr achos hwn. Yr oedd yn ymwneud â dichonolrwydd y cwmni unigol. Ychydig iawn y gall y Llywodraeth ei wneud i warantu yn erbyn hynny. Fel y dywedais, nid oes gwarant o ddichonolrwydd unrhyw gwmni yn y dyfodol, ond caiff ceisiadau, ynghyd ag achosion busnes sy'n cyd-fynd â hwy, eu hystyried wrth benderfynu rhoi cymorth rhanbarthol dewisol ynteu grant buddsoddi gan y Cynulliad.

Lefelau Allforion Level of Exports

C3 Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefelau allforion o Gymru? (OAQ20373)

Andrew Davies: Total Welsh exports for the second quarter of 2002 rose to £1,591 million—a 9 per cent increase on our performance in the first quarter. That compares to a rise of 7 per cent in the UK over the same period. The European Union

Q3 The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): Will the Minister make a statement on the levels of exports from Wales? (OAQ20373)

Andrew Davies: Cododd cyfanswm allforion Cymru ar gyfer ail chwarter 2002 i £1,591 miliwn—cynnydd o 9 y cant ar ein perfformiad yn ystod y chwarter cyntaf. Mae hynny'n cymharu â 7 y cant yn y DU ar gyfer yr un cyfnod. Yr Undeb Ewropeaidd yw ein

remains our biggest market by far, increasing by 10 per cent during that period. These increases are much larger than those for the same period in 1999, 2000 and 2001.

Ieuan Wyn Jones: Mae'r Gweinidog yn cymharu ffigurau ail chwarter y flwyddyn â rhai'r chwarter cyntaf, tra yr oedd y chwarter cyntaf yn dangos gostyngiad o 11 y cant mewn allforion o Gymru, o'u cymharu â'r un adeg y llynedd. Onid yw'r Gweinidog yn deall bod gennym bellter i fynd os yr ydym am gyfateb yn gyson â'r math o allforion sy'n digwydd yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol, a bod allforion o Gymru wedi dioddef, yn enwedig rhyngom ni ac Iwerddon, a rhannau eraill o Ewrop? Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau ein bod yn derbyn cyfran deg o'r farchnad?

Andrew Davies: As I have said in Plenary and in the Economic Development Committee, the world economy has gone through a difficult time in the last 18 months to two years. One of our problems in exporting has been the American market, where there have been particular difficulties.

However, we have an international trade strategy that is widely welcomed by the private sector—the Confederation of British Industry and individual exporters. Because of our commitment to supporting companies to export, I was delighted recently to announce an £8.6 million boost to WalesTrade International, with support from Objective 1, precisely to address some of the weaknesses in Wales. We have predominantly an economy of small and medium-sized enterprises and, therefore, the assistance needed in exporting is proportionately much greater than it is for large companies.

Tom Middlehurst: Andrew, will you acknowledge, as I do, the important contribution that Airbus Broughton UK makes to the export effort in Wales, contributing hugely to the local, regional and national economy? Is it not the case that, because of its continuing success, Airbus has enjoyed the support of the UK Government and the Welsh Assembly Government in its drive to continue the important daily exports to France and Germany by means of the

marchnad fwyaf o bell fordd, a chynyddodd 10 y cant yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r cynnydd hwn yn llawer uwch nag ar gyfer yr un cyfnod yn 1999, 2000 a 2001.

Ieuan Wyn Jones: The Minister is comparing the figures for the second quarter of this year with those for the first quarter, while the first quarter showed an 11 per cent fall in exports from Wales, compared with the same period last year. Does the Minister not understand that we have a long way to go if we are to consistently match the kinds of exports seen in the rest of the United Kingdom, and that exports from Wales have suffered, particularly between ourselves and Ireland, and other parts of Europe? What is the Minister doing to ensure that we get our fair share of the market?

Andrew Davies: Fel y dywedais eisoes yn y Cyfarfod Llawn ac yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd, mae economi'r byd wedi bod drwy gyfnod anodd yn ystod y 18 mis i ddwy flynedd diwethaf. Un o'n problemau gydag allforio oedd marchnad America, lle cafwyd anawsterau penodol.

Fodd bynnag, mae gennym strategaeth fasnach ryngwladol a gaiff ei chroesawu gan y sector preifat—Cydffederasiwn Diwydiannau Prydain ac allforwyr unigol. Oherwydd ein hymrwymiad i gefnogi cwmnïau i allforio, yr oeddwn yn falch o gyhoeddi yn ddiweddar hwb o £8.6 miliwn i Fasnach Cymru Rhyngwladol, gyda chymorth Amcan 1, yn benodol er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r gwendidau yng Nghymru. Economi o fusnesau bach a chanolig eu maint sydd gennym yn bennaf ac, felly, mae cyfran y cymorth sydd ei angen o ran allforio yn llawer uwch nag sydd ei angen ar gyfer cwmnïau mawr.

Tom Middlehurst: Andrew, a wnewch chi gydnabod, fel y gwnaf fi, y cyfraniad pwysig y mae cwmni Airbus Broughton UK yn ei wneud i'r ymdrech allforio yng Nghymru, drwy gyfrannu'n helaeth i'r economi leol, rhanbarthol a chenedlaethol? Onid yw'n wir mai oherwydd ei lwyddiant parhaus y mae Airbus wedi cael cefnogaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei ymdrech i barhau â'r allforion pwysig dyddiol i Ffrainc a'r Almaen gyda'r awyren

Beluga aircraft? Those who work in the airbus industry in Broughton are making a huge contribution to the Welsh economy.

Andrew Davies: The Broughton plant is a real centre of excellence in manufacturing in north Wales—it is at the cutting edge of technology and wing development. I believe that Airbus has won two further, significant contracts this week, not long after winning a major contract with Ryanair. Wales is becoming known as a centre for aerospace, both in manufacturing in north Wales and in servicing and maintenance in south Wales.

Beluga? Mae'r rheini sy'n gweithio yn y diwydiant bws awyr ym Mrychdyn yn gwneud cyfraniad enfawr i economi Cymru.

Andrew Davies: Mae'r gwaith ym Mrychdyn yn ganolfan ragoriaeth wirioneddol mewn gweithgynhyrchu yng ngogledd Cymru—mae ar flaen y gad mewn technoleg a datblygu adenydd. Credaf fod Airbus wedi ennill dau gontract sylweddol arall yr wythnos hon, o fewn byr amser i ennill contract â Ryanair. Mae Cymru yn dod yn adnabyddus fel canolfan ar gyfer y diwydiant aerofod, mewn gweithgynhyrchu yn y Gogledd ac mewn cynnal a chadw yn y De.

2:10 p.m.

Cymorth Rhanbarthol Dewisol Regional Selective Assistance

Q4 Janet Ryder: Will the Minister make a statement on the numbers of small and medium-sized enterprises obtaining regional selective assistance? (OAQ20362)

Andrew Davies: Since 1 April this year, 106 offers of regional selective assistance worth £26 million have been made to small and medium-sized enterprises in Wales. That is 80 per cent of the total number of grant offers. Those offers are expected to lever in private investment of over £85 million, creating 2,511 jobs and safeguarding a further 457.

Janet Ryder: In answer to the previous question, you said that SMEs comprised the bulk of industry in Wales and, therefore, they need to be supported more than ever. SMEs are much more cost effective as they produce a greater number of jobs per capita. I understand that, some time ago, the Welsh Development Agency was supposed to set up a small firms division similar to the one that has successfully supported businesses in England. What work has been done on that to date and how is it supporting SMEs in Wales?

Andrew Davies: The international definition of an SME is any business that employs

C4 Janet Ryder: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y cwmnïau bach a chanolig eu maint sy'n derbyn cymorth rhanbarthol dewisol? (OAQ20362)

Andrew Davies: Ers 1 Ebrill eleni, gwnaed 106 o gynigion cymorth rhanbarthol dewisol gwerth £26 miliwn i fusnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru, sef 80 y cant o gyfanswm y grantiau a gynigiwyd. Disgwylir i'r cynigion hynny ddenu dros £85 miliwn mewn buddsoddiad preifat, gan greu 2,511 o swyddi a diogelu 457 o rai eraill.

Janet Ryder: Mewn ymateb i'r cwestiwn blaenorol, dywedasoch mai busnesau bach a chanolig eu maint sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o ddiwydiant Cymru, felly dylid eu cynorthwyo'n fwy nag erioed. Mae busnesau bach a chanolig eu maint yn llawer mwy cost effeithiol gan eu bod yn cynhyrchu mwy o swyddi y pen. Deallaf fod disgwyl i Awdurdod Datblygu Cymru, beth amser yn ôl, sefydlu adran cwmnïau bach, tebyg i'r un swydd wedi llwyddo i gynorthwyo busnesau yn Lloegr. Pa waith sydd wedi ei wneud ar hynny hyd yn hyn a sut y mae'n cynorthwyo busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru?

Andrew Davies: Y diffiniad rhyngwladol o fusnes bach neu ganolig yw unrhyw fusnes

fewer than 250 employees. Some 98 per cent of Welsh companies are SMEs: setting up a small firms business support unit within the WDA would result in replicating the work that it currently undertakes, as it already services the bulk of Welsh companies. It would lead to duplication, more bureaucracy and red tape, which is the last thing we want in ensuring that we give focused support for small companies.

Peter Black: There are target dates by which applications for regional selective assistance need to be dealt with. How many applications are not being dealt with by the target date?

Andrew Davies: I do not have the figures today, but I can provide that information for you, Peter, and make it available in the Library. The reports that I receive from companies that deal with my officials and with regional selective assistance and the Assembly investment grant, are hugely complimentary about the speed with which their applications are dealt with, and the help and assistance that officials give to companies in taking them through what is often a complex process.

Ieuan Wyn Jones: Do you now recognise that despite the talk about SMEs, 72 per cent of all regional selective assistance funding still goes to companies that you would describe as inward investors? Do you agree that inward investment is dropping at an alarming rate in Wales? Year on year, the number of large inward investment projects is decreasing. It is not us who say that; it is said by Barclays and in a report published today by Ernst and Young, the international accountants. When will the balance be redressed in terms of regional selective assistance? When will you be able to stand at that rostrum and say that the majority of regional selective assistance is now going to local companies? The action would then match your rhetoric.

Andrew Davies: I do not think that Ieuan heard my response to Janet's question. I said that 80 per cent of regional selective assistance grant offers were being made to

sy'n cyflogi llai na 250 o gyflogaion. Mae tua 98 y cant o gwmnïau Cymru yn fusnesau bach a chanolig eu maint: byddai sefydlu uned gymorth i fusnesau bach o fewn y WDA yn golygu dyblygu'r gwaith a wna ar hyn o bryd, gan ei fod eisoes yn gwasanaethu'r rhan fwyaf o gwmnïau Cymru. Byddai'n arwain at ddyblygu gwaith a mwy o fïwrocraetiaeth, sef y peth olaf a ddymunwn wrth geisio sicrhau ein bod yn rhoi cymorth priodol i gwmnïau bach.

Peter Black: Mae dyddiadau targed ar gyfer ymdrin â cheisiadau am gymorth rhanbarthol dewisol. Sawl cais nad ymdrinnir â hwy erbyn y dyddiad targed?

Andrew Davies: Nid yw'r ffigurau gennyf heddiw, ond gallaf ddarparu'r wybodaeth honno ar eich cyfer, Peter, a'i rhoi yn y Llyfrgell. Mae'r adroddiadau a dderbyniaf gan gwmnïau a fydd yn trafod â'm swyddogion ac sy'n ymwneud â'r cymorth rhanbarthol dewisol a grant buddsoddi'r Cynulliad, yn hynod ganmoladwy ynghylch cyflymder y broses o ymdrin â'u ceisiadau, a'r help a'r cymorth a roddir i gwmnïau gan swyddogion a fydd yn eu tywys drwy broses a all fod yn gymhleth ar adegau.

Ieuan Wyn Jones: A ydych yn cydnabod bellach, er gwaethaf y sôn am fusnesau bach a chanolig eu maint, bod 72 y cant o'r holl arian cymorth rhanbarthol dewisol yn parhau i fynd i gwmnïau y byddech yn eu disgrifio fel mewnfuddsoddwyr? A gytunwch fod mewnfuddsoddwyr yn lleihau yn ddychrynlyd o gyflym yng Nghymru? Flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae nifer y prosiectau mewnfuddsoddi mawr yn gostwng. Nid y ni sy'n dweud hynny; Banc Barclays sy'n dweud hynny ac mae mewn adroddiad a gyhoeddwyd heddiw gan Ernst and Young, y cyfrifwyr rhyngwladol. Pa bryd yr unionir y fantol o ran cymorth rhanbarthol dewisol? Pryd y byddwch yn gallu sefyll wrth y darllenfwrdd hwnnw a dweud bod mwyafrif y cymorth rhanbarthol dewisol bellach yn mynd i gwmnïau lleol? Yna, byddai'r weithred yn cyfateb â'ch rhethreg.

Andrew Davies: Ni chredaf i Ieuan glywed fy ymateb i gwestiwn Janet. Dywedais fod 80 y cant o gynigion grant cymorth rhanbarthol dewisol yn cael eu gwneud i fusnesau bach a

SMEs in Wales. By definition, they are largely indigenous or Welsh companies. Once again, that reflects a lack of understanding, as was seen in Gareth Jones's earlier question. All grants, whether regional selective assistance or Assembly investment grants, are demand-led. It is up to individual companies to make grant applications.

As regards inward investment, last year Wales was extremely successful compared with the rest of the UK. The year-to-date figures show that Wales outperformed the other parts of the UK in terms of share of inward investment projects. The international economy has changed dramatically. The old days of large, footloose capital investment projects looking for a base have largely dried up. We therefore need a balanced approach, supporting indigenous companies while attracting inward investors such as General Dynamics UK Ltd, which has successfully located at Oakdale business park.

chanolig eu maint yng Nghymru. O ran eu natur, cwmnïau brodorol neu gwmnïau o Gymru ydynt yn bennaf. Unwaith eto, mae hynny'n adlewyrchu diffyg dealltwriaeth, fel y gwelwyd yng nghwestiwn Gareth Jones yn gynharach. Caiff yr holl grantiau, pa un a ydynt yn gymorth rhanbarthol dewisol ynteu'n grantiau buddsoddi gan y Cynulliad, eu llywio gan y galw. Cyfrifoldeb y cwmnïau unigol yw gwneud ceisiadau am grant.

O ran mewnfuddsoddi, bu Cymru yn hynod llwyddiannus y llynedd o gymharu â gweddill y DU. Mae ffigurau'r flwyddyn hyd yn hyn yn dangos bod Cymru wedi gwneud yn well na rhannau eraill o'r DU mewn perthynas â'u cyfran o brosiectau mewnfuddsoddi. Mae'r economi ryngwladol wedi newid yn sylweddol. Mae hen ddyddiau'r prosiectau buddsoddi cyfalaf mawr, dilyffethair a oedd yn chwilio am ganolfan fwy neu lai ar ben. Felly mae angen ymagwedd gytbwys arnom, drwy gynorthwyo cwmnïau brodorol a denu mewnfuddsoddwyr megis General Dynamics UK Ltd, sydd wedi sefydlu'n llwyddiannus ym mharc busnes Oakdale.

Diwydiant Aerofod Cymru Welsh Aerospace Industry

Q5 Phil Williams: What steps has the Minister taken to ensure that the Welsh aerospace industry gets full advantage from the juste-retour rule that governs the allocation of contracts by the European Space Agency? (OAQ20353)

Andrew Davies: We must ensure that Wales takes full advantage of the opportunities arising in this crucial sector. Significant research work is undertaken at universities in Wales, much of which is of an extremely high standard. Wales is a significant player in some areas of space research. Aerospace Wales, one of our sectoral fora, is seeking opportunities for Wales in this important area.

Phil Williams: Many people fail to realise how huge an industrial sector space has become and how rapidly it is growing. For instance, Galileo—the major space project on the horizon—will have direct costs of over

C5 Phil Williams: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod diwydiant aerofod Cymru'n medru manteisio i'r eithaf ar y rheol juste-retour sy'n pennu sut y rhennir contractau Asiantaeth Ofod Ewrop? (OAQ20353)

Andrew Davies: Rhaid inni sicrhau bod Cymru yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd sy'n codi o'r sector hollbwysig hwn. Gwneir gwaith ymchwil sylweddol mewn prifysgolion yng Nghymru, a llawer ohono o safon uchel iawn. Mae Cymru yn chwarae rhan arwyddocaol mewn rhai meysydd ymchwil y gofod. Mae Aerospace Cymru, un o'n fforymau sector, yn chwilio am gyfleoedd i Gymru o fewn y maes pwysig hwn.

Phil Williams: Nid yw llawer o bobl yn sylweddoli fod y gofod wedi dod yn sector diwydiannol enfawr a pha mor gyflym y mae'n tyfu. Er enghraifft, costau uniongyrchol Galileo—y prosiect gofod

€3.2 billion, but it will create an estimated €90 billion in associated sales and services. Can the Minister estimate what proportion of the UK's juste-retour contracts for Galileo will come to Wales? Also, what has the Assembly Government done to match the determined efforts of the Scottish Parliament to win Galileo contracts?

Andrew Davies: You rightly state that space is an important economic driver; it is less about manned flight than the use of satellite, such as for broadband provision and other applications. The First Minister met Colin Paynter, the managing director of Astrium Ltd, at the Farnborough airshow in July this year. Consequently, Aerospace Wales is following up this lead. Astrium Ltd, as you will know, Phil, but other Members may not, has played a key role in the Envisat programme and was prime contracted to the European Space Agency for the polar platform; it has 16 per cent of the Galileo ground positioning system satellite project. Our key objective is for Wales to benefit from that work. The target is to secure 5,000 of those jobs for Wales by forming a consortium of high-tech companies.

Eleanor Burnham: Plans to implement the expansion of RAF St Athan would be drafted in consultation, on certain levels, with the local population and with the aid of the Welsh Development Agency. As Tom has alluded, north Wales is proud to be home to aerospace facilities and jobs. I appreciate the importance of possible economic benefits of such expansion. However, should not a project with such environmental implications be discussed in the Environment, Planning and Transport Committee as well as the Economic Development Committee when the time arises?

Andrew Davies: I agree. One of the Assembly's distinctive characteristics is its ability to examine cross-party and cross-cutting issues. A joint meeting was held today between the Economic Development Committee and the Environment, Planning and Transport Committee to consider air

mawr sydd ar y gorwel—fydd dros €3.2 biliwn, ond bydd yn creu tua €90 biliwn mewn gwerthiannau a gwasanaethau cysylltiedig. A all y Gweinidog amcangyfrif pa gyfran o gontractau juste-retour y DU ar gyfer Galileo a ddaw i Gymru? Hefyd, beth a wnaeth Llywodraeth y Cynulliad i gyfateb ymdrechion penderfynol Senedd yr Alban i ennill contractau Galileo?

Andrew Davies: Yr ydych yn gywir i ddweud bod y gofod yn symbylydd economaidd pwysig; mae hedfan mewn roced yn chwarae rhan lai yn hynny o beth na'r defnydd o loeren, megis ar gyfer darpariaeth band eang a chymwysiadau eraill. Cyfarfu'r Prif Weinidog â Colin Paynter, rheolwr gyfarwyddwr Astrium Ltd, yn sioe awyr Farnborough ym mis Gorffennaf eleni. O ganlyniad, mae Aerospace Cymru am fynd ar drywydd hyn. Mae Astrium Ltd, fel y gwyddoch, Phil, ond efallai na w'yr Aelodau eraill, wedi chwarae rhan allweddol yn y rhaglen Envisat, a chyda'r cwmni hwn yr oedd prif gontract Asiantaeth Gofod Ewrop ar gyfer y llwyfan pegynol; mae ganddo 16 y cant o brosiect lloeren system lleoli daear Galileo. Ein prif nod yw i Gymru fanteisio ar y gwaith hwnnw. Y targed yw sicrhau 5,000 o'r swyddi hynny i Gymru drwy ffurfio consortiwm o gwmnïau technolegol.

Eleanor Burnham: Byddai cynlluniau ehangu RAF Sain Tathan yn cael eu drafftio drwy ymgynghori, ar rai lefelau, â'r boblogaeth leol a thrwy gymorth Awdurdod Datblygu Cymru. Fel y soniodd Tom, mae gogledd Cymru yn falch o fod yn gartref i gyfleusterau a swyddi aerofod. Gwerthfawrogaf bwysigrwydd manteision economaidd posibl gwaith ehangu o'r fath. Fodd bynnag, oni ddylai prosiect sydd â goblygiadau amgylcheddol o'r fath gael ei drafod ym Mhwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn ogystal â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd pan ddaw yr amser?

Andrew Davies: Cytunaf. Un o nodweddion amlycaf y Cynulliad yw ei allu i archwilio materion trawsbleidiol a thrawsbynciol. Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd heddiw rhwng y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i ystyried trafndiaeth awyr. Ni

transport. I cannot dictate their work, but I would encourage the Committees to consider the issue you raised jointly.

Jonathan Morgan: The Minister will be fully aware that the House of Commons Trade and Industry Select Committee published its tenth report some two years ago. That report highlighted the absence of an independent, authoritative report on the effects of *juste-retour* in the UK as a major problem. Will the Minister consider commissioning an independent report on what those effects might be?

Andrew Davies: It is about securing a fair return for member states that participate in European projects. My officials are aware of the issue and the challenges, and I may report to the next Economic Development Committee meeting on how we might take this forward.

2:20 p.m.

Technoleg Band Eang Broadband Technology

Q6 Janice Gregory: What action is the Minister taking to facilitate access to broadband technology in areas where it is currently unavailable? (OAQ20334)

Andrew Davies: The five-year £115 million Broadband Wales programme is taking forward a wide range of all-Wales activities to facilitate widespread affordable access to broadband. Among the first tangible activities are the SME broadband satellite subsidy and the 'try-before-you-buy' scheme for small companies. In addition, our investment in the all-Wales roll-out of the Assembly Government's lifelong learning network and the associated multimedia equipment has meant that many schools, learning centres and libraries across Wales have been able to install broadband and start to realise its benefits. Furthermore, the Wales-wide roll-out of the health service network—the DAWN 2 programme—brings the benefits of broadband to all hospital and GP surgeries in Wales.

allaf orchymyn beth yw eu gwaith, ond byddwn yn annog y Pwyllgorau i ystyried y materion a godwyd gennych ar y cyd.

Jonathan Morgan: Bydd y Gweinidog yn llwyr ymwybodol bod Pwyllgor Dethol Masnach a Diwydiant Tŷ'r Cyffredin wedi cyhoeddi ei ddegfed adroddiad tua dwy flynedd yn ôl. Amlygodd yr adroddiad hwnnw ddiffyg adroddiad annibynnol awdurdodol am effaith *juste-retour* yn y DU fel problem fawr. A wnaiff y Gweinidog ystyried comisiynu adroddiad annibynnol ar beth y gallai'r effeithiau hynny fod?

Andrew Davies: Mae'n ymwneud â sicrhau elw teg i aelod-wladwriaethau sy'n cymryd rhan mewn prosiectau Ewropeaidd. Mae fy swyddogion yn ymwybodol o'r mater a'r heriau, ac efallai y byddaf yn adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar sut y gallwn ddatblygu hyn.

C6 Janice Gregory: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ddarparu technoleg band eang mewn ardaloedd lle nad yw'r dechnoleg ar gael ar hyn o bryd? (OAQ20334)

Andrew Davies: Mae'r rhaglen pum mlynedd gwerth £115 miliwn Band Eang Cymru yn datblygu ystod eang o weithgareddau Cymru gyfan i hwyluso mynediad eang fforddiadwy i fand eang. Ymysg y gweithgareddau gweladwy cyntaf bydd y cymhorthdal lloeren band eang i fusnesau bach a chanolig eu maint a'r cynllun 'profi cyn prynu' ar gyfer cwmnïau bach. Yn ogystal, mae ein buddsoddiad mewn cyflwyno rhwydwaith dysgu gydol oes Cymru gyfan Llywodraeth y Cynulliad a'r offer aml-gyfrwng cysylltiedig wedi golygu bod sawl ysgol, canolfan ddysgu a llyfrgell ledled Cymru wedi gallu gosod band eang a dechrau manteisio arno. Hefyd, mae cyflwyno rhwydwaith gwasanaeth iechyd drwy Gymru gyfan—y rhaglen DAWN 2—yn dod â manteision band eang yn ei sgîl i bob ysbyty a meddygfa yng Nghymru.

Janice Gregory: Some good work is being done. Like other Members, I welcome the Government's Broadband Wales initiative and the recent announcement of the satellite broadband scheme. However, it seems likely that areas such as the Ogmere and Garw Valleys in my constituency will still be left behind in the move towards universal broadband provision. Indeed, my own town of Pencoed, which is close to the M4, does not have broadband access. What will the Government do to tackle this problem?

Andrew Davies: Our overall strategy is that by using the public sector as a driver on this agenda we can introduce broadband infrastructure into communities such as those in the Garw and Llynfi valleys and the other valleys in south Wales. I have already mentioned the lifelong learning network that links all our schools and the NHS network, to which GP practices in the Garw and Llynfi valleys will be connected.

Where there are deficiencies, we need to consider a wide range of applications. That is why we are investing £100,000 in the e-fro project in Dyffryn Ogwen in north Wales and why I was so pleased to see the Cymru Ar-lein project using wireless technology in Cardiff, because that technology could also be used for areas such as the Valleys.

Dafydd Wigley: A yw'r Gweinidog yn gwybod yn union faint o gysylltiadau ffeibr optig a osodwyd eisoes gan gwmnïau preifat megis British Telecom ac NTL? Yn ei raglen i fuddsoddi £100 miliwn dros bum mlynedd, a fydd yn defnyddio rhan o'r darpariaethau sector preifat hyn, ynteu a fydd yn eu dyblygu? Os nad oes gennym y wybodaeth, sut y gallwn gyrraedd penderfyniad ar a yw ei raglen yn ddigonol i roi gwasanaeth cynhwysfawr i Gymru gyfan?

Andrew Davies: That is an important issue. We need to build on the existing infrastructure. In my view and that of my officials, there is no point duplicating existing provision. Given the scale of investment that we are making, we need to maximise the opportunities. Wherever possible, we will use existing networks,

Janice Gregory: Mae peth gwaith da yn cael ei wneud. Fel Aelodau eraill, croesawaf fenter Band Eang Cymru y Llywodraeth ynghyd â'r cyhoeddiad diweddar ynglŷn â'r cynllun band eang lloeren. Fodd bynnag, ymddengys y bydd ardaloedd megis Cymoedd Ogwr a Garw yn fy etholaeth i yn parhau i gael eu gadael ar ôl yn y symudiad tuag at ddarpariaeth band eang gyffredinol. Yn wir, nid oes gan Bencoed, fy nhref fy hun, sydd ger yr M4, fynediad i fand eang. Beth a wnaiff y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r broblem hon?

Andrew Davies: Ein strategaeth gyffredinol yw drwy ddefnyddio'r sector cyhoeddus i lywio'r agenda hon y gallwn gyflwyno seilwaith band eang i gymunedau fel y rhai yng nghymoedd Garw a Llynfi a chymoedd eraill de Cymru. Yr wyf eisoes wedi sôn am y rhwydwaith dysgu gydol oes sy'n cysylltu ein holl ysgolion a'r rhwydwaith GIG, y bydd practisiau meddygon teulu yng nghymoedd Garw a Llynfi yn gysylltiedig â hwy.

Lle mae diffygion, rhaid inni ystyried ystod eang o gymwysiadau. Dyna pam ein bod yn buddsoddi £100,000 yn y prosiect e-fro yn Nyffryn Ogwen yng nogledd Cymru a pham yr oeddwn mor falch o weld y prosiect Cymru Ar-lein yn defnyddio technoleg diwifrau yng Nghaerdydd, gan y gellid defnyddio'r dechnoleg honno hefyd ar gyfer ardaloedd megis y Cymoedd.

Dafydd Wigley: Does the Minister know exactly how many fibre optic links have already been installed by private companies such as British Telecom and NTL? In his programme to invest £100 million over five years, will he use some of these private sector provisions or will he duplicate them? If we do not have the information, how can we reach a decision on whether his programme is sufficient to provide a comprehensive service for the whole of Wales?

Andrew Davies: Mae hwnnw yn fater pwysig. Rhaid inni adeiladu ar y seilwaith presennol. Yn fy marn i a'm swyddogion, nid oes diben dyblygu darpariaeth sy'n bodoli eisoes. O gofio maint y buddsoddiad a wnawn, rhaid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn defnyddio rhwydweithiau presennol, pa un

whether those are provided by BT, NTL or by any other telecommunications company, as well as our own A55 link. We need to build on that existing infrastructure. I answered a question recently about the Ministry of Defence network in west Wales in the Brawdy area. We are in negotiations with the MOD and BT on how we can maximise that opportunity. Wherever the infrastructure exists, we need to make the most of it.

Alun Pugh: You are right to say that there are many good projects in the public sector. However, do you understand the frustration of the business community and of private individuals in Colwyn Bay with BT because broadband is not yet available in that major centre?

Andrew Davies: I can understand the frustration of companies, particularly small companies, which do not have access to broadband. That is why I made the announcement in July of an investment of £100 million, which has now risen to £115 million. This is about addressing market failure. If we left it entirely to the market to provide broadband to communities such as those that you and Janice represent, we would get left further behind. The Government and the public sector make up for market failure and create a virtuous cycle. By investing, we will increase demand and supply, which will then increase competition and thus we hope and expect the cost to decrease in the long term.

William Graham: You will recall my previous question relating to the use of the electricity grid, which, being connected to almost all buildings in Wales, is an excellent medium for IT communication. I recall your acknowledgement of pioneering work in Scandinavia. Will you now consider all measures necessary to encourage the development of broadband technology in Wales?

Andrew Davies: I repeat, William, that we have taken a technology-neutral attitude towards the roll-out of Broadband Wales. We will use existing networks and infrastructure

a ddarperir y rheini gan BT, NTL neu unrhyw gwmni telathrebu arall, yn ogystal â'n cyswllt A55 ein hunain. Rhaid inni adeiladu ar y seilwaith presennol hwnnw. Atebais gwestiwn yn ddiweddar ynglŷn â rhwydwaith y Weinyddiaeth Amddiffyn yng ngorllewin Cymru yn ardal Breudeth. Yr ydym yn negodi â'r Weinyddiaeth Amddiffyn a BT ar sut y gallwn fanteisio i'r eithaf ar y cyfle hwnnw. Lle bynnag y mae'r seilwaith yn bodoli, rhaid i ni wneud y gorau ohono.

Alun Pugh: Yr ydych yn iawn i ddweud bod sawl prosiect da o fewn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, a ydych yn deall bod y gymuned fusnes ac unigolion preifat ym Mae Colwyn yn teimlo'n rhwystredig gyda BT gan nad yw band eang ar gael eto yn y ganolfan bwysig honno?

Andrew Davies: Gallaf ddeall rhwystredigaeth cwmnïau, yn arbennig cwmnïau bach, nad oes ganddynt fynediad i fand eang. Dyna pam y gwneuthum ddatganiad ym mis Gorffennaf ynglŷn â buddsoddiad o £100 miliwn, sydd wedi codi bellach i £115 miliwn. Mae hyn yn ymwneud â mynd i'r afael â methiant y farchnad. Pe baem yn ei adael i'r farchnad i ddarparu band eang i gymunedau fel y rhai a gaiff eu cynrychioli gennych chi a Janice, byddem yn cael ein gadael ymhellach ar ôl. Bydd y Llywodraeth a'r sector cyhoeddus yn gwneud iawn am fethiant y farchnad ac felly yn creu cylch rhinweddol. Drwy fuddsoddi, byddwn yn cynyddu'r galw a'r cyflenwad, a fydd yn ei dro yn cynyddu cystadleuaeth ac felly'r gobaiith yw y gallwn ddisgwyl i'r costau leihau yn y tymor hir.

William Graham: Fe gofiwch fy nghwestiwn blaenorol yn ymwneud â'r defnydd o'r grid trydan, sy'n gyfrwng ardderchog ar gyfer cysylltiadau TG gan ei fod wedi ei gysylltu â'r rhan fwyaf o adeiladau yng Nghymru. Cofiaf eich cydnabyddiaeth o waith arloesol yn y Llychlyn. A wnewch chi bellach ystyried pob mesur angenrheidiol i hybu datblygiad technoleg band eang yng Nghymru?

Andrew Davies: Dywedaf eto, William, ein bod wedi cymryd ymagwedd dechnoleg niwtral tuag at gyflwyno Band Eang Cymru. Byddwn yn defnyddio'r

where we can. I have met representatives of electricity supply companies that can also provide an enhancement to the electricity supply in the provision of broadband. My officials, and those at the Broadband Wales unit, are aware of that opportunity. When we come to award contracts, they will be open to tender, and those companies can bid in the same way as any other company.

rhwydweithiau a'r seilwaith presennol lle bo'n bosibl. Cyfarfûm â chynrychiolwyr cwmnïau cyflenwi trydan a all hefyd ychwanegu at y cyflenwad trydan wrth ddarparu band eang. Mae fy swyddogion, yn ogystal â'r rhai yn uned Band Eang Cymru yn ymwybodol o'r cyfle hwnnw. Pan fydd yn bryd inni ddyfarnu contractau, byddant yn agored i dendr, a gall y cwmnïau hynny gyflwyno cais yn yr un ffordd ag unrhyw gwmni arall.

Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid Questions on Finance to the Finance Minister

Lleoliadau Swyddfeydd Office Location

C1 Gareth Jones: A wnaiff y Gweinidog roi manylion diweddaraf yr hyn a wnaed i adolygu lleoliadau swyddfeydd? (OAQ20402)

Q1 Gareth Jones: Will the Minister provide an update regarding progress made on the review of office locations? (OAQ20402)

The Finance Minister (Edwina Hart): As part of my budget statement on 6 November 2002, I announced that Merthyr Tydfil would be the location for the first of three new Assembly Government offices in Wales, each accommodating up to 300 staff. The preferred site has been identified and the acquisition process is underway. Work is proceeding on identifying suitable functions for relocation.

Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart): Fel rhan o'm datganiad ar y gyllideb ar 6 Tachwedd 2002, cyhoeddais mai Merthyr Tudful fyddai'r lleoliad ar gyfer y cyntaf o dair swyddfa newydd Llywodraeth y Cynulliad yng Nghymru. Mae lle ym mhob un ohonynt ar gyfer hyd at 300 o staff. Nodwyd y safle dewisol ac mae'r broses gaffael wedi dechrau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi swyddogaethau addas ar gyfer adleoli.

Gareth Jones: Sylwaf fod unedau ac adrannau newydd yn datblygu o fewn y gwasanaeth sifil yn gyson. A gytunwch y byddai sefydlu'r adrannau hyn y tu allan i Gaerdydd, ac i'r gogledd o Ferthyr Tudful, yn ddull effeithiol o ledaenu swyddi ar draws gweddill Cymru, ac yn arbed costau adleoli staff?

Gareth Jones: I notice that new units and departments are being developed constantly within the civil service. Do you agree that establishing such departments outside Cardiff, and to the north of Merthyr Tydfil, would be an effective way of spreading jobs throughout the rest of Wales, and would save on staff relocation costs?

Edwina Hart: I agree with the sentiment behind your question. When new services are created, we do not have to consider relocating staff, just the location of new jobs. We take such matters into consideration. Our location strategy is moving in the right direction, so that the economic benefits of Assembly jobs can be spread across Wales.

Edwina Hart: Cytunaf â'r teimlad y tu ôl i'ch cwestiwn. Pan gaiff gwasanaethau newydd eu creu, nid oes yn rhaid inni ystyried adleoli staff, dim ond lleoliad y swyddi newydd. Yr ydym yn ystyried materion o'r fath. Mae ein strategaeth lleoliad yn symud i'r cyfeiriad cywir, fel y gall manteision economaidd swyddi'r Cynulliad gael eu lledaenu ar draws Cymru.

Glyn Davies: The fact that the National

Glyn Davies: Mae'r ffaith bod y Cynulliad

Assembly is located in Cardiff means that the city naturally draws jobs and investment from other parts of Wales. Do you accept that the Government has a responsibility to counteract this process as a matter of urgency wherever possible? Do you also accept that there is an urgent need to move as many Government jobs as possible away from the south-east to other parts of Wales?

Edwina Hart: I accept that it is necessary to consider the location of all National Assembly for Wales jobs. That is essential to our location strategy. However, I also accept my responsibility as an employer in that I need staff agreement. I am about to meet full-time officers of various trade unions to discuss issues related to location. We must recognise that people have established lives in Cardiff and have families and children in school here. We have a duty to our staff, who provide us with an excellent service.

Cenedlaethol wedi'i leoli yng Nghaerdydd yn golygu bod y ddinas yn naturiol yn denu swyddi a buddsoddiad o rannau eraill o Gymru. A dderbyniwch fod gan y Llywodraeth gyfrifoldeb i wrthsefyll y broses hon ar fyrder lle bynnag y bo modd? A dderbyniwch hefyd fod angen symud cymaint o swyddi'r Llywodraeth â phosibl o'r De-ddwyrain i rannau eraill o Gymru ar fyrder?

Edwina Hart: Derbyniaf ei bod yn angenrheidiol ystyried lleoliad pob swydd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hynny'n hanfodol ar gyfer ein strategaeth lleoliad. Fodd bynnag, derbyniaf hefyd fy nghyfrifoldeb fel cyflogwr, sef bod angen cytundeb y staff arnaf. Yr wyf ar fin cyfarfod â swyddogion amser llawn yr amrywiol undebau llafur er mwyn trafod materion sy'n gysylltiedig â lleoliad. Rhaid inni gydnabod bod pobl wedi sefydlu bywydau yng Nghaerdydd a bod ganddynt deuluoedd a phlant yn yr ysgol yma. Mae dyletswydd gennym i'n staff, sy'n darparu gwasanaeth ardderchog inni.

Siambr Newydd y Cynulliad New Assembly Chamber

Q2 David Melding: Would the Minister give an update on plans to construct a new Assembly Chamber? (OAQ20397)

Edwina Hart: I refer you to the answer that I gave to Rhodri Glyn Thomas's OAQ19576 on 23 October 2002.

David Melding: Will you assure the people of Wales, in the run-up to the Assembly elections in May 2003, that this budget will be capped? If so, at what level will it be capped?

Edwina Hart: I assure the people of Wales that we are getting on with the project. We are doing everything possible in terms of the design and build contract that we will undertake. If any assignment is necessary, full details of any costs will be made available.

Lorraine Barrett: In considering design matters in relation to the new debating Chamber, will you give particular attention to

C2 David Melding: A wnaiff y Gweinidog roi manylion diweddaraf y cynlluniau ar gyfer adeiladu Siambr newydd y Cynulliad? (OAQ20397)

Edwina Hart: Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i OAQ19576 Rhodri Glyn Thomas ar 23 Hydref 2002.

David Melding: A rowch sicrwydd i bobl Cymru, cyn etholiadau'r Cynulliad ym Mai 2003, y caiff y gyllideb hon ei chapio? Os felly, ar ba lefel a gaiff ei chapio?

Edwina Hart: Rhoddaf sicrwydd i bobl Cymru ein bod yn bwrw ymlaen â'r prosiect. Yr ydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu o ran y contract dylunio ac adeiladu y byddwn yn ymgymryd ag ef. Os bydd angen unrhyw aseiniad, rhyddheir manylion llawn am unrhyw gostau.

Lorraine Barret: O ystyried materion dylunio mewn cysylltiad â'r Siambr ddadlau newydd, a roddwch sylw penodol i faterion

security issues in the light of recent incidents?

Edwina Hart: The Assembly has its own security adviser within the Schal International Management Ltd team, who has provided advice on all aspects of security in relation to the new Assembly building and who has been involved throughout the design development process. Government security advisers have been consulted with a view to enhancing the design in terms of security following 11 September. All the recommended security requirements have been included in the employer's requirements that will be issued as part of the tendering process. We will maintain contact with government security advisers in respect of the new building. I hope that that gives Assembly Members the necessary reassurance.

Cynog Dafis: Yr wyf yn sicr ein bod i gyd yn falch bod agwedd y Torïaid wedi cymedroli ar y mater hwn. Cefnogaf ymdrechion y Gweinidog i sicrhau bod y dadleudy newydd yn cael ei godi i ansawdd da ac am bris rhesymol a derbyniol. Awgrymaf ei fod yn cael ei enwi ar ôl y deddfroddwr, Hywel Dda, a bod defnyddiau Cymreig, coed yn enwedig, yn cael eu defnyddio wrth ei adeiladu er mwyn rhoi hwb i fusnesau yng Nghymru. A ydych yn croesawu cefnogaeth Peter Hain i'ch ymdrechion?

2:30 p.m.

Edwina Hart: The maximum use of indigenous materials, subject to European procurement rules and value for money, is included in the requirements for the building—that is important. Naming the Chamber will be a matter for Assembly Members, and the Presiding Officer may have views on the issue. On the Secretary of State for Wales, we are getting on with the job and we are doing it properly. I welcome support from any direction, but I would expect such support for a new Assembly Chamber from someone who was a junior Minister in the Welsh Office at the time of devolution.

Delyth Evans: Do you welcome the National

diogelwch yng ngoleuni digwyddiadau diweddar?

Edwina Hart: Mae gan y Cynulliad ei ymgynghorydd diogelwch ei hun o fewn tîm Schal International Management Ltd, sydd wedi rhoi cyngor ar bob agwedd ar ddiogelwch mewn cysylltiad ag adeilad newydd y Cynulliad ac sydd wedi cymryd rhan drwy'r broses o ddatblygu'r dyluniad. Ymgynghorwyd ag ymgynghorwyr diogelwch y Llywodraeth â'r bwriad o wella'r dyluniad o ran diogelwch yn dilyn 11 Medi. Mae'r holl ofynion diogelwch wedi'u cynnwys yng ngofynion y cyflogwr a gyhoeddir fel rhan o'r broses dendro. Byddwn yn parhau i gysylltu ag ymgynghorwyr diogelwch y llywodraeth o ran yr adeilad newydd. Gobeithiaf fod hynny'n rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i Aelodau'r Cynulliad.

Cynog Dafis: I am sure that we are all glad that the Tories have softened their stance on this issue. I support the Minister's efforts to ensure that the debating Chamber is built to a high standard and at a reasonable and acceptable cost. I suggest that it is named after the lawgiver Hywel Dda, and that Welsh materials, particularly timber, are used in building it in order to give businesses in Wales a boost. Do you welcome Peter Hain's support for your efforts?

Edwina Hart: Mae'r defnydd mwyaf o ddefnyddiau cynhenid, yn amodol ar reolau caffael Ewrop a gwerth am arian, wedi'i gynnwys yng ngofynion yr adeilad—mae hynny'n bwysig. Bydd enwi'r Siambr yn fater i Aelodau'r Cynulliad, ac efallai y bydd gan y Llywydd farn ar y mater. O ran Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yr ydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith ac yr ydym yn ei wneud yn gywir. Croesawaf gefnogaeth o unrhyw gyfeiriad, ond byddwn yn disgwyl cefnogaeth o'r fath i Siambr newydd i'r Cynulliad gan rywun a oedd yn is-Weinidog yn y Swyddfa Gymreig ar adeg datganoli.

Delyth Evans: A groesawch adroddiad

Audit Office's recent report, which vindicated and endorsed your actions in protecting public money in this project?

Edwina Hart: I asked the Auditor General for Wales to examine these issues and this report will be discussed in the Audit Committee. I am pleased by some of his comments, but I will not expand on that because I want the Audit Committee to have the full opportunity to discuss the matter.

diweddar y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a amddiffynnodd ac a gymeradwyodd eich camau gweithredu wrth ddiogelu arian y cyhoedd yn y prosiect hwn?

Edwina Hart: Gofynnais i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio'r materion hyn a thrafodir yr adroddiad hwnnw yn y Pwyllgor Archwilio. Mae rhai o'i sylwadau wrth fy modd, ond nid ymhelaethaf ar hynny oherwydd yr wyf am i'r Pwyllgor Archwilio gael y cyfle i drafod y mater yn llawn.

Cyllid Llywodraeth Leol a Chymunedau Local Government and Communities Funding

Q3 Janet Ryder: What representations did the Minister receive from police officers before deciding on the funding allocated to the local government and communities portfolio in the budget? (OAQ20407)

Edwina Hart: I regularly meet representatives of the Welsh police authorities to discuss a range of matters, including the Assembly's contribution to police funding.

Janet Ryder: Is providing the bulk of the funding for Operation Tarian, which is a police initiative that would normally be funded by the Home Office, a precedent? Will the Home Office expect the Assembly to provide the bulk of funding for all future special operations in Wales?

Edwina Hart: The only precedent that I have set is one of good government in wishing to assist the police. I do not believe that I have set a precedent in respect of the Treasury. I am simply trying to assist the police in any way that I can, with the funds available in the National Assembly budget.

William Graham: You issued and recalled a press release in March 2001 on discussions with representatives of the police authorities in Wales. You indicated at that time that you would—and you subsequently did—cap the police authorities' funding by £266,000, setting a precept to meet policing, not political objectives. Can you assure our

C3 Janet Ryder: Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda swyddogion yr heddlu cyn penderfynu ar yr arian sydd wedi'i ddyrannu i'r portffolio llywodraeth leol a chymunedau yn y gyllideb? (OAQ20407)

Edwina Hart: Yr wyf yn cyfarfod â chynrychiolwyr awdurdodau heddlu Cymru yn rheolaidd i drafod amrywiaeth o faterion, yn cynnwys cyfraniad y Cynulliad i ariannu'r heddlu.

Janet Ryder: A yw darparu'r rhan fwyaf o'r arian ar gyfer Ymgyrch Tarian, sydd yn fenter yr heddlu a fyddai fel arfer wedi'i hariannu gan y Swyddfa Gartref, yn gynsail? A fydd y Swyddfa Gartref yn disgwyl i'r Cynulliad ddarparu'r rhan fwyaf o arian ar gyfer pob ymgyrch arbennig yng Nghymru yn y dyfodol?

Edwina Hart: Yr unig gynsail yr wyf wedi'i gosod yw cynsail llywodraeth dda wrth ddymuno cynorthwyo'r heddlu. Ni chredaf fy mod wedi gosod cynsail o ran y Trysorlys. Fy nod yw ceisio cynorthwyo'r heddlu mewn unrhyw ffordd y gallaf, â'r cronfeydd sydd ar gael yng nghyllideb y Cynulliad Cenedlaethol.

William Graham: Ym mis Mawrth 2001 bu ichi gyhoeddi a thynnu datganiad i'r wasg yn ôl ar drafodaethau gyda chynrychiolwyr yr awdurdodau heddlu yng Nghymru. Bu ichi nodi ar yr adeg honno y byddech—a gwnaethoch yn dilyn hynny—yn capio arian yr awdurdodau heddlu o £226,000, gan hawlio cyfran o'r dreth i gyflawni amcanion

police forces that they will be free from political interference this year?

Edwina Hart: None of my actions have been political interference, because I have the right, if I so wish, to cap police authorities' funding. I am aware of some of the funding issues with regard to the police this year, and I will shortly meet the police authorities for Wales. There have been rumblings about the money that will be available from the Home Office, and I assure Members that I have taken a strong line on this in correspondence with central Government.

plismona, nid gwleidyddol. A allwch roi sicrwydd i'n heddluoedd y byddant yn rhydd o ymyrraeth wleidyddol y flwyddyn hon?

Edwina Hart: Ni fu yr un o'm gweithredoedd yn ymyrraeth wleidyddol, oherwydd mae gennyf yr hawl, os dymunaf felly, i gapio arian yr awdurdodau heddlu. Yr wyf yn ymwybodol o rai o'r materion ariannol o ran yr heddlu eleni, a byddaf yn cwrdd ag awdurdodau heddlu Cymru cyn bo hir. Bu sibrydion o ran yr arian a ddarperir gan y Swyddfa Gartref, a rhoddaf sicrwydd i'r Aelodau fy mod wedi bod yn bendant iawn ynglŷn â hyn mewn gohebiaeth â Llywodraeth ganolog.

Cyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Health and Social Services Funding

C4 David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr arian sydd wedi'i ddyrannu i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn y gyllideb? (OAQ20404)

Edwina Hart: I refer you to the Record of Proceedings of 6 November for a transcript of my speech to Plenary on the final budget. In addition to the extra investment that I announced for the NHS in my draft budget on 15 October, the final budget made a further £66 million available for NHS capital over the next three years.

David Lloyd: Oes arian wedi'i neilltuo i gyflogi rhagor o ddeintyddion yng Nghymru?

Edwina Hart: You have been informed of the funding arrangements for health in the Health and Social Services Committee. I know that dentistry, and the problem of attracting dentists to work in urban and rural areas, is a high priority for the Committee and the Minister for Health and Social Services.

Kirsty Williams: Significant additional amounts of money have been invested in the health service since the advent of the National Assembly, which are over and above our Barnett allocation. We must now ensure that that money is spent effectively and delivered to patients in Wales. Will you join me in welcoming the fact that the Derek

Q4 David Lloyd: Will the Minister make a statement on the funding allocated to the health and social services portfolio in the budget? (OAQ20404)

Edwina Hart: Fe'ch cyfeiriaf at Gofnod y Trafodion ar 6 Tachwedd am drawsgriafiad o'm haraith i'r Cyfarfod Llawn ar y gyllideb derfynol. Yn ychwanegol at y buddsoddiad ychwanegol a gyhoeddais ar gyfer y GIG yn fy nghyllideb ddrafft ar 15 Hydref, darparwyd £66 miliwn pellach yn y gyllideb derfynol ar gyfer cyfalaf y GIG dros y tair blynedd nesaf.

David Lloyd: Has funding been earmarked to employ more dentists in Wales?

Edwina Hart: Dywedwyd wrthyf am y trefniadau ariannu ar gyfer iechyd yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwn fod deintyddiaeth, a'r broblem o ddenu deintyddion i weithio mewn ardaloedd trefol a gwledig, yn flaenoriaeth fawr i'r Pwyllgor a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Kirsty Williams: Buddsoddwyd symiau ychwanegol sylweddol o arian yn y gwasanaeth iechyd ers dyfodiad y Cynulliad Cenedlaethol, sy'n ychwanegol at ein cyfran o ddyraniad Barnett. Rhaid inni yn awr sicrhau y caiff yr arian hwnnw ei wario'n effeithiol a'i gyflwyno i gleifion yng Nghymru. A ymunwch â mi i groesawi'r

Wanless review and the health and social care review, which the Minister announced and gave details about this morning, will ensure this?

Edwina Hart: I was delighted that Jane Hutt could make that announcement this morning. A review of the health and social care agenda is essential to ensure value for money and that we maximise the use of the money invested. I welcome Members' support for the initiative.

Jonathan Morgan: To what extent will the budget address the need for higher care standards and the reassessment of fee levels payable to residential and nursing homes?

Edwina Hart: Those budget strands contain a significant amount of additional money and it is important that we get value for money from any investment in that sector. I hope that this allocation will result in improvements.

ffaith bod adolygiad Derek Wanless a'r adolygiad iechyd a gofal cymdeithasol, y cyhoeddodd y Gweinidog a rhoi manylion amdano y bore yma, yn sicrhau hyn?

Edwina Hart: Yr oeddwn wrth fy modd bod Jane Hutt yn gallu gwneud y cyhoeddiad hwnnw y bore yma. Mae adolygiad o'r agenda iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol i sicrhau gwerth am arian a'n bod yn sicrhau'r defnydd gorau o arian a fuddsoddir. Croesawaf gefnogaeth yr Aelodau i'r fenter.

Jonathan Morgan: I ba raddau y bydd y gyllideb yn mynd i'r afael â'r angen am safonau gofal uwch ac ailasesu lefelau ffioedd sy'n daladwy i gartrefi preswyl a nyrsio?

Edwina Hart: Mae'r llinynnau hynny o'r gyllideb yn cynnwys swm ychwanegol sylweddol o arian ac mae'n bwysig ein bod yn cael gwerth am arian o unrhyw fuddsoddiad yn y sector hwnnw. Gobeithiaf y bydd y dyraniad hwn yn arwain at welliannau.

Prosiectau PFI PFI Projects

Q5 Peter Black: What action is the Welsh Assembly Government taking to achieve more openness on private finance initiative projects? (OAQ20413)

Edwina Hart: The Assembly adopted a Code of Practice on Public Access to Information on 8 May 2001. In furtherance of that code, the Welsh Assembly Government has set up a website to provide key facts about PFI projects in Wales. It is updated as information becomes available. However, the contracting parties decide on commercial confidentiality in respect of individual projects, and they make the decision on whether and when to release detailed information.

Peter Black: I understand the need for commercial confidentiality. However, one of the most controversial aspects of any PFI deal is the public sector comparator, whereby a calculation is made to determine whether it

C5 Peter Black: Pa gamau mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i sicrhau y bydd prosiectau menter cyllid preifat yn fwy agored? (OAQ20413)

Edwina Hart: Mabwysiadodd y Cynulliad God Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth ar 8 Mai 2001. O ran hyrwyddo'r cod hwnnw, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu gwefan er mwyn rhoi ffeithiau allweddol am brosiectau PFI yng Nghymru. Caiff ei diweddarw wrth i wybodaeth ddod i law. Fodd bynnag, gall partïon i gontractau benderfynu ynghylch cyfrinachedd masnachol o ran prosiectau unigol, a hwy sy'n gwneud y penderfyniad o ran pa un a ddylid rhyddhau gwybodaeth fanwl a phryd i wneud hynny.

Peter Black: Deallaf yr angen am gyfrinachedd masnachol. Fodd bynnag, un o agweddau mwyaf dadleuol unrhyw gytundeb PFI yw'r cymharydd sector cyhoeddus, lle gwneir cyfrifiad i benderfynu pa un a yw'n

is more cost-effective to fund a project in the public or private sector. Will you consider whether we can make such calculations public after a PFI deal has been awarded?

Edwina Hart: There is scope to release the full business case of any local authority scheme following the signing of a contract, if required. Therefore, we could possibly release information in such cases. I assure the Member that I consider public sector comparators closely to ensure that they are fair and square.

Dafydd Wigley: Does the Minister accept that it is reasonable that Assembly Members, when assessing the performance of a completed PFI scheme, should be given information on the profit made by the commercial providers in order to inform any future decisions that the Assembly may want to make on PFI projects?

Edwina Hart: I must be careful in terms of the commercial sensitivity of information. However, once the schemes are signed—as I indicated to Peter Black—and when full business cases can be made available by other parties, the Assembly will have the opportunity to assess the information. Such information is needed, particularly for Audit Committee purposes, when schemes are assessed.

John Griffiths: Do you agree that commercial confidentiality should not override public health concerns? Where there are issues regarding contaminated land, for example, do you agree that pollution and the adequacy of remediation measures should be fully disclosed to the public, although I accept your earlier point that that is a matter for contracting parties?

Edwina Hart: There are issues for the contracting parties. To refer to recent experience, my colleague, the Minister for Environment did an excellent job in dealing with the issues that you mentioned, and my colleague, the Minister for Health and Social Services, has taken the other issues on board.

fwy cost effeithiol i ariannu prosiect yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat. A wnewch ystyried pa un a allwn gyhoeddi cyfrifiadau o'r fath ar ôl dyfarnu cytundeb PFI?

Edwina Hart: Ceir cyfle i ryddhau achos busnes llawn unrhyw gynllun awdurdod lleol wedi llofnodi'r contract, os bydd angen. Felly, mae'n bosibl y galledd ryddhau gwybodaeth mewn achosion o'r fath. Rhoddaf sicrwydd i'r Aelod fy mod yn ystyried cymaryddion sector cyhoeddus yn ofalus i sicrhau eu bod yn deg.

Dafydd Wigley: A yw'r Gweinidog yn derbyn ei bod yn rhesymol y dylai Aelodau'r Cynulliad, wrth asesu perfformiad cynllun PFI sydd wedi'i gwblhau, gael gwybodaeth o ran yr elw a wnaethpwyd gan y darparwyr masnachol er mwyn llywio unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol y dymuna'r Cynulliad eu gwneud ar brosiectau PFI?

Edwina Hart: Rhaid imi fod yn ofalus o ran sensitifrwydd masnachol gwybodaeth. Fodd bynnag, ar ôl llofnodi'r cynlluniau—fel y dywedais wrth Peter Black—a phan fydd partiön eraill yn gallu rhyddhau achosion busnes llawn, caiff y Cynulliad y cyfle i asesu'r wybodaeth. Mae angen gwybodaeth o'r fath, yn enwedig at ddibenion y Comisiwn Archwilio, pan gaiff cynlluniau eu hasesu.

John Griffiths: A gytunwch na ddylai cyfrinachedd masnachol fod yn bwysicach na phryderon iechyd cyhoeddus? Pan fydd materion yn ymwneud â thir wedi'i halogi, er enghraifft, a gytunwch y dylai llygredd a digonolrwydd mesurau unioni gael eu datgelu'n llawn i'r cyhoedd, er fy mod yn derbyn eich pwynt cynharach bod hynny yn fater i'r partiön sy'n contractio?

Edwina Hart: Mae materion i'r partiön sy'n contractio. Gan gyfeirio at brofiad diweddar, gwnaeth fy nghyd-Aelod, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, waith ardderchog wrth ymdrin â'r materion a grybwyllwyd gennyh, ac mae fy nghyd-Aelod, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi ystyried y materion eraill.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): Like you, I take a pragmatic view of PFI projects: I think that they are good when they succeed. For example, Penweddig School in Aberystwyth, which I know the Minister has visited, has been a considerable success. Will you encourage local authorities to consider PFI sympathetically given the success of such schemes? I recently visited Maes-y-Dderwen Comprehensive School in Ystradgynlais, which sorely needs a new building: a PFI project might be the answer. Will you consider consulting with local authorities as to how such projects might provide an answer to the problem of buildings that are falling into disrepair?

Edwina Hart: I will discuss those matters with the Welsh Local Government Association. I am opening two schools in Caerphilly next week that I believe were the result of PFI projects.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Fel chi, mae gennyf agwedd bragmatig tuag at brosiectau PFI: credaf eu bod yn dda pan fyddant yn llwyddo. Er enghraifft, yr oedd Ysgol Penweddig yn Aberystwyth, a gwn fod y Gweinidog wedi ymweld â hi, yn llwyddiant sylweddol. A fyddwch yn annog awdurdodau lleol i ystyried PFI yn garedig o ystyried llwyddiant cynlluniau o'r fath? Yn ddiweddar, ymwelais ag Ysgol Gyfun Maes-y-Dderwen yn Ystradgynlais, y mae angen adeilad newydd yn ddirfawr arni: efallai mai prosiect PFI fyddai'r ateb. A ystyriwch ymgynghori ag awdurdodau lleol o ran sut y gall prosiectau o'r fath ateb problem adeiladau y mae angen gwaith trwsio arnynt.

Edwina Hart: Trafodaf y materion hynny gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yr wyf yn agor dwy ysgol yng Nghaerffili'r wythnos nesaf a gafwyd o ganlyniad i brosiectau PFI, mi gredaf.

Adeilad Newydd y Cynulliad The New Assembly Building

Q6 Alun Cairns: What estimate has the Minister made of the costs, to date, of delaying the new Assembly building? (OAQ20415)

Edwina Hart: The costs of the delay are difficult to quantify, partly because I never received a firm price from the Richard Rogers Partnership for the revised design that was progressed prior to the termination of its contract. The design on which we have now gone out to tender is an enhanced version of the original and the revised designs. Therefore, any estimate of the cost of delay would be based on opinion only, and would not compare like with like.

Alun Cairns: I hope that I can help the Minister by reminding her that when the First Minister reviewed the project in March 2002, the Auditor General for Wales announced that that delay of three months cost the taxpayer £380,000. Given that Lord Rogers was sacked in July 2001 and that we are led to believe that the work will not begin on the new chamber until June or July 2003, that delay of 24 months, if calculated on a similar

C6 Alun Cairns: Pa amcangyfrif mae'r Gweinidog wedi ei wneud o'r gost hyd yn hyn o ohirio adeiladu adeilad newydd y Cynulliad? (OAQ20415)

Edwina Hart: Mae'r gost o ohirio yn anodd i'w mesur, yn rhannol oherwydd na chefais erioed bris pendant gan Bartneriaeth Richard Rogers ar gyfer y dyluniad diwygiedig a ddatblygwyd cyn terfynu ei contract. Mae'r dyluniad yr ydym bellach wedi'i osod ar dendr yn fersiwn gwell o'r dyluniadau gwreiddiol a diwygiedig. Felly, byddai unrhyw amcangyfrif o ran cost gohirio yn seiliedig ar farn yn unig, ac ni fyddai'n cymharu tebyg at ei debyg.

Alun Cairns: Gobeithio y gallaf helpu'r Gweinidog drwy ei hatgoffa i Archwilydd Cyffredinol Cymru, pan adolygodd y Prif Weinidog y prosiect ym mis Mawrth 2002, gyhoeddi i'r oedi hwnnw am dri mis gostio £380,000 i'r trethdalwr. O ystyried y cafodd yr Arglwydd Rogers ei ddiswyddo yng Ngorffennaf 2001 ac y cawn ein harwain i gredu na fydd y gwaith yn dechrau ar y siambr newydd tan Fehefin neu Orffennaf

basis, will cost more than £3 million. Will the Minister advise us from which budget she has cut that £3 million?

Edwina Hart: You do not understand the National Assembly budget process. I do not intend to give a lecture on it. However, this project is now correctly on-line. It will come in on a fixed price. We will know what that price will be. It will then be for the Assembly to decide on that. I am content with that process and to be taking this forward. Your problem is that you cannot make any more political points out of the new building because people are not interested. They know that we are doing the job properly. Nobody would deny that we need a new Assembly chamber in Wales, and we are dealing responsibly with this. I will not guesstimate. I intend, as always, to protect the Assembly's position and act as prudently as I can. [*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. I am always keen to ensure that views on all issues are protected, but it also helps if the Minister is heard when responding to questions.

2:40 p.m.

Owen John Thomas: Almost every major building project, here and elsewhere, in the public and private sectors, is subject to uncertainties over costs and completion dates. Yet cities all over the world boast elegant buildings that are magnificent memorials to the confidence of politicians and planners. Why is the Assembly Government alone incapable of managing a building project and how will you get us out of this mess?

Edwina Hart: It is not a mess. I manage the project well on behalf of the Government. We are managing it properly. We will get good value for money, we will have a prestigious building, and some of us will hopefully be back in it—though some of you will not.

2003, bydd y gohirio hwnnw am 24 mis, pe'i cyfrifid ar sail debyg, yn costio mwy na £3 miliwn. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym o ba gyllideb y mae wedi cymryd y £3 miliwn hynny?

Edwina Hart: Nid ydych yn deall proses gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol. Nid wyf yn bwriadu rhoi darlith arni. Fodd bynnag, mae'r prosiect hwn ar y trywydd cywir bellach. Daw i mewn ar bris sefydlog. Byddwn yn gwybod beth fydd y pris hwnnw. Yna cyfrifoldeb y Cynulliad fydd penderfynu ar hynny. Yr wyf yn fodlon ar y broses honno ac fy mod yn ei datblygu. Eich problem chi yw na allwch wneud rhagor o bwyntiau gwleidyddol am yr adeilad newydd gan nad oes gan bobl ddiddordeb. Gwyddant ein bod yn gwneud y gwaith yn gywir. Ni fyddai unrhyw un yn gwadu bod angen siambr Cynulliad newydd arnom yng Nghymru, ac yr ydym yn ymdrin â hyn yn gyfrifol. Nid wyf yn barod i ddyfalu. Fy mwriad, fel arfer, yw amddiffyn safbwynt y Cynulliad a gweithredu mor ddoeth ag y gallaf. [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf bob amser yn awyddus i sicrhau y diogelir safbwyntiau ar bob mater, ond mae'n helpu hefyd i'r Gweinidog gael ei chlywed wrth ateb cwestiynau.

Owen John Thomas: Mae bron pob prif brosiect adeiladu, yma ac mewn mannau eraill, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, yn agored i ansicrwydd ynghylch costau a dyddiadau cwblhau. Eto mae dinasoedd ledled y byd ag adeiladau cain sy'n gofebion gwych i hyder gwleidyddion a chynllunwyr. Pam mai Llywodraeth y Cynulliad yn unig sy'n methu â rheoli prosiect adeiladu a sut y byddwch yn ein hachub o'r twll hwn?

Edwina Hart: Nid twll mohono. Yr wyf yn rheoli'r prosiect yn dda ar ran y Llywodraeth. Yr ydym yn ei reoli yn gywir. Byddwn yn sicrhau gwerth da am arian, bydd adeilad clodfawr gennym, a bydd rhai ohonom yn dychwelyd iddo gobeithio—ond eraill ddim.

Y Gyllideb Derfynol Final Budget

Q7 Karen Sinclair: Will the Minister give a brief update on the recently announced final budget? (OAQ20385)

C7 Karen Sinclair: A wnaiff y Gweinidog roi crynodeb o'r newyddion diweddaraf am y gyllideb derfynol a gyhoeddwyd yn ddiweddar? (OAQ20385)

Edwina Hart: In the final budget I allocated an additional £66.3 million over three years for the ambulance trusts, communication equipment, community hospitals, and maintenance schemes. I allocated £12 million over three years to the drug and alcohol initiatives budget, which allows us to set up the equivalent of five additional community drug and alcohol teams across Wales. I have also provided an additional £200,000 a year for three years for the Wales Trades Union Congress learning services, more than £1.4 million extra in 2004-05 for the Coalfields Regeneration Trust, and £1.5 million for the Forestry Commission in 2003-04 in support of Objective 1 projects and related activities.

Edwina Hart: Yn y gyllideb derfynol dyrennais £66.3 miliwn ychwanegol dros dair blynedd ar gyfer yr ymddiriedolaethau ambiwlans, cyfarpar cyfathrebu, ysbytai cymunedol, a chynlluniau cynnal a chadw. Dyrennais £12 miliwn dros dair blynedd i'r gyllideb mentrau cyffuriau ac alcohol, sy'n caniatáu inni sefydlu'r hyn sy'n cyfateb i bum tîm cyffuriau ac alcohol cymunedol ychwanegol ledled Cymru. Yn ogystal, darperais £200,000 ychwanegol y flwyddyn am dair blynedd ar gyfer gwasanaethau dysgu Cyngres Undebau Llafur Cymru, mwy na £1.4 filiwn yn ychwanegol yn 2004-05 ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, ac £1.5 filiwn ar gyfer y Comisiwn Coedwigaeth yn 2003-04 i gynnal prosiectau Amcan 1 a gweithgareddau cysylltiedig.

Karen Sinclair: Do you agree that the Assembly's final budget is excellent news for social services, including services for older people? I am pleased about that in Clwyd South.

Karen Sinclair: A gytunwch fod cyllideb derfynol y Cynulliad yn newyddion ardderchog i wasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol i bobl hŷn? Yr wyf yn falch o hynny yn Ne Clwyd.

Edwina Hart: I have been pleased with the discussions that I had on the budget regarding health and social services. A strong case was made by the Minister for Health and Social Services and the Health and Social Services Committee on the need to enhance social services provision. Ensuring the proper funding of social services is of grave concern to Members across Wales, and I am pleased that my final budget reflected that. In my initial answer to you, I said that £12 million had been allocated over three years for drug and alcohol initiatives. That is the money ring-fenced in the health budget. I should have said that there is a total of £18 million over three years for those initiatives.

Edwina Hart: Bûm yn fodlon ar y trafodaethau a gefais ar y gyllideb o ran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Cyflwynodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol achos cryf dros yr angen i wella'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau cymdeithasol. Mae sicrhau yr ariennir gwasanaethau cymdeithasol yn gywir yn achosi pryder mawr i Aelodau ledled Cymru, ac yr wyf yn falch i'm cyllideb derfynol adlewyrchu hynny. Yn fy ateb cychwynol i chi, dywedais fod £12 miliwn wedi'i ddyrannu dros dair blynedd ar gyfer mentrau cyffuriau ac alcohol. Dyna'r arian a neilltuwyd yn y gyllideb iechyd. Dylaswn ddweud bod cyfanswm o £18 miliwn dros dair blynedd ar gyfer y mentrau hynny.

Peter Rogers: I would be the last person to

Peter Rogers: Fi fyddai'r person diwethaf i

seek extra financial support in the budget for the agricultural industry. However, I am concerned about the distribution of European money to the farming industry. Is it possible to allocate extra money to ensure that Welsh farmers have parity with the English, Irish and Scottish farmers who receive this money, as well as whatever money you could make available that is required to put in equipment?

Edwina Hart: I assume that you are referring to the sheep annual premium and the £18 per sheep that is going out to farmers quite successfully now. We have installed a new computer system, and everything is flowing well. Farmers will be pleased when they receive their cheques.

Janet Ryder: One area of the budget that you have not revisited is the homebuy scheme. I ask you again to reconsider that scheme, and announce a special grant that would provide more funds for those areas where house prices are making it impossible for young people to buy homes in their communities.

Edwina Hart: I am undertaking a review of homebuy. I am focusing—*[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order. I have already requested that Members listen to the Minister in relative silence. This continual chattering, wherever it may come from, is not helpful.

Edwina Hart: I am undertaking a review, and I might make some interim decisions depending on the findings of that review.

geisio cymorth ariannol ychwanegol yn y gyllideb ar gyfer y diwydiant amaethyddol. Fodd bynnag, pryderaf ynglŷn â'r ffordd y caiff arian Ewrop ei ddsbarthu i'r diwydiant ffermio. A oes modd dyrannu arian ychwanegol i sicrhau y caiff ffermwyr yng Nghymru eu trin yn yr un ffordd â ffermwyr Lloegr, Iwerddon a'r Alban sy'n cael yr arian hwn, yn ogystal â pha arian bynnag y gallech ei ryddhau sy'n ofynnol i osod cyfarpar.

Edwina Hart: Cymeraf eich bod yn cyfeirio at y premiwm defaid blynyddol a'r £18 fesul dafad sy'n cael ei dalu i ffermwyr yn eithaf llwyddiannus ar hyn o bryd. Yr ydym wedi sefydlu system gyfrifiadur newydd, ac mae popeth yn gweithio'n dda. Bydd ffermwyr yn falch pan fyddant yn cael eu sicciau.

Janet Ryder: Un rhan o'r gyllideb nad ydych wedi ei hailstyried yw'r cynllun prynu cartref. Gofynnaf eto ichi ailstyried y cynllun hwnnw, a chyhoeddi grant arbennig a fyddai'n darparu mwy o arian i'r ardaloedd hynny lle mae prisiau tai yn ei gwneud yn amhosibl i bobl ifanc brynu cartrefi yn eu cymunedau.

Edwina Hart: Yr wyf yn cynnal adolygiad o'r cynllun prynu cartref. Yr wyf yn canolbwyntio—*[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf eisoes wedi gofyn i'r Aelodau wrando ar y Gweinidog mewn tawelwch cymharol. Nid yw'r sgwrsio parhaus hwn, o ble bynnag y daw, o gymorth.

Edwina Hart: Yr wyf yn cynnal adolygiad, ac efallai y gwnaf rai penderfyniadau dros dro yn dibynnu ar ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw.

Dibyniaeth ar Gyffuriau ac Alcohol Drug and Alcohol Rehabilitation

Q8 Janice Gregory: Will the Minister make a statement on the proposed funding for drug and alcohol rehabilitation as outlined in her most recent budget proposals? (OAQ20417)

Edwina Hart: In my recent speech I gave a clear commitment of the priority that the Government gives to tackling the problems of drug and alcohol misuse. The drug and

C8 Janice Gregory: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyllid arfaethedig ar gyfer triniaethau ailsefydlu yn dilyn dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, a amlinellwyd yn ei chyllideb ddiweddaraf? (OAQ20417)

Edwina Hart: Yn fy araith ddiweddar rhoddais ymrwymiad clir o'r flaenoriaeth y mae'r Llywodraeth yn ei rhoi i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â

alcohol initiative budget currently stands at £3.4 million. I am allocating an additional £3 million for next year, £6 million for 2004-05, and £9 million for 2005-06. For next year, that additional funding will allow us to set up the equivalent of five additional community drug and alcohol teams across Wales. That means more community psychiatric nurses, more support staff, and more time for general practitioners to prescribe substitute medication. In addition, that will allow over 1,000 more people to access community detoxification services. That will expand in the following two years in line with the increase in funding. I will also consider the availability of, and demand for, bed spaces for residential detoxification and rehabilitation treatment, and will address any shortages.

Janice Gregory: Thank you for taking time yesterday to visit Brynawel House in Llanharan, in my constituency—at my invitation—to witness the good work carried out there, and to meet the residents. I know that you agree that we must take swift and serious action to tackle the incidence of drug and, in particular, alcohol related problems. What assistance are you considering in terms of providing residential and family care services, in addition to day care services, in Wales?

Edwina Hart: We are trying to get a clear picture of the voluntary sector bed provision across Wales, so that we know what facilities are available. One area of grave concern, as discussed at the last meeting of the Local Government and Housing Committee, is whether specialist care is available for addicts' families and children. We must consider best practice. The way in which the community in Merthyr Tydfil has addressed these issues is an excellent example. When I have collated all the information, I will decide how best practice can be spread across Wales and, more importantly, whether further resources should be allocated.

David Ian Jones: You said last week that you were impressed by the work of Drug

chamdddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Cyllideb bresennol y fenter cyffuriau ac alcohol yw £3.4 miliwn. Yr wyf yn dyrannu £3 miliwn ychwanegol ar gyfer y flwyddyn nesaf, £6 miliwn ar gyfer 2004-05, a £9 miliwn ar gyfer 2005-06. Ar gyfer y flwyddyn nesaf, bydd y cyllid ychwanegol hwnnw yn caniatáu inni sefydlu'r hyn sy'n cyfateb i bum tîm cyffuriau ac alcohol cymunedol ychwanegol ledled Cymru. Mae hynny'n golygu mwy o nyrsys seiciatryddol yn y gymuned, mwy o staff cymorth, a mwy o amser i feddygon teulu ragnodi meddyginiaeth newydd. Yn ogystal, bydd hynny'n caniatáu i 1,000 o bobl ychwanegol ddefnyddio gwasanaethau dadwenwyno yn y gymuned. Bydd hynny'n ehangu yn y ddwy flynedd ddilynol yn unol â'r cynnydd mewn cyllid. Ystyriaf hefyd argaeledd gwelyau ar gyfer triniaethau dadwenwyno ac ailsefydlu preswyl, a'r galw amdanynt, a byddaf yn delio ag unrhyw brinder.

Janice Gregory: Diolch am gymryd yr amser ddoe i ymweld â Thŷ Brynawel yn Llanharan, yn fy etholaeth—yn dilyn fy ngwahoddiad—i weld y gwaith da a wneir yno, a chwrdd â'r preswylwyr. Gwn eich bod yn cytuno bod yn rhaid inni weithredu'n gyflym ac o ddifrif i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac, yn arbennig, alcohol. Pa gymorth a ystyrir gennych o ran darparu gwasanaethau gofal preswyl a theulu, yn ychwanegol i'r gwasanaethau gofal dydd, yng Nghymru?

Edwina Hart: Yr ydym yn ceisio cael darlun clir o'r ddarpariaeth o welyau yn y sector gwirfoddol ledled Cymru, er mwyn inni wybod pa gyfleusterau sydd ar gael. Un maes sy'n peri gofid mawr, ac a drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, yw a oes gofal arbenigol ar gael ar gyfer teuluoedd a phlant y rhai sy'n gaeth i gyffuriau neu alcohol. Rhaid inni ystyried arferion gorau. Mae'r ffordd yr ymdriniodd y gymuned ym Merthyr Tudful â'r materion hyn yn enghraifft wych. Ar ôl imi gasglu'r holl wybodaeth, byddaf yn penderfynu ar sut i ledaenu arferion gorau ledled Cymru ac, yn bwysicach, a ddylid dyrannu adnoddau ychwanegol.

David Ian Jones: Dywedasoeh yr wythnos diwethaf fod gwaith Drug Abuse Resistance

Abuse Resistance Education (UK) Ltd in Rhondda. You also said that you were examining ways of evaluating its work, which must be done before the programme can be rolled out across Wales. I understand that the University of Glamorgan has indicated that it would be prepared to carry out such an evaluation at a cost of less than £25,000. Will you consider committing Assembly funds for such an evaluation to be carried out?

Edwina Hart: I am considering the cost of evaluating the work of small organisations such as DARE. Unless the work of such organisations is evaluated, I cannot provide them with further funding. I am discussing with officials how best I can assist them. I will hopefully have good news for projects across Wales, in terms of how I intend to assist them in the evaluation process.

Lorraine Barrett: Over the last few weeks, there has been focus on drug and alcohol problems in the Valleys, and rightly so. However, will you give an assurance that cities such as Cardiff, Swansea and Newport, where there are similar problems and challenges, will fare just as well in terms of the distribution of funds?

Edwina Hart: Drug and alcohol abuse is a problem in all parts of Wales, and appropriate resources must be allocated across the board. There are problems in cities, but there are also huge problems in rural areas, as people in those areas may be isolated and may not have the same access to advice and other services. We must have a comprehensive solution for Wales. It will take time to develop that solution, as we are building on a low base. However, we have been working on this since we came into Government, and it is important to recognise that the changes will occur over a period of 10 years.

Education (UK) Cyf yn y Rhondda wedi creu argraff arnoch. Dywedasoch hefyd eich bod yn archwilio ffyrdd o werthuso ei waith, ac y mae'n rhaid gwneud hynny cyn y gellir cyflwyno'r rhaglen ledled Cymru. Deallaf fod Prifysgol Morgannwg wedi dweud y byddai'n barod i gynnal gwerthusiad o'r fath ar gost o lai na £25,000. A wnewch ystyried neilltuo arian y Cynulliad ar gyfer gwerthusiad o'r fath?

Edwina Hart: Yr wyf yn ystyried y gost o werthuso gwaith sefydliadau bach fel DARE. Oni chaiff gwaith sefydliadau o'r fath ei werthuso, ni allaf ddarparu mwy o gyllid iddynt. Yr wyf yn trafod â swyddogion y ffordd orau y gallaf eu cynorthwyo. Gobeithiaf y bydd gennyf newyddion da i brosiectau ledled Cymru, o ran sut yr wyf yn bwriadu eu cynorthwyo yn y broses werthuso.

Lorraine Barrett: Yn ystod yr wythnosau diwethaf, canolbwyntiwyd ar broblemau cyffuriau ac alcohol yn y Cymoedd, a da hynny. Fodd bynnag, a roddwch sicrwydd y caiff dinasoedd fel Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd, lle y ceir problemau a heriau tebyg, yr un chwarae teg o ran yr arian a ddysrennir?

Edwina Hart: Mae camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn broblem ym mhob rhan o Gymru, a rhaid dyrannu adnoddau priodol i bob ardal. Ceir problemau mewn dinasoedd, ond ceir problemau enfawr hefyd mewn ardaloedd gwledig, oherwydd gallai pobl yn yr ardaloedd hynny fod wedi'u hynysu ac mae'n bosibl nad oes ganddynt yr un cyfle i gael cyngor ac i fanteisio ar wasanaethau eraill. Rhaid inni gael ateb cynhwysfawr i Gymru. Bydd datblygu'r ateb hwnnw yn cymryd amser, gan ein bod yn adeiladu ar sylfaen isel. Fodd bynnag, yr ydym wedi bod yn gweithio ar hyn ers inni ddod i rym, ac mae'n bwysig cydnabod y bydd y newidiadau yn digwydd dros gyfnod o 10 mlynedd.

Datganiad ar Ganiatáu i Nyrsys ddarparu Presgripsiynau yng Nghymru Statement on the Roll-out of Nurse Prescribing in Wales

The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt): I am glad to have this

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Yr wyf yn falch

opportunity to make a statement on the Welsh Assembly Government's plans to take nurse prescribing forward in Wales. The 1986 Cumberlege report was the first official report to call for nurse prescribing, recommending that community nurses should be able to prescribe from a limited list of items. In 1989, a Department of Health report endorsed the views of Cumberlege. It recommended that suitably qualified registered nurses, restricted in the first instance to those with a district nurse or health visitor qualification, should be authorised to prescribe from a limited list, namely the nurse prescribers' formulary.

Nurse prescribing was identified as having several clear benefits, such as an improvement in patient care, better use of the time of patients, nurses and general practitioners and a clarification of professional responsibilities, which leads to improved communication between team members.

Primary legislation permitting nurses to prescribe was passed in 1992, and in 1994 nurse prescribing began at eight demonstration sites in England. An announcement of a national roll-out of nurse prescribing was made in 1998, for nurses with district nurse or health visitor qualifications working in the community and employed by an NHS trust or by a general practitioner, or those engaged in personal medical services pilot schemes.

Wales commenced training in 2000, with a programme similar to that in England, but with several important differences, namely a national standard curriculum for Wales, developed with the support and guidance of the Welsh School of Pharmacy, and the inclusion of a mandatory calculations module. This last point was to underpin both patient and professional safety, and it has marked us out in Wales. The other countries of the UK are now considering introducing a similar calculations module as an integral part of their courses.

o gael y cyfle hwn i wneud datganiad ar gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ganiatáu i nyrsys ddarparu presgripsiynau yng Nghymru. Adroddiad Cumberlege yn 1986 oedd yr adroddiad swyddogol cyntaf i ofyn am ganiatáu i nyrsys ddarparu presgripsiynau, gan argymhell y dylai nyrsys cymuned allu rhagnodi o restr gyfyngedig o eitemau. Yn 1989, ategodd adroddiad gan yr Adran Iechyd sylwadau Cumberlege. Argymhellodd y dylid awdurdodi nyrsys cofrestredig â chymwysterau addas, gan gyfyngu'r rhain yn y lle cyntaf i'r nyrsys hynny â chymhwyster nyrs ardal neu gymhwyster ymwelydd iechyd, i ragnodi o restr gyfyngedig, sef y cyffurlyfr ar gyfer nyrsys sy'n rhagnodi.

Nodwyd bod sawl mantais glir o ganiatáu i nyrsys ddarparu presgripsiynau, gan gynnwys gwella gofal cleifion, gwneud defnydd gwell o amser cleifion, nyrsys a meddygon teulu a sicrhau bod cyfrifoldebau proffesiynol yn gliriach, sy'n arwain at well cyfathrebu rhwng aelodau'r tîm.

Pasiwyd deddfwriaeth sylfaenol yn caniatáu i nyrsys ragnodi yn 1992, ac yn 1994 dechreuodd y broses o ganiatáu i nyrsys ddarparu presgripsiynau mewn wyth safle enghreifftiol yn Lloegr. Yn 1998 cyhoeddwyd y byddid yn caniatáu i nyrsys ddarparu presgripsiynau yn genedlaethol, a hynny'n cynnwys nyrsys â chymwysterau nyrs ardal neu ymwelydd iechyd sy'n gweithio yn y gymuned ac a gyflogir gan ymddiriedolaeth GIG neu gan feddyg teulu, neu'r rhai sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau peilot ym maes gwasnaethau meddygol personol.

Dechreuwyd ar yr hyfforddiant yng Nghymru yn 2000, gyda rhaglen sy'n debyg i'r un yn Lloegr, ond gyda sawl gwahaniaeth pwysig, sef cwricwlwm safonau cenedlaethol i Gymru, a ddatblygwyd â chefnogaeth ac arweiniad Ysgol Fferylliaeth Cymru, a hefyd y ffaith bod y rhaglen yn cynnwys modiwl cyfrifiadau gorfodol. Yr oedd y pwynt olaf hwn er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a diogelwch proffesiynol, ac mae wedi rhoi enw da inni yng Nghymru. Mae gwledydd eraill y DU bellach yn ystyried cyflwyno modiwl cyfrifiadau tebyg fel rhan hanfodol

o'u cyrsiau.

2:50 p.m.

I am grateful for recommendations on nurse prescribing made by the Welsh steering group, which was led by June Smail. The Welsh Assembly Government has spent almost £0.5 million in the last financial year to ensure that nurses across Wales are equipped with the training they need to take this initiative forward. The initial phase of training in Wales was completed on target in July 2002, with 1,500 nurses successfully completing the course and being registered as nurse prescribers with the Nursing and Midwifery Council.

Yr wyf yn ddiolchgar am yr argymhellion ar ganiatáu i nyrsys ddarparu presgripsiynau a wnaethpwyd gan grŵp llywio Cymru, a arweiniwyd gan June Smail. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwario ymron i £0.5 miliwn yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf i sicrhau bod nyrsys ledled Cymru yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i ddatblygu'r fenter hon. Cwblhawyd y cam cychwynnol o hyfforddiant yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2002, sef y targed yr anelwyd ato, a llwyddodd 1,500 o nyrsys i gwblhau'r cwrs a chael eu cofrestru fel nyrsys sy'n darparu presgripsiynau gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

In 1999, a further Department of Health report recommended that prescribing rights should be extended to include other groups of nurses, pharmacists and other health professionals eventually. In March 2001, the report of the Assembly's task and finish group on prescribing recommended that the roles of pharmacists and nurses as supplementary prescribers must be developed to offer patients regular opportunities for dialogue and monitoring of their medicines.

Yn 1999, argymhellodd adroddiad pellach gan yr Adran Iechyd y dylid ymestyn hawliau rhagnodi i gynnwys grwpiau eraill o nyrsys, fferyllwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn y pen draw. Ym mis Mawrth 2001, argymhellodd adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen y Cynulliad ar ragnodi y dylid datblygu rôl fferyllwyr a nyrsys fel rhagnodwyr atodol er mwyn cynnig cyfleoedd rheolaidd i gleifion drafod a monitro eu meddyginiaeth.

More recently, 'Improving Health in Wales—A Plan for the NHS and its Partners: January 2001', signalled the reform of healthcare throughout Wales. Underpinning these changes is the commitment to a patient-centred NHS, where services meet the needs of the patient and not the other way around. An important aspect of the plan's success will be in capitalising on professionals' willingness to work in new and different ways and encouraging them to do so where appropriate. The freedom to prescribe will allow nurses and other professionals to work in a new and exciting way, which benefits patients and NHS organisations.

Yn fwy diweddar, nododd 'Gwella Iechyd yng Nghymru—Cynllun i'r GIG ynghyd â'i Bartneriaid: Ionawr 2001', y broses o ddiwygio gofal iechyd ledled Cymru. Mae'r ymrwymiad i sicrhau GIG sy'n canolbwyntio ar gleifion, lle y mae gwasanaethau yn diwallu anghenion y claf ac nid fel arall, yn ganolog i'r newidiadau hyn. Agwedd bwysig ar lwyddiant y cynllun fydd manteisio ar barodrwydd gweithwyr iechyd proffesiynol i weithio mewn ffyrdd newydd a gwahanol a'u hannog i wneud hynny lle y bo'n briodol. Bydd y rhyddid i ragnodi yn caniatáu i nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill weithio mewn ffordd newydd a chyffrous, a fydd yn fanteisiol i gleifion ac i sefydliadau'r GIG.

We consulted on the extension of prescribing rights to nurses and pharmacists earlier this year, and the necessary legislative changes are now in train to enable supplementary prescribing. That will allow professional

Ymgynghorasom ar ymestyn hawliau rhagnodi i nyrsys a fferyllwyr yn gynharach eleni, ac mae'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol bellach ar waith i alluogi rhagnodi atodol. Bydd hynny'n galluogi

partnerships to treat more complex conditions, such as chronic disease and mental illness, following an initial assessment of the patient by a doctor, and through an agreed written individual clinical management plan for the patient's condition. Our next approach is to build on our success to date and identify and target specialist groups such as practice nurses who run their own surgeries, specialist nurses such as asthma or diabetes nurses, consultant nurses, midwives and health visitors, and midwives who manage the whole episode of pregnancy and normal labour.

We will be measured and focused on the next steps to ensure that we get the best possible return on our investment in this field. We will pursue the development of an appropriate training package. I remain convinced that nurse prescribing has an important role to play in a modern health service, and it is one way of reducing pressure on other severely pressured sectors. I will make further statements as the scheme develops.

David Lloyd: Nurse prescribing is a long overdue initiative. I have been a doctor for more than 22 years and have long considered nurses as highly qualified health professionals. In the community sphere, our district nurses and health visitors have far more detailed knowledge than GPs in certain clinical areas. That level of detailed knowledge has long justified nurses prescribing in their particular area of strength, rather than advising the GP on what needs prescribing. That is why I said that this initiative is long overdue. The Cumberlege report came out in 1986. These things take a long time to roll-out, so this is a welcome initiative.

I will ask some specific questions. You alluded to 1,500 nurses successfully trained by July 2002. What is the number of nurses in the current further roll-out of nurse prescribing? What further funding has been earmarked for the roll-out of nurse

partneriaethau proffesiynol i drin cyflyrau mwy difrifol, fel clefyd cronig a salwch meddwl, yn dilyn asesiad cychwynnol o'r claf gan feddyg, a thrwy gynllun rheoli clinigol unigol ysgrifenedig y cytunwyd arno ar gyfer cyflwr y claf. Ein tasg nesaf yw adeiladu ar ein llwyddiant hyd yma a nodi a thargeddu grwpiau arbenigol fel nyrsys practis sy'n rhedeg eu meddygfeydd eu hunain, nyrsys arbenigol fel nyrsys asthma neu nyrsys clefyd siwgr, nyrsys ymgynghorol, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd, a bydwragedd sy'n rheoli beichiogrwydd ac esgor arferol o'r dechrau i'r diwedd.

Byddwn yn canolbwyntio ac yn ystyriol wrth gymryd y camau nesaf i sicrhau y cawn y budd gorau o'n buddsoddiad yn y maes hwn. Byddwn yn mynd ar drywydd y broses o ddatblygu pecyn hyfforddi priodol. Yr wyf yn dal yn argyhoeddedig bod caniatáu i nyrsys ddarparu presgripsiynau yn chwarae rhan flaenllaw mewn gwasanaeth iechyd modern, ac mae'n un ffordd o leihau'r pwysau ar sectorau eraill sydd o dan bwysau mawr. Byddaf yn gwneud datganiadau pellach wrth i'r cynllun ddatblygu.

David Lloyd: Mae caniatáu i nyrsys ddarparu presgripsiynau yn fenter hir-ddisgwyliedig. Yr wyf wedi bod yn feddyg am dros 22 o flynyddoedd ac wedi ystyried nyrsys yn weithwyr iechyd proffesiynol cymwys iawn ers blynyddoedd. Yn y gymuned, mae ein nyrsys ardal a'n hymwelwyr iechyd yn meddu ar wybodaeth fanylach o lawer na meddygon teulu mewn rhai meysydd clinigol. Mae'r lefel honno o wybodaeth fanwl wedi cyfiawnhau ers blynyddoedd y dylai nyrsys allu rhagnodi yn eu maes penodol hwy, yn hytrach na chynghori meddygon teulu ar yr hyn sydd angen ei ragnodi. Dyna pam y dywedais fod y fenter hon yn un hir-ddisgwyliedig. Cyhoeddwyd adroddiad Cumberlege yn 1986. Mae'r pethau hyn yn cymryd amser hir i'w cyflwyno, felly mae'r fenter hon yn un i'w chroesawu.

Mae gennyf rai cwestiynau penodol. Gwnaethoch gyfeirio at y ffaith bod 1,500 o nyrsys wedi eu hyfforddi'n llwyddiannus erbyn mis Gorffennaf 2002. Beth yw nifer y nyrsys yn y broses bresennol o ganiatáu i fwy o nyrsys ddarparu presgripsiynau? Pa gyllid

prescribing, and what are the timescales involved in rolling out supplementary prescribing for nurses in Wales? In addition, what are the timescales for the development of the greater legal clinical responsibilities that cover this issue? We are talking about nurse prescribing, but I am also in favour of extending prescribing status to other equally well-qualified health professionals. Will the Minister detail what initiatives she will implement to extend prescribing status to other health professionals?

Jane Hutt: Thank you for welcoming the developments in Wales. As you say, 1,500 nurses have successfully completed the training and are now prescribing with the limited formulary that the independent prescribing arrangements permit. At present that is restricted to health visitors and district nurses. We are taking this forward to other, more specialist practice nurses such as those who lead clinics, diabetes nurses, asthma nurses and nurse consultants. This new development will also be open to pharmacists. We are now in discussions with the universities and the specialist services that can help us develop the training arrangements. We must prepare specific training as well as ensure the necessary legislative changes, which, of course, cover England and Wales.

We anticipate that we will train around 250 nurses and pharmacists at a cost of an extra £0.5 million. The Welsh Assembly Government has already allocated £0.5 million to start the independent prescribing route, but I am discussing a supplementary prescribing arrangement today. It will open a door in Wales to a wider range of nurse specialists and pharmacists and those at the sharp end in our communities who provide nurse-led services.

Karen Sinclair: Thank you for your statement today and your acknowledgement of the marvellous role played by practice nurses. Your visit to the Assembly-funded nurse practitioner in Plas Madoc was well

pellach a glustnodwyd ar gyfer caniatáu i nyrsys ddarparu presgripsiynau, a pha raddfeydd amser sydd o ran caniatáu rhagnodi atodol ar gyfer nyrsys yng Nghymru? Yn ogystal, beth yw'r graddfeydd amser ar gyfer datblygu'r cyfrifoldebau clinigol cyfreithiol ehangach sy'n cwmpasu'r mater hwn? Yr ydym yn trafod caniatáu i nyrsys ddarparu presgripsiynau, ond yr wyf hefyd o blaid ymestyn statws rhagnodi i weithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n meddu ar gymwysterau cystal. A wnaiff y Gweinidog egluro pa fentrau y bydd yn eu cyflwyno i ymestyn statws rhagnodi i weithwyr iechyd proffesiynol eraill?

Jane Hutt: Diolch am groesawu'r datblygiadau yng Nghymru. Fel y dywedaso, mae 1,500 o nyrsys wedi cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus ac maent bellach yn rhagnodi gyda'r cyffurlyfr cyfyngedig a ganiateir gan y trefniadau rhagnodi annibynnol. Ar hyn o bryd, cyfyngir hynny i ymwelwyr iechyd a nyrsys ardal. Yr ydym yn ehangu hyn i gynnwys nyrsys practis eraill, mwy arbenigol, fel y rhai sy'n arwain clinigau, nyrsys clefyd siwgr, nyrsys asthma a nyrsys ymgynghorol. Gall fferyllwyr hefyd fod yn rhan o'r datblygiad newydd hwn. Yr ydym bellach yn cynnal trafodaethau â phrifysgolion a'r gwasanaethau arbenigol a all ein helpu i ddatblygu'r trefniadau hyfforddi. Rhaid inni baratoi hyfforddiant penodol yn ogystal â sicrhau'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol, sydd, wrth gwrs, yn cwmpasu Cymru a Lloegr.

Rhagwelwn y byddwn yn hyfforddi tua 250 o nyrsys a fferyllwyr ar gost o £0.5 miliwn ychwanegol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi dyrannu £0.5 miliwn i ddechrau'r broses o ragnodi annibynnol, ond yr wyf yn trafod trefniant rhagnodi atodol heddiw. Bydd yn cynnig mwy o gyfleoedd yng Nghymru i ystod ehangach o nyrsys arbenigol a fferyllwyr a'r rhai sy'n chwarae rhan flaenllaw yn ein cymunedau o ran darparu gwasanaethau a arweinir gan nyrsys.

Karen Sinclair: Diolch am eich datganiad heddiw a'ch cydnabyddiaeth o'r rôl ragorol a chwaraeir gan nyrsys practis. Cymeradwywyd eich ymweliad â'r ymarferydd nyrsio ym Mhlas Madoc, a

received. It was a wonderful opportunity for Eiry, the marvellous nurse practitioner there, to give a presentation on how she saw the job developing. What progress is being made following that visit to increase nurse practitioners' responsibilities, allowing them to prescribe in their own right? At present, they must check with the doctor afterwards. Our nurse practitioner was keen to move the agenda forward and give greater autonomy to nurse practitioners. She argued that having that further specialisation would encourage nurses, would give them more job satisfaction and would encourage far more of them to remain in nursing.

Jane Hutt: My visit to Plas Madoc influenced me. As a result of a project under the inequalities in health fund, a nurse is now leading a surgery on a deprived estate in that community. She has been frustrated by her lack of prescribing powers. This takes us back to the report of the task and finish group on prescribing. The Committee was involved in the work of that group, which was created shortly after the establishment of the Assembly. The group's report recommended that the roles of pharmacists and nurses as supplementary prescribers should be developed. That is about offering patients regular opportunities for dialogue and about monitoring their medicines, as well as prescribing. Extra training will be required, as nurses will be able to prescribe from an extended formulary. The £500,000 will take this forward, and legislative changes must be made. The required extra training will ensure that practice nurses such as the nurse that I met at Plas Madoc will be able to take on this responsibility. I am sure that she will be one of the first to apply for that training.

David Melding: I commend you for taking forward this initiative, which was first developed by the Conservative Party. I am pleased to see it safe in your hands and, to be fair and gracious, that it is being developed and accelerated. It seems that a brisk start has been made, as 1,500 nurses have been trained so far. How many, or what percentage of nurses in Wales, are likely to have rights to prescribe? Also, you mentioned the

ariennir gan y Cynulliad. Yr oedd yn gyfle gwych i Eiry, yr ymarferydd nyrsio rhagorol yno, roi cyflwyniad ar sut y tybia hi y bydd y swydd yn datblygu. Pa gynnydd a wneir yn dilyn yr ymweliad hwnnw i gynyddu cyfrifoldebau ymarferwyr nyrsio, gan eu galluogi i ddarparu presgripsiynau eu hunain? Ar hyn o bryd, rhaid iddynt wirio â'r meddyg ar ôl gwneud hynny. Yr oedd ein hymarferydd nyrsio yn awyddus i ddatblygu'r agenda a rhoi mwy o ymreolaeth i ymarferwyr nyrsio. Dywedodd y byddai cael yr arbenigaeth ychwanegol honno'n galonogol i nyrsys, yn rhoi mwy o foddhad iddynt yn eu swyddi ac yn annog mwy o nyrsys o lawer i aros yn y proffesiwn.

Jane Hutt: Mae fy ymweliad â Phlas Madoc wedi dylanwadu arnaf. O ganlyniad i brosiect o dan y gronfa anghydraddoldebau iechyd, mae nyrs bellach yn arwain meddygfa ar ystad ddifreintiedig yn y gymuned honno. Mae ei diffyg pŵer i ddarparu presgripsiynau yn gwneud iddi deimlo'n rhwystredig. Mae hyn yn ein harwain yn ôl at adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar ragnodi. Bu'r Pwyllgor yn rhan o waith y grŵp, a grewyd yn fuan ar ôl sefydlu'r Cynulliad. Argymhellodd adroddiad y grŵp y dylid datblygu rolau'r fferyllwyr a'r nyrsys fel rhagnodwyr atodol. Mae hynny'n ymwneud â chynig cyfleoedd rheolaidd i gleifion drafod ac â monitro eu meddyginiaethau, yn ogystal â rhagnodi. Bydd angen hyfforddiant ychwanegol, gan y bydd nyrsys yn gallu rhagnodi o gyffurlyfr estynedig. Bydd y £500,000 yn symud hyn yn ei flaen, a bydd rhaid gwneud newidiadau deddfwriaethol. Bydd yr hyfforddiant ychwanegol angenrheidiol yn sicrhau bod nyrsys practis fel yr un y cyfarfûm â hi ym Mhlas Madoc yn gallu ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn. Yr wyf yn siŵr mai hi fydd un o'r nyrsys cyntaf i wneud cais am yr hyfforddiant.

David Melding: Yr wyf yn eich canmol am fwrw ymlaen â'r fenter hon, a ddatblygwyd yn gyntaf gan y Blaid Geidwadol. Yr wyf yn falch bod y fenter yn ddiogel yn eich dwylo ac, i fod yn deg ac yn raslon, ei bod yn cael ei datblygu a'i symud yn ei blaen. Ymddengys y bu dechrau cyflym i'r broses, gan fod 1,500 o nyrsys wedi'u hyfforddi eisoes. Sawl nyrs, neu ba ganran o nyrsys yng Nghymru, sy'n debygol o gael yr hawl i ragnodi? Hefyd,

formulary that has been approved for nurse prescribing. Is the extension of that a matter for the Assembly via secondary legislation, or is it set at the UK level?

crybwyllwyd y cyffurlyfr a gymeradwywyd ar gyfer caniatáu i nyrsys ddarparu presgripsiynau. A yw ymestyn hynny yn fater i'r Cynulliad drwy ddeddfwriaeth eilaidd, neu a gaiff hynny'i wneud ar lefel y DU?

3:00 p.m.

Jane Hutt: This is about modernising the health service in Wales. Our reforms involve putting more nurses in the front line, as many already lead teams across Wales. The 1,500 nurses working in the community as district nurses and health visitors are exercising their right to prescribe. The formulary for independent prescribing is more limited than the supplementary prescribing that will arise from the scheme I have announced today. We are taking this forward, in terms of legislation, on an England and Wales basis. Therefore it will be common primary legislation, which means that we will not require secondary legislation. However, we will implement it differently in Wales. We will introduce supplementary prescribing ahead of England, as it intends to continue to expand independent prescribing. We have recognised in Wales, from evidence relating to our health needs and circumstances, that people at the sharp end want to get on with the job of exercising the additional powers that will be available as a result of the common legislation for England and Wales.

Jane Hutt: Mae'r mater hwn yn ymwneud â moderneiddio'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Mae ein diwygiadau yn cynnwys rhoi mwy o nyrsys ar y rheng flaen, gan fod llawer ohonynt eisoes yn arwain timau ledled Cymru. Mae'r 1,500 o nyrsys sy'n gweithio yn y gymuned fel nyrsys ardal ac ymwelwyr iechyd yn arfer eu hawl i ragnodi. Mae'r cyffurlyfr ar gyfer rhagnodi annibynnol yn fwy cyfyngedig na'r rhagnodi atodol a fydd yn deillio o'r cynllun a gyhoeddwyd gennyf heddiw. Yr ydym yn datblygu'r cynllun hwn, o ran deddfwriaeth, ar sail Cymru a Lloegr. Felly, bydd yn ddeddfwriaeth sylfaenol gyffredin, sy'n golygu na fydd angen deddfwriaeth eilaidd arnom. Fodd bynnag, byddwn yn ei gweithredu'n wahanol yng Nghymru. Byddwn yn cyflwyno rhagnodi atodol cyn Lloegr, gan ei bod yn bwriadu ymestyn rhagnodi annibynnol. Cydnabuwyd yng Nghymru, yn sgîl tystiolaeth sy'n ymwneud â'n hanghenion a'n hamgylchiadau iechyd, fod y bobl sy'n chwarae rhan flaenllaw ym maes iechyd am fynd ati i arfer y pwerau ychwanegol a fydd ar gael o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth gyffredin i Gymru a Lloegr.

Kirsty Williams: I thank the Minister for her statement. I am sure that all Members agree with developing the nursing profession along these lines. If we are to do this, does the Minister agree that nurses must be properly paid for taking on new roles and responsibilities within a modern NHS? Will the Minister reassure us that the Welsh Assembly Government is preparing to implement 'Agenda for Change' and to undertake the work associated with modernising the nurses' pay regime to ensure that the process in Wales is swift and seamless, thereby avoiding the pitfalls encountered the last time we reorganised and re-scaled nurses' pay?

Kirsty Williams: Diolchaf i'r Gweinidog am ei datganiad. Yr wyf yn siŵr y bydd pob Aelod yn cytuno â datblygu'r proffesiwn nyrsio yn y modd hwn. Os ydym i wneud hyn, a yw'r Gweinidog yn cytuno bod yn rhaid rhoi cyflog priodol i nyrsys am ymgymryd â'r rolau a'r cyfrifoldebau newydd hyn mewn gwasanaeth iechyd modern? A wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd inni fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn paratoui i weithredu 'Agenda ar gyfer Newid' ac i ymgymryd â'r gwaith sy'n gysylltiedig â moderneiddio cyfundrefn cyflogau nyrsys i sicrhau bod y broses yng Nghymru yn digwydd yn gyflym ac yn ddi-dor, gan osgoi'r trafferthion a gafwyd y tro diwethaf inni ad-drefnu ac ailraddio cyflogau nyrsys?

Additional supplementary prescribing is Croesewir rhagnodi atodol ychwanegol, ac

welcome, and I do not disagree with the categories the Minister is seeking to prioritise. Will the Minister discuss with officials, nurses, and other clinicians, the possibility of extending supplementary prescribing rights to nurses who work in minor injury units in community hospitals, particularly in rural areas, where they may be in a position to deal with minor burns, cuts, sprains, hay fever, ear infections, and other minor injuries and illnesses, without having to drag a GP into the community hospital and take him or her away from other duties? Will she also consider developing a specialist field of prescribing in palliative care? This service is delivered in the community, either in a patient's home or in day hospices. This is an area where we could consider enhancing the role of nurse prescribing, as it would benefit the professionals working in the area as well as the patients receiving palliative care services in these settings.

Jane Hutt: You acknowledged the vital role that nurses play in providing healthcare and improving health. This role has also been acknowledged and rewarded in terms of pay and conditions. I assure you that the four UK countries are working and budgeting to implement 'Agenda for Change'. I discuss this issue on a regular basis with colleagues in the Royal College of Nursing. My commitment is as firm as ever and is reflected in the budget. This is about rewarding nurses and acknowledging their contribution. That is why we have proposed that some nurses become nurse consultants and others play an executive role on local health boards. We are also ensuring that nurse-led teams throughout Wales are acknowledged, supported and rewarded.

Supplementary prescribing will provide opportunities for specialist nurses, such as minor injury specialists and those who work in telemedicine, a field that is emerging across Wales. The new minor injuries telemedicine service in north Wales, which links community hospitals to Ysbyty Gwynedd, is a nurse-led service. The local health group in Powys recently won an award for the tele-dermatology project it is taking

nid anghytunaf â'r categorïau y mae'r Gweinidog yn ceisio rhoi blaenoriaeth iddynt. A wnaiff y Gweinidog drafod â swyddogion, nyrsys, a chlinigwyr eraill, y posibilrwydd o ymestyn hawliau rhagnodi atodol i nyrsys sy'n gweithio mewn unedau lle trinir mân anafiadau mewn ysbytai cymuned, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle y gallant ddelio â mân losgiadau, archollion, ysgiadau, clefyd y gwair, heintiau'r glust, a mathau eraill o anafiadau a salwch llai difrifol, heb orfod gofyn i feddygon teulu fynd i'r ysbyty cymuned gan eu gorfodi i adael eu dyletswyddau eraill? A wnaiff hi hefyd ystyried datblygu maes arbenigol o ddarparu presgripsiynau mewn gofal lliniarol? Cyflwynir y gwasanaeth hwn yn y gymuned, naill ai yng nghartref y claf neu mewn hosbis dydd. Dyma faes lle y gallwn ystyried gwella rôl rhagnodi gan nyrsys, gan y byddai er budd y gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio yn y maes yn ogystal â'r cleifion sy'n cael gwasanaethau gofal lliniarol yn y lleoliadau hyn.

Jane Hutt: Cydnabuwyd gennych y rôl hanfodol a chwaraeir gan nyrsys wrth ddarparu gofal iechyd a gwella iechyd. Cydnabuwyd a gwobrwywyd y rôl hon hefyd yn nhermau cyflogau ac amodau. Yr wyf yn eich sicrhau bod y pedair gwlad yn y DU yn gweithio ac yn cyllido i weithredu 'Agenda ar gyfer Newid'. Trafodaf y mater hwn yn rheolaidd gyda'm cydweithwyr yn y Coleg Nyrsio Brenhinol. Mae fy ymrwymiad mor gadarn ag erioed ac adlewyrchir hyn yn y gyllideb. Mae hyn yn ymwneud â gwobrwyo nyrsys a chydnabod eu cyfraniad. Dyna pam yr ydym wedi cynnig bod rhai nyrsys yn dod yn ymgynghorwyr nyrsio tra bod eraill yn chwarae rôl weithredol ar fyrddau iechyd lleol. Yr ydym hefyd yn sicrhau y caiff timau a arweinir gan nyrsys ledled Cymru eu cydnabod, eu cefnogi a'u gwobrwyo.

Bydd rhagnodi atodol yn rhoi cyfle i nyrsys arbenigol, fel arbenigwyr mân anafiadau a'r rhai sy'n gweithio ym maes telefeddygaeth, sy'n faes sy'n ymddangos ledled Cymru. Mae'r gwasanaeth telefeddygaeth newydd ar gyfer mân anafiadau yng ngogledd Cymru, sy'n cysylltu ysbytai cymuned ag Ysbyty Gwynedd yn wasanaeth a arweinir gan nyrsys. Yn ddiweddar, enillodd y grŵp iechyd lleol ym Mhowys wobwr am y prosiect

forward. I am sure that palliative care will be within the remit of that specialist expertise and that nurses will come within the supplementary prescribing remit and formula.

Peter Law: I welcome your statement, which I know will be endorsed as being for the good of the people of Wales. You said in your statement that you want to further develop specialist nurses. Will you consider providing funding for specialist epilepsy nurses across the whole of Wales? Epilepsy remains in the shadows but we have made strides in treating it in Gwent, thanks to the good work of the Gwent Epilepsy Group, which, in working with Gwent Healthcare NHS Trust, has successfully brought a specialist nurse to the Royal Gwent Hospital. I hope that epilepsy sufferers can look forward to more support in future.

Jane Hutt: That is the kind of area in which specialist nurses will be able to use their new powers, responsibilities and skills. I was fortunate to meet Gwent Epilepsy Group representatives recently and I recognise their work. We are also developing an epilepsy strategy for Wales.

teleddermatoleg a ddatblygir ganddo. Yr wyf yn siŵr y bydd gofal lliniarol o fewn cylch gorchwyl yr arbenigedd arbenigol hwnnw ac y bydd nyrsys yn dod o fewn y cylch gorchwyl a'r fformiwla rhagnodi atodol.

Peter Law: Croesawaf eich datganiad, y gwn y caiff ei gymeradwyo fel un a fydd er budd pobl Cymru. Dywedasoeh yn eich datganiad eich bod am ddatblygu nyrsys arbenigol ymhellach. A fyddwch yn ystyried darparu cyllid ar gyfer nyrsys epilepsi arbenigol ledled Cymru gyfan? Mae diffyg ymwybyddiaeth o ran epilepsi o hyd, ond yr ydym wedi cymryd camau wrth drin y cyflwr yng Ngwent, diolch i waith da Grŵp Epilepsi Gwent, sydd wedi llwyddo i ddod â nyrs arbenigol i Ysbyty Brenhinol Gwent, drwy gydweithio ag Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent. Gobeithio y gall y rhai sy'n dioddef o epilepsi edrych ymlaen at fwy o gefnogaeth yn y dyfodol.

Jane Hutt: Gallai nyrsys arbenigol ddefnyddio eu pwerau, eu cyfrifoldebau a'u sgiliau newydd mewn maes fel hwnnw. Yr oeddwn yn ffodus i gyfarfod â chynrychiolwyr o Grŵp Epilepsi Gwent yn ddiweddar a chydabyddaf eu gwaith. Yr ydym hefyd yn datblygu strategaeth epilepsi i Gymru.

Pwynt o Drefn Point of Order

David Davies: Point of order. I raise this point of order under Standing Order No. 6, which relates to the accuracy of ministerial statements. Yesterday, in response to a question on the Welsh international centres, which have been widely referred to as embassies, the First Minister asked who had referred to them as embassies and why the Tories wanted embassies, and said that only the Tories refer to them as embassies. On 18 September, an article about these embassies appeared in the Peterborough column of *The Daily Telegraph*. At lunch time today, I spoke to Guy Adams, the journalist who wrote that article. He confirms that on 17 September, he spoke to the National Assembly's press division, and that the official to whom he spoke—whose name I have, although I will not name her at

David Davies: Pwynt o drefn. Codaf y pwynt o drefn hwn o dan Reol Sefydlog Rhif 6, sy'n ymwneud â chywirdeb datganiadau gan Weinidogion. Ddoe, mewn ymateb i gwestiwn ar ganolfannau rhyngwladol Cymru, y cyfeirir atynt yn eang fel llysgenadaethau, gofynnodd y Prif Weinidog pwy oedd yn cyfeirio atynt fel llysgenadaethau a pham oedd y Ceidwadwyr am gael llysgenadaethau, a dywedodd mai dim ond y Ceidwadwyr sy'n cyfeirio atynt fel llysgenadaethau. Ar 18 Medi, ymddangosodd erthygl am y llysgenadaethau hyn yng nghlofn Peterborough o *The Daily Telegraph*. Amser cinio heddiw, bŵm yn siarad â Guy Adams, y newyddiadurwr a ysgrifennodd yr erthygl honno. Mae'n cadarnhau iddo siarad ag is-adran y wasg yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 17 Medi, ac i'r

present—told him that the Assembly Government likes to think of these centres as mini embassies. This term has also appeared in articles in the Welsh press. It is therefore clear that the Government's press officers have used the term 'embassies', and it is they who have invented it, not the Conservative Party. If officials were using the term inaccurately, we should be told. If, however, as I suspect, the Liberal/Labour coalition authorised the use of the term and subsequently changed its mind following the bad publicity—

swyddog y bu'n siarad â hi—y mae gennyf ei henw, er na wnaif yn ei henwi ar hyn o bryd—dweud wrtho fod Llywodraeth y Cynulliad yn hoffi ystyried y canolfannau hyn fel llysgenadaethau bach. Mae'r term hwn hefyd wedi ymddangos mewn erthyglau yn y wasg Gymreig. Felly, mae'n glir bod swyddogion y wasg y Llywodraeth wedi defnyddio'r term 'llysgenadaethau', a hwy sydd wedi dyfeisio'r term, nid y Blaid Geidwadol. Os oedd swyddogion yn defnyddio'r term yn anghywir, dylid ein hysbysu. Fodd bynnag, os mai'r glymblaid Ryddfrydol/Llafur a roddodd awdurdod i ddefnyddio'r term, fel y tybiaf, gan newid ei meddwl yn dilyn y cyhoeddusrwydd gwael—

The Presiding Officer: Order. This is not a matter for me.

Y Llywydd: Trefn. Nid mater imi yw hwn.

Gareth Jones *a gododd—*

Gareth Jones *rose—*

Y Llywydd: Trefn. Nid yw'n bwynt o drefn.

The Presiding Officer: Order. It is not a point of order.

Gareth Jones: Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, ar y Cod i'r Gweinidogion, pan fydd Gweinidog yn dweud rhywbeth sydd yn anghywir, pa weithredu sydd?

Gareth Jones: Further to that point of order, on the Ministerial Code, when a Minister says something that is incorrect, what action is taken?

Y Llywydd: Mae hwnnw yn fater i'r Prif Weinidog.

The Presiding Officer: That is a matter for the First Minister.

On the substantive point, I have no concern at this point for embassies; I have a deep concern for our football ambassadors in Baku this afternoon.

O ran y pwynt sylweddol, nid wyf yn pryderu am llysgenadaethau ar hyn o bryd; yr wyf yn pryderu'n fawr am ein llysgenhadon pêl-droed yn Baku y prynhawn yma.

Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion **Composite Motion: Approval of Orders**

Y Llywydd: O dan Reol Sefydlog Rhif 22.25, ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn.

The Presiding Officer: Under Standing Order No. 22.25, this motion is not subject to debate.

Y Trefnydd (Carwyn Jones): Cynigiaf fod

The Business Minister (Carwyn Jones): I propose that

y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reolau Sefydlog Rhifau 22.25, 23.10 a 23.11

the National Assembly, acting under Standing Order Nos. 22.25, 23.10 & 23.11:

1. yn cymeradwyo:

1. approves:

a) *y Gorchymyn Cyngor Datblygu'r Diwydiant Tatws (Diwygio) 2002 drafft, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2002; a'r* a) *the draft Potato Industry Development Council (Amendment) Order 2002, a copy of which was laid in the Table Office on 12 November 2002; and*

b) *memorandwm esboniadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2002; a'r* b) *the explanatory memorandum laid in Table Office on 12 November 2002; and*

c) *arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2002.* c) *the regulatory appraisal laid in Table Office on 12 November 2002.*

2. *yn cymeradwyo;*

2. *approves:*

a) *y Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygio) (Rhif 3) 2002 drafft, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2002; a'r* a) *the draft Plant Protection Products (Amendment) (No. 3) Regulations 2002, a copy of which was laid in the Table Office on 12 November 2002; and*

b) *memorandwm esboniadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2002. (NDM1220)* b) *the explanatory memorandum laid in Table Office on 12 November 2002. (NDM1220)*

*Cynnig (NDM1220): O blaid 35, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM1220): For 35, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Davies, David
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
German, Michael
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gibbons, Brian
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, David Ian
Jones, Elin
Jones, Gareth
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Morgan, Jonathan
Neagle, Lynne
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda

Williams, Kirsty
Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

**Dirprwyo Swyddogaethau Gorchymyn Cymunedau Ewrop (Dynodiadau)
(Rhif 2) 2001
Delegation of Functions of the European Communities (Designation) (No.2)
Order 2001**

The Minister for Environment (Sue Essex): I propose that

the National Assembly, acting under section 62(1)(b) of the Government of Wales Act 1998, resolves to delegate to the First Minister all the functions of the National Assembly (save those which by law cannot be so delegated) contained in or under regulations made by:

(a) the National Assembly (whether made by the National Assembly alone or together with a UK Minister, UK Government department or the Scottish or Northern Ireland Executives) under section 2(2) of the European Communities Act 1972 pursuant to the functions conferred on the Assembly by; the European Communities (Designation) (No. 2) Order 2001 (Statutory Instrument 2001/2555); or

(b) a UK Minister under his or her concurrent powers, under the said section 2(2) in relation to any of the measures in respect of which functions were conferred on the National Assembly in the designation Order.

Nothing in this motion will have the effect of reducing the pre-eminence of the authority of the full Assembly or reducing the role of Assembly Committees in the exercise of the above functions. (NDM1221)

This motion deals with delegations to the First Minister. The 2001 Order referred to in the motion gives the Assembly powers to make regulations relating to the environmental impact assessment of projects

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex): Cynigiad fod

y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol (ac eithrio'r rhai na ellir yn ôl y gyfraith eu dirprwyo yn y modd hwnnw) sydd wedi eu cynnwys mewn rheoliadau neu sy'n dod o dan reoliadau a wnaed gan:

(a) y Cynulliad Cenedlaethol (p'un a ydynt wedi'u gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unig neu ar y cyd ag un o Weinidogion y DU, un o adrannau Llywodraeth y DU neu Weithrediaeth yr Alban neu Weithrediaeth Gogledd Iwerddon) o dan adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972 yn unol â'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad gan: Orchymyn Cymunedau Ewrop (Dynodiadau) (Rhif 2) 2001 (Offeryn Statudol 2001/2555); neu

(b) un o Weinidogion y DU o dan ei bwerau/phwerau cyfatebol, o dan yr adran 2(2) y cyfeirir ati uchod, mewn perthynas ag unrhyw un o'r mesurau y rhoddwyd swyddogaethau'n ymwneud â hwy i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y Gorchymyn dynodi.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran arfer y swyddogaethau uchod eu lleihau. (NDM1221)

Mae'r cynnig hwn yn ymdrin â dirprwyo swyddogaethau i'r Prif Weinidog. Mae Rheol 2001 y cyfeiriwyd ati yn y cynnig hwn yn rhoi pŵer i'r Cynulliad wneud rheoliadau yn ymwneud ag asesiad o'r effaith

using uncultivated land or semi-natural areas for intensive agricultural purposes, and to protect waters against nitrate pollution from agricultural sources. The Assembly has made two regulations under the Order.

3:10 p.m.

With regard to the first regulation, while some functions have already been delegated to the First Minister, this further delegation under the 2001 Order is needed to administer and enforce the regulations. The second regulation designated further areas in Wales as nitrate-vulnerable zones under the European Commission's nitrates directive. The functions in the regulations that need to be delegated relate to the handling and determination of requests from affected parties for reassessment of the inclusion of their land within the new nitrate-vulnerable zones.

Phil Williams: Presiding Officer, this motion clashes with a certain football match, follows motions on the potato industry and plant protection and covers environmental assessment and nitrate pollution, therefore some Members may think that it is a routine motion to be nodded through. I disagree. The approach of death concentrates the mind, and with five months left as an AM, my mind is concentrated.

Why do we need this motion? I remember that we delegated all functions to the First Minister in a catch-all motion on 16 June 1999. That concerned some of us. Had we campaigned for years to establish an elected body for Wales in order to give all the powers back to the First Secretary? In those days of inclusivity, with the sermons of Llandaf cathedral still echoing in our ears, we delegated powers unanimously. However, an amendment was passed that stated that nothing in the resolution would have the effect of the reducing the pre-eminence of the authority of the full Assembly. What did that mean? Having delegated power, what was the status of resolutions in Plenary sessions? As someone who is naive in legal matters, I had

amgylcheddol a gaiff prosiectau sy'n defnyddio tir heb ei drin neu ardaloedd lled-naturiol at ddibenion amaethyddol dwys, ac i ddiogelu dyfroedd yn erbyn llygredd nitrad o ffynonellau amaethyddol. Mae'r Cynulliad wedi gwneud dau reoliad o dan y Gorchymyn.

O ran y rheoliad cyntaf, er bod rhai swyddogaethau eisoes wedi'u dirprwyo i'r Prif Weinidog, mae angen dirprwyo ymhellach o dan Orchymyn 2001 er mwyn gweinyddu a gorfodi'r rheoliadau. Penododd yr ail reoliad ardaloedd pellach yng Nghymru fel parthau sy'n wynebu perygl o ran nitradau o dan gyfarwyddeb nitradau'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r swyddogaethau yn y rheoliadau y mae angen eu dirprwyo yn ymwneud ag ymdrin â cheisiadau, a phennu ceisiadau, gan rai yr effeithiwyd arnynt ar gyfer ailasesu cynnwys eu tir o fewn y parthau newydd sy'n wynebu perygl o ran nitradau.

Phil Williams: Lywydd, mae'r cynnig hwn yn gwrthdaro â gêm bêl-droed benodol, yn dilyn cynigion ar y diwydiant tatws a diogelu planhigion ac yn cwmpasu asesiad amgylcheddol a llygredd nitrad, felly efallai y byddai rhai Aelodau yn meddwl mai cynnig arferol ydyw y dylid ei dderbyn heb ei drafod. Anghytunaf. Mae dyfodiad marwolaeth yn canolbwyntio'r meddwl, a chyda phum mis ar ôl fel AC, mae fy meddwl yn canolbwyntio.

Pam mae angen y cynnig hwn arnom? Yr wyf yn cofio inni ddirprwyo'r holl swyddogaethau i'r Prif Weinidog mewn cynnig dal-popeth ar 16 Mehefin 1999. Yr oedd hynny'n peri pryder i rai ohonom. A oeddem wedi ymgyrchu am flynyddoedd i sefydlu corff etholedig i Gymru er mwyn rhoi'r pwerau i gyd yn ôl i'r Prif Weinidog? Yn y dyddiau hynny o gynwysoldeb, gyda phregethau eglwys gadeiriol Llandaf yn atseinio yn ein clustiau o hyd, dirprwywyd y pwerau gennym yn unfrydol. Fodd bynnag, pasiwyd diwygiad a nododd na fyddai unrhyw beth yn y penderfyniad yn lleihau blaenoriaeth awdurdod y Cynulliad llawn. Beth oedd ystyr hynny? Ar ôl dirprwyo pŵer, beth oedd statws y penderfyniadau yn y

assumed that, despite the delegation of functions, National Assembly resolutions that were carried with a clear majority were pre-eminent. That is why Europe is significant. On 29 February 2000, the National Assembly for Wales unanimously resolved to become a member of the Wales European Centre. We did so in the belief that our vote was pre-eminent and represented a clear decision of the National Assembly. However, on 16 April this year, the First Minister announced his decision to withdraw from WEC. We have had pointless discussions about who said what to whom, where and when. I am concerned that we were not required to reverse our decision at a Plenary session. If delegated powers totally overrule the validity of a unanimous decision of the Assembly, what on earth is the point of a Plenary session?

I will not discuss the WEC decision further. It was faulty, but rightly or wrongly, it has been implemented in an unsatisfactory manner. As a member of the board I must express concern about the uncertainties. Those issues must be resolved in our December meeting. I will ask two more questions—

The Presiding Officer: Order. This should be a five-minute speech.

Phil Williams: How long have I had? I am afraid that the clocks are not working.

The Presiding Officer: I am timing you. The score is one-nil. [*Laughter.*]

Phil Williams: I will ask two more questions. First, if delegating functions to the First Minister means that he can lawfully disregard any resolution of this body, then what was the point of the resolution to join WEC, or of this or any other resolution? Secondly, does the First Minister's record on European affairs justify further delegation of powers? Of course, with a majority in the coalition, this may seem hypothetical. However, this vote is really about the relevance of our debates and of the National

cyfarfodydd Llawn? Fel rhywun sy'n ddiwed ym maes materion cyfreithiol, tybiais fod penderfyniadau'r Cynulliad Cenedlaethol a dderbynwyd â mwyafrif clir uwchlaw popeth, er gwaethaf y ffaith bod y swyddogaethau wedi'u dirprwyo. Dyna pam mae Ewrop yn arwyddocaol. Ar 29 Chwefror 2000, penderfynodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unfrydol i ddod yn aelod o Ganolfan Ewropeaidd Cymru. Gwnaethom hynny gan gredu bod ein pleidlais yn ddigymar ac yn cynrychioli penderfyniad clir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, ar 16 Ebrill eleni, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ei benderfyniad i dynnu'n ôl o CEC. Cynhaliwyd trafodaethau dibwrpas gennym ar bwy a ddywedodd beth i bwy, ble a phryd. Pryderaf nad oedd yn ofynnol inni wrthdroi ein penderfyniad mewn cyfarfod Llawn. Os yw pwerau dirprwyedig yn dirymu dilysrwydd penderfyniad unfrydol gan y Cynulliad, beth ar y ddaear yw pwrpas Cyfarfod Llawn?

Ni thrafodaf benderfyniad CEC ymhellach. Yr oedd yn ddiffygiol, ond yn gam neu'n gymwys, cafodd ei weithredu mewn dull anfoddfaol. Fel aelod o'r bwrdd rhaid imi fynegi pryder am yr ansicrwydd. Rhaid i'r materion hynny gael eu datrys yn ein cyfarfod ym mis Rhagfyr. Gofynnaf ddau gwestiwn arall—

Y Llywydd: Trefn. Araith bum munud ddylai hon fod.

Phil Williams: Faint o amser yr ydw i wedi'i gael? Yn anffodus, nid yw'r clociau'n gweithio.

Y Llywydd: Yr wyf yn eich amseru. Y sgôr yw un i ddim. [*Chwerthin.*]

Phil Williams: Gofynnaf ddau gwestiwn arall. Yn gyntaf, os yw dirprwyo swyddogaethau i'r Prif Weinidog yn golygu y gall ddiystyru'n gyfreithlon unrhyw benderfyniad a wnaed gan y corff hwn, yna beth oedd pwrpas y penderfyniad i ymuno â CEC, a beth yw pwrpas y penderfyniad hwn neu unrhyw benderfyniad arall? Yn ail, a yw record y Prif Weinidog ar faterion Ewropeaidd yn cyfiawnhau dirprwyo pwerau ymhellach? Wrth gwrs, gyda mwyafrif yn y glymblaid, gallai hyn ymddangos yn

Assembly, which is why those of us who deeply care about the Assembly will vote against the delegation.

Mick Bates: One issue must be raised regarding the regulations. When an assessment of the environmental impact of various projects is undertaken with regard to nitrate-vulnerable zones or cultivated land classification, it is important that good account is taken of the cost benefit analysis, which should be part of the regulatory appraisal. We have a tendency to gold plate European regulations, and the need for our rural economy to operate is sometimes overlooked under the stress of kowtowing to environmental impact.

Alun Cairns: I am concerned about the principle of the delegation of functions of powers to the First Minister. I will focus on paragraph 4 of the motion, which reads that,

‘Nothing in this motion will have the effect of reducing the pre-eminence of the authority of the full Assembly or reducing the role of Assembly Committees in the exercise of the above functions.’

I emphasise those last words.

There has been a widening gulf between the Assembly Government and the role of Committees in contributing to policy development in the Assembly. If we supported the motion, I fail to see how paragraph 4 can state that, while the powers are being delegated to the First Minister. The First Minister would retain the authority on behalf of the Assembly Government, and there is a continuing trend of distancing policy development from the Committees by the Assembly Government. That may be because the Assembly elections are imminent, and it wishes to claim responsibility and credit for the introduction of various policies. However, I remind the Assembly Government that the Government of Wales Act 1998 states that the Assembly is a corporate body. Every Member has the responsibility and opportunity to contribute to the development of policy. We will

ddamcaniaethol. Fodd bynnag, mae'r bleidlais hon mewn gwirionedd yn ymwneud â pherthnasedd ein dadleuon a pherthnasedd y Cynulliad Cenedlaethol, a dyna pam y bydd y rhai ohonom sy'n pryderu'n fawr am y Cynulliad yn pleidleisio yn erbyn dirprwyo.

Mick Bates: Rhaid codi un mater yn ymwneud â'r rheoliadau. Pan gynhelir asesiad o'r effaith amgylcheddol a gaiff prosiectau amrywiol mewn perthynas â pharthau sy'n wynebu perygl o ran nitradau neu ddsbarthiad tir amaeth, mae'n bwysig ystyried yn fanwl y dadansoddiad cost a budd, a ddylai fod yn rhan o'r arfarniad rheoleiddiol. Mae gennym duedd i roi gormod o glod i reoliadau Ewropeaidd, ac weithiau diystyrir yr angen i'n heconomi wledig weithredu gan bwysau moesyngrymu i effaith amgylcheddol.

Alun Cairns: Pryderaf am yr egwyddor o ddirprwyo swyddogaethau pwerau i'r Prif Weinidog. Canolbwyntiaf ar baragraff 4 o'r cynnig, sy'n darllen,

‘Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran arfer y swyddogaethau uchod eu lleihau.’

Pwysleisiaf y geiriau olaf hynny.

Bu bwlch yn ehangu rhwng Llywodraeth y Cynulliad a rôl y Pwyllgorau wrth gyfrannu at ddatblygu polisiau yn y Cynulliad. Os byddem yn cefnogi'r cynnig, ni allaf weld sut y gall paragraff 4 nodi hynny, tra bod y pwerau yn cael eu dirprwyo i'r Prif Weinidog. Byddai'r Prif Weinidog yn cadw'r awdurdod ar ran Llywodraeth y Cynulliad, ac mae tuedd parhaus o bellhau datblygu polisiau oddi wrth y Pwyllgorau gan Lywodraeth y Cynulliad. Gallai hynny fod oherwydd bod etholiadau'r Cynulliad ar y gorwel, ac mae'n dymuno cael y cyfrifoldeb a'r clod am gyflwyno polisiau amrywiol. Fodd bynnag, hoffwn atgoffa Llywodraeth y Cynulliad fod Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn nodi bod y Cynulliad yn gorff corfforedig. Mae gan bob Aelod y cyfrifoldeb a'r cyfle i gyfrannu at ddatblygu polisiau. Felly, byddwn yn pleidleisio yn erbyn y cynnig.

therefore vote against the motion.

The Minister for Environment (Sue Essex): Thank you, Phil, for your good memory. I am afraid I lost a little concentration when news came through from Azerbaijan. I will not go into the complexities of your argument, apart from saying that the issue is clearly one of Assembly functions being delegated to the First Minister or members of the Executive in this case. To pick up on your point and on Alun Cairns comments, the Assembly is a corporate body, but we vote democratically and decisions can be overruled. I cannot get into the complexities of that, but that is the way that democracy works here.

On Mick's point, we should not pick and choose European regulations. You have supported other European regulations. We have listened and we have made provision for nitrate-vulnerable zones. If you consider our response, which only covers 3 per cent of Welsh countryside, farmers to whom I have spoken, who may not be the ones you have spoken to in Montgomeryshire, feel that our approach and interpretation of European regulations is reasonable. This is essentially a motion to delegate functions to the First Minister. If we could view it with that kind of simplicity, then the vote should be straightforward.

Y Trefnydd (Carwyn Jones): Gofynnaf i gloch y bleidlais gael ei chanu.

Y Llywydd: O dan Reol Sefydlog Rhif 6.21, rhaid i o leiaf dri Aelod wneud cais i'r gloch gael ei chanu. A oes tri Aelod yn cefnogi'r cais? Gwelaf fod. Glerc, canwch y gloch.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex): Diolch, Phil, am eich cof da. Yn anffodus, collais fy ngallu i ganolbwyntio ychydig pan ddaeth y newyddion o Azerbaijan. Ni fanylaf ar gymhlethdod eich dadl, ac eithrio nodi bod y mater yn amlwg yn un sy'n ymwneud â dirprwyo swyddogaethau'r Cynulliad i'r Prif Weinidog neu aelodau'r Weithrediaeth yn yr achos hwn. I grybwyll eich pwynt a sylwadau Alun Cairns, corff corfforedig yw'r Cynulliad, ond yr ydym yn pleidleisio'n ddemocrataidd a gellir gwrthod penderfyniadau. Ni allaf fanylu ar gymhlethdodau hynny, ond dyna sut y mae democratiaeth yn gweithio yma.

Wrth gyfeirio at bwynt Mick, ni ddylem ddewis a dethol rheoliadau Ewropeaidd. Yr ydych wedi cefnogi rheoliadau Ewropeaidd eraill. Yr ydym wedi gwranddo ac wedi gwneud darpariaethau ar gyfer parthau sy'n wynebu perygl o ran nitradau. Os ystyriwch ein hymateb, sydd ond yn cwmpasu 3 y cant o gefn gwlad Cymru, mae'r ffermwyr yr wyf wedi siarad â hwy, nad ydynt o bosibl yr un rhai â'r rheiny y buoch chi'n siarad â hwy yn Sir Drefaldwyn, yn teimlo bod ein hymagwedd a'n dehongliad o reoliadau Ewropeaidd yn rhesymol. Yn y bôn, mae'r cynnig hwn yn un i ddirprwyo swyddogaethau i'r Prif Weinidog. Os gallwn edrych ar y mater mewn dull mor syml, yna dylai'r bleidlais fod yn hawdd.

The Business Minister (Carwyn Jones): I request that the division bell be rung.

The Presiding Officer: Under Standing Order No. 6.21, at least three Members must request that the bell be rung. Do three Members support the request? I see that they do. Clerk, please ring the bell.

Cynnig (NDM1221): O blaid 31, Ymatal 0, Yn erbyn 20.

Motion (NDM1221): For 31, Abstain 0, Against 20.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Chapman, Christine

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bourne, Nick
Cairns, Alun
Dafis, Cynog
Davies, David
Davies, Glyn

Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Davies, Ron
 Edwards, Richard
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Middlehurst, Tom
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Williams, Kirsty

Davies, Jocelyn
 Graham, William
 Hancock, Brian
 Jones, David Ian
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Rogers, Peter
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

3:20 p.m.

**Cymeradwyo'r Protocol Drafft ar Ddefnyddio Adnoddau'r Cynulliad yn ystod
 Ymgyrch Etholiadol 2003
 Approval of the Draft Protocol on the Use of Assembly Resources During the
 2003 Election Campaign**

**The Deputy Presiding Officer (John Y Dirprwy Lywydd (John Marek):
 Marek):** I propose that Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. notes that funding and facilities provided by the Assembly to Members must only be used in connection with Members' duties as Members, and that this excludes electoral campaigning and party political activities directed outside the Assembly;

1. yn nodi y dylai'r cyllid a'r adnoddau a ddarperir gan y Cynulliad ar gyfer yr Aelodau gael eu defnyddio'n unig mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau'r Aelodau yn rhinwedd eu swyddi fel Aelodau, ac na ellir eu defnyddio ar gyfer ymgyrchu etholiadol a gweithgareddau pleidiol wleidyddol y tu allan i'r Cynulliad;

2. recognises that it is imperative that this rule is upheld scrupulously in the period leading up to the 2003 Assembly elections;

2. yn cydnabod ei bod yn hollbwysig cadw'n gaeth at y rheol hon yn ystod y cyfnod yn arwain at etholiadau'r Cynulliad yn 2003;

3. endorses the protocol on use of Assembly-funded resources during the 2003 election campaign, laid in the Table Office and e-mailed to Members on 13 November 2002;

3. yn cymeradwyo'r protocol ar ddefnyddio adnoddau a ariennir gan y Cynulliad yn ystod ymgyrch etholiadol 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr

Aelodau ar 13 Tachwedd 2002;

4. resolves that compliance with this resolution and protocol should be within the terms of Standing Order No. 16.1(ii);

5. expresses its thanks to the electoral commission for the advice which it has tendered on this matter. (NDM1223)

4. yn penderfynu y dylid cydymffurfio â'r penderfyniad a'r protocol yn unol â thelerau Rheol Sefydlog Rhif 16.1 (ii);

5. yn mynegi ei ddiolch i'r comisiwn etholiadol am ei gyngor ar y mater hwn. (NDM1223)

The House Committee agreed the draft protocol on 17 July and it agreed to send it to the Electoral Commission, which signified its approval on 19 September. The draft was subsequently agreed in the Business Committee meeting on 29 October. The functions and powers of the Electoral Commission, which was set up in November 2002 as an independent body, are set out in the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000. The commission's role is to increase public confidence in the democratic process and to regulate political parties. Unlike Westminster and the Scottish Parliament, there will be no period of dissolution in the National Assembly for Wales. That means that Assembly Members will remain Members until the end of the day before the election and will therefore have access to the building and other facilities until the end of that day in order to carry out constituency duties. Public funds and resources must not be used for party political activities or electoral campaigning. This is not new, as we already pay careful attention to these matters. We will have to pay them even more careful attention in the run-up to the election in May 2003. I commend the protocol to Members.

Cytunodd Pwyllgor y Tŷ ar y protocol drafft ar 17 Gorffennaf a chytunodd i'w anfon at y Comisiwn Etholiadol, a fynegodd ei gymeradwyaeth ar 19 Medi. Yn dilyn hynny, cytunwyd ar y drafft yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 29 Hydref. Nodir swyddogaethau a phwerau'r Comisiwn Etholiadol, a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2002 fel corff annibynnol, yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Rôl y Comisiwn yw cynyddu hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a rheoleiddio pleidiau gwleidyddol. Yn wahanol i San Steffan a Senedd yr Alban, ni fydd cyfnod o ddiddymu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Golyga hynny y bydd Aelodau'r Cynulliad yn parhau i fod yn Aelodau hyd at ddiwedd y diwrnod cyn yr etholiad a byddant felly yn cael mynediad i'r adeilad a chyfleusterau eraill tan ddiwedd y diwrnod hwnnw er mwyn cyflawni dyletswyddau etholaethol. Ni ddylid defnyddio arian ac adnoddau cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau gwleidyddol nag ymgyrchu etholiadol. Nid yw hyn yn newydd, gan ein bod eisoes yn talu sylw gofalus i'r materion hyn. Bydd yn rhaid inni dalu hyd yn oed mwy o sylw iddynt yn y cyfnod fydd yn arwain at yr etholiad ym mis Mai 2003. Cymeradwyaf y protocol i'r Aelodau.

*Cynnig (NDM1223): O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM1223): For 50, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davidson, Jane

Davies, Andrew
 Davies, David
 Davies, Glyn
 Davies, Jocelyn
 Davies, Ron
 Edwards, Richard
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 German, Michael
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gibbons, Brian
 Halford, Alison
 Hancock, Brian
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, David Ian
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Peter
 Lloyd, Val
 Melding, David
 Middlehurst, Tom
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Rogers, Peter
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Kirsty
 Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 3.26 p.m.
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.26 p.m.*

Adolygiad Canol Tymor o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin Mid-term Review of the Common Agricultural Policy

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 2, 3 and 4 in the name of Jonathan Morgan, and amendment 5 in the name of Jocelyn Davies.

Y Dirprwy Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2, 3 a 4 yn enw Jonathan Morgan a gwelliant 5 yn enw Jocelyn Davies.

The Deputy First Minister and Minister for Rural Development and Wales Abroad (Michael German): I propose that

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddathblygu Gwledig a Chymru Dramor (Michael German): Cynigiad fod

the National Assembly for Wales considers the European Commission's mid-term review

y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried y cynigion sydd yn adolygiad canol tymor y

proposals for the common agricultural policy. (NDM1222)

I am grateful for the opportunity to debate the mid-term review package. This is a motion on the CAP: not the Cymru/Azerbaijan playoff, but the common agricultural policy. The European Commission published the review in July and detailed discussions took place at Agriculture and Rural Development Committee meetings in July and October. I will continue to keep the Committee fully informed of developments as more detailed information becomes available. Details of the European Commission's proposals have been circulated to all Members. I will comment on the amendments to the motion later. It is important to realise that the commission has not prepared operational detail on the proposals set out in the mid-term review. Therefore, the package remains to be negotiated and I ask for Members' support for maximum flexibility so that I can continue to advance the best case for Wales.

There are four main reasons why the mid-term review is being carried out now. These are: to meet a commitment to review the CAP in 2002, made in 1999 by the European Council in Berlin, which in turn agreed the Agenda 2000 reform package; to deliver the Gothenburg European Council 2001 remit on promoting sustainable European Union agriculture through the common agricultural policy—a commitment that was restated at the recent earth summit in Johannesburg; to limit the trade-distorting aspects of the current CAP regimes and thus enable the European Union to negotiate meaningfully in the forthcoming World Trade Organisation discussions; and, finally, to take account of the impact of European Union enlargement in 2004.

I understand that there is some uncertainty following the Brussels agreement, put in place by the French President and German Premier, about whether the mid-term review has been shelved. I will set the record straight. The conclusions of the heads of government at the recent Council of Ministers meeting on the CAP budget for 2007-13, held in Brussels in October, did not

Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y polisi amaethyddol cyffredin. (NDM1222)

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i drafod y pecyn adolygiad canol tymor. Cynnig yw hwn ar y PAC: nid pêl-droed rhwng Azerbaijan/Cymru, ond y polisi amaethyddol cyffredin. Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd yr adolygiad yng Ngorffennaf a chynhaliwyd trafodaethau manwl mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yng Ngorffennaf a Hydref. Byddaf yn parhau i sicrhau y caiff y Pwyllgor y wybodaeth lawn am y datblygiadau wrth i wybodaeth fanylach ddod ar gael. Dosbarthwyd manylion ynglŷn â chynigion y Comisiwn Ewropeaidd i bob Aelod. Byddaf yn rhoi sylwadau ar y gwelliannau i'r cynnig yn ddiweddarach. Mae'n bwysig sylweddoli nad yw'r comisiwn wedi paratoi manylion gweithrediad ar y cynigion a nodir yn yr adolygiad canol tymor. Felly, mae'r pecyn yn parhau i fod yn destun negodi a gofynnaf am gefnogaeth yr Aelodau i gael yr hyblygrwydd mwyaf posibl er mwyn imi allu cyflwyno'r achos gorau ar ran Cymru.

Mae pedwar prif reswm pam y cynhelir yr adolygiad canol tymor yn awr, sef: i gwrdd â'r ymrwymiad i adolygu'r PAC yn 2002, a wnaed yn 1999 gan y Cyngor Ewropeaidd yn Berlin, a gytunodd yn ei dro ar y pecyn diwygio Agenda 2000; i gyflawni cylch gwaith Cyngor Ewropeaidd Gothenburg 2001 ar hyrwyddo amaethyddiaeth gynaliadwy yn yr Undeb Ewropeaidd drwy'r polisi amaethyddol cyffredin—ymrwymiad a ail-ddatganwyd yn uwch-gynhadledd y byd yn Johannesburg yn ddiweddar; i gyfyngu ar agweddau anffurfio masnach y cyfundrefnau PAC presennol a thrwy hynny alluogi'r Undeb Ewropeaidd i negodi'n ystyrlon yn nhrefnadaethau arfaethedig Corff Masnach y Byd; ac, yn olaf i ystyried effaith ehangu'r Undeb Ewropeaidd yn 2004.

Deallaf fod peth ansicrwydd yn dilyn cytundeb Brwsel, a sefydlwyd gan Arlywydd Ffrainc a Changhellor yr Almaen, ynglŷn ag a roddwyd yr adolygiad canol tymor i'r naill ochr. Hoffwn egluro'r sefyllfa. Nid oedd casgliadau penaethiaid y llywodraethau yn y cyfarfod diweddar o Gyngor y Gweinidogion ar gyllideb y PAC ar gyfer 2007–13, a gynhaliwyd ym Mrwsel ym mis Hydref, yn

contain an agreement to postpone the mid-term review package. The package therefore remains on the table for negotiation. In fact, the Commissioner for Agriculture and Rural Development, Franz Fischler—speaking after the council meeting—stated that the commission needed to reorientate the CAP to meet the expectations of European Union citizens and our international obligations. He also confirmed that the decoupling of direct subsidies will proceed, as direct payments and market support spending must stay within the limits set at the Brussels council meeting. He also stated that the commission needed to rethink its dynamic modulation proposals. Next week's meeting of European Union agriculture ministers will be the first opportunity to gauge reaction to the Brussels council meeting.

Before dealing with the commission's proposals, it is worth remembering that the National Assembly's strategy document for agriculture, 'Farming for the Future', published this time last year, outlines two key objectives for CAP reform. The first objective is to decouple production subsidies to enable farmers to focus their businesses on market and consumer requirements. It is also believed that decoupling will free farmers to decide for themselves what quantity and quality of livestock to keep. It should also enable farmers to gear their efforts much more to market demand and will have environmental and ecological benefits if, as seems likely, farmers decide to reduce stocking levels as a result. It will provide scope for farmers to diversify and will remove the incentive associated with existing subsidy-dependent production regimes. The second objective on CAP reform recognised that the wellbeing of the farming community is important to the broader economic, social, environmental and cultural cohesion of rural Wales. Thus we wanted to strengthen the mechanisms that support rural development and have a better balance between pillar 1, that is, the direct subsidy element, and pillar 2, that is, rural development. The thinking behind the commission's proposals should not surprise Members because they echo the underpinning principles in 'Farming for the Future'. It is worth noting how close our

cynnwys cytundeb i ohirio'r pecyn adolygiad canol tymor. Mae'r pecyn felly yn parhau i fod yn destun negodi. Yn wir, dywedodd Franz Fischler y Comisiynydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig—wrth siarad yn dilyn cyfarfod y Cyngor—fod angen i'r comisiwn aildrefnu'r PAC i gwrdd â disgwyliadau dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd a'n rhwymedigaethau rhyngwladol. Cadarnhaodd hefyd y bydd y broses o ddatgysylltu cymorthdaliadau uniongyrchol yn mynd rhagddi, gan fod yn rhaid i daliadau uniongyrchol a gwariant cymorth y farchnad barhau o fewn y terfynau a osodwyd yng nghyfarfod y cyngor ym Mrwsel. Dywedodd hefyd bod angen i'r comisiwn ailystyried ei gynigion modiwlleiddio deinamig. Cyfarfod gweinidogion amaeth yr Undeb Ewropeaidd yr wythnos nesaf fydd y cyfle cyntaf i fesur yr ymateb i gyfarfod y cyngor ym Mrwsel.

Cyn ymdrin â chynigion y comisiwn, mae'n werth cofio bod dogfen strategol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer amaethyddiaeth, 'Ffermio i'r Dyfodol', a gyhoeddwyd yr adeg hon y llynedd, yn amlinellu dau o brif amcanion diwygio'r PAC. Yr amcan cyntaf yw datgysylltu cymorthdaliadau cynhyrchu i alluogi ffermwyr i ganolbwyntio eu busnesau ar anghenion y farchnad a'r defnyddiwr. Hefyd credir y bydd datgysylltu yn rhyddhau ffermwyr i benderfynu drostynt eu hunain faint o dda byw i'w cadw a'i hansawdd. Dylai hefyd alluogi ffermwyr i dargedu eu hymdrechion yn fwy tuag at y galw yn y farchnad a bydd manteision amgylcheddol ac ecolegol os, fel yr ymddengys sy'n debygol, y bydd ffermwyr yn penderfynu gostwng eu lefelau o stoc o ganlyniad. Bydd yn rhoi cyfle i ffermwyr arallgyfeirio a bydd yn dileu'r cymhelliant sy'n gysylltiedig â'r cyfundrefnau cynhyrchu presennol sy'n ddibynnol ar gymhorthdal. Yr oedd ail amcan diwygio'r PAC yn cydnabod bod lles y gymuned ffermio yn bwysig i gydlynad economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ehangach Cymru wledig. Felly yr oeddem am gryfhau'r dulliau o gynnal datblygiad gwledig a chael gwell cydbwysedd rhwng piler 1, sef, yr elfen cymhorthdal uniongyrchol, a philer 2, sef, datblygu gwledig. Ni ddylai'r syniadaeth y tu ôl i gynigion y comisiwn synnu Aelodau oherwydd adleisiant egwyddorion sylfaenol

approach is to that of the commission. It even uses the same wording, namely, 'a better balance between the two pillars'.

'Ffermio i'r Dyfodol'. Mae'n werth nodi pa mor agos yw ein ymagwedd ni at un y comisiwn. Mae hyd yn oed yn defnyddio'r un geiriad, 'gwell cydbwysedd rhwng y ddau biler'.

3:30 p.m.

The commission's mid-term review package proposes key changes in the current operation of the CAP. Clearly, these are major changes for rural life and agriculture in Wales. The first change is the decoupling of direct subsidies from production, namely moving away from payments per head of livestock or per hectare of land, as under pillar 1. Payments will instead be based on an historic receipt basis, with a single income payment per farm. Secondly is the introduction—although this is slightly on the backburner now—of dynamic modulation to secure a better balance between pillar 1, that is, direct subsidy support, and pillar 2, that is, rural development. In other words, there will be compulsory top-slicing of direct subsidy payments, starting at 3 per cent and rising by 3 per cent per annum to 20 per cent. The funds raised will then be transferred to the EU rural development budget for redistribution by the commission. Those are the proposals for dynamic modulation, which are now being substantially reconsidered.

Cynigia pecyn adolygu canol tymor y comisiwn newidiadau allweddol yng ngweithrediad cyfredol y PAC. Yn amlwg, mae'r rhain yn newidiadau mawr i fywyd gwledig ac amaethyddiaeth yng Nghymru. Y newid cyntaf yw datgysyllu cymorthdaliadau uniongyrchol oddi wrth gynhyrchu, sef symud oddi wrth daliadau y pen ar gyfer da byw neu yn ôl yr erw o dir, fel ym mhiler 1. Yn hytrach, bydd taliadau yn seiliedig ar y modd y gwnaed taliadau yn y gorffennol, gydag un taliad incwm i bob fferm. Yn ail—er bod hyn wedi ei roi i'r naill ochr braidd ar hyn o bryd—mae cyflwyno modiwl deinamig i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng piler 1, hynny yw, cefnogaeth cymorthdaliadau uniongyrchol, a philer 2, sef, datblygu gwledig. Mewn geiriau eraill, bydd brig dorri gorfodol ar daliadau cymhorthdal uniongyrchol, yn dechrau gyda 3 y cant ac yn codi 3 y cant y flwyddyn i 20 y cant. Bydd y symiau a godir yna yn cael eu trosglwyddo i gyllideb datblygu gwledig yr UE i'w hailddosbarthu gan y comisiwn. Dyma'r cynigion am fodwleiddio deinamig, sy'n cael eu hailystyried yn sylweddol ar hyn o bryd.

Where have we reached? As with all matters relating to the CAP, it is vital to see the detail. Since July, there has been much discussion in Brussels and London to tease out the nuts and bolts behind the high-level proposals set out in the commission's mid-term review. I assure Members that my officials and I are attending the key meetings in Brussels and London as we move forward on influencing commission thinking and the UK Government's overall position on the future shape of the CAP.

Ble yr ydym erbyn hyn? Fel gyda phob mater sy'n ymwneud â'r PAC mae'n hollbwysig gweld y manylion. Ers Gorffennaf, bu cryn drafod ym Mrwsel a Llundain i geisio amlygu hanfodion y cynigion lefel uchel a nodir yn adolygiad canol tymor y comisiwn. Sicrhaf yr Aelodau fod fy swyddogion a minnau yn mynychu'r cyfarfodydd allweddol ym Mrwsel a Llundain wrth inni symud ymlaen yn y gwaith o ddylanwadu ar syniadaeth y comisiwn a safbwynt cyffredinol Llywodraeth y DU ar ffurf y PAC cyffredin yn y dyfodol.

Dafydd Wigley: Will you clarify, from the discussions that you have had so far, whether cast-iron commitments have been given that the eastern European countries that will soon be joining the EU will be in receipt of

Dafydd Wigley: A wnewch chi egluro, o'r trafodaethau a gawsoch hyd yn hyn, a roddwyd ymrwymadau cwbl gadarn y bydd gwledydd dwyrain Ewrop a fydd yn ymuno â'r UE yn fuan yn derbyn taliadau

agricultural payments on the current basis? If that is so, and if there is no increase in the sum total of CAP expenditure—and there will possibly be a decrease—no matter how we share the money out between pillars 1 and 2, there will be a reduction in the amount of money available to farmers in Wales.

Michael German: There is still a great deal of discussion and debate about the deal that was done between France and Germany and what it means. As I understand it, the budget for 2007-13 for CAP for the countries joining the EU will be in addition to the money provided in the budget for 2007-13 that was under discussion between the French President and the German Premier. The 1 per cent on top was in addition to the figure previously agreed in Berlin. That should mean a reduction in the overall CAP payment to the existing 15 member states, but nothing like as great a reduction as may have first been thought. We await the precise detail. I assure Members that as soon as I receive it, I will provide the Assembly and the Agriculture and Rural Development Committee with that information. We have yet to see the detail of the Commission's package. It was originally promised in October. That would include proposals relating to the dairy regime. Although I understand the rationale behind the Conservatives' amendment 1 relating to market support reduction measures, I am reluctant to support it because it may impact on the dairy regime, the details of which we have not yet received.

The draft legislative text now expected in January—

Ieuan Wyn Jones: Before Dafydd Wigley intervened, you mentioned the discussions that you and your officials had with UK Ministers and officials in Brussels. As you know, whatever the commission proposes, the final result will be decided at the Council of Ministers meeting, at which there is a single UK vote. Your discussions with his UK counterparts are extremely important. Is the UK Government aware of the deep feeling that exists in Wales that these proposals for CAP reform must reflect the different nature of agriculture in Wales? Can you assure us that the UK Government's line

amaethyddol ar y sail bresennol? Os felly, ac os na fydd cynnydd yng nghyfanswm gwariant PAC—a bydd gostyngiad o bosibl—waeth sut y rhannwn yr arian rhwng piler 1 a philer 2, bydd gostyngiad yn y swm o arian fydd ar gael i ffermwyr yng Nghymru.

Michael German: Mae cryn drafod a dadlau o hyd am y fargen a wnaed rhwng Ffrainc a'r Almaen a beth a olyga. Fel y deallaf, bydd y gyllideb ar gyfer 2007-13 ar gyfer y PAC i'r gwledydd sy'n ymuno â'r UE yn ychwanegol at yr arian a ddarperir yng nghyllideb 2007-13 a oedd o dan drafodaeth rhwng Arlywydd Ffrainc a Changhellor yr Almaen. Yr oedd yr 1 y cant pellach yn ychwanegol i'r ffigur a gytunwyd yn flaenorol yn Berlin. Dylai hynny olygu gostyngiad yn y taliad PAC cyfan i'r 15 o aelod-wladwriaethau, ond ddim byd tebyg i faint y gostyngiad a dybiwyd ar y dechrau. Disgwyliwn am yr union fanylion. Sicrhaf yr Aelodau cyn gynted ag y byddaf yn ei dderbyn, byddaf yn darparu'r wybodaeth honno i'r Cynulliad a'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Yr ydym yn dal i ddisgwyl manylion pecyn y Comisiwn. Fe'i haddawyd yn wreiddiol fis Hydref. Byddai hwnnw'n cynnwys cynigion yn ymwneud â'r gyfundrefn laeth. Er fy mod yn deall y rhesymeg y tu ôl i welliant 1 y Ceidwadwyr yn ymwneud â mesurau i roi llai o gymorth i'r farchnad, yr wyf yn gyndyn i'w gefnogi oherwydd gallai effeithio ar y gyfundrefn laeth, nad ydym wedi cael manylion amdani eto.

Disgwylir y testun deddfwriaethol drafft yn awr ym mis Ionawr—

Ieuan Wyn Jones: Cyn i Dafydd Wigley ymyrryd, soniasoch am y trafodaethau a gawsoch chi a'ch swyddogion gyda Gweinidogion a swyddogion y DU ym Mrwsel. Fel y gwyddoch, beth bynnag fydd y comisiwn yn ei gynnig, penderfynir y canlyniad terfynol yng nghyfarfod Cyngor y Gweinidogion, lle ceir un bleidlais yn unig gan y DU. Mae eich trafodaethau gyda'i swyddogion cyfatebol yn y DU yn eithriadol o bwysig. A yw Llywodraeth y DU yn ymwybodol o'r teimlad dwfn sy'n bodoli yng Nghymru bod yn rhaid i'r cynigion hyn ar gyfer diwygio'r PAC adlewyrchu natur

will not simply be to defend agriculture in England?

Michael German: I can assure you—and I think that I have already stated this—that, in our strategy document, the social context of farming in Wales is very important.

Glyn Davies: Will you give way?

Michael German: I am in some difficulty, because I only have 31 seconds remaining, and if I take your intervention, I will not have sufficient time to sum up the motion at the end. Am I right about the time, Deputy Presiding Officer?

The Deputy Presiding Officer: You have 15 minutes in total.

Michael German: I will therefore take Glyn's intervention in a moment.

The draft legislative texts are now expected in January 2003, and are likely to concentrate on decoupling and how it will be implemented. I will make the texts available to the Assembly when they are published, and I will continue to brief the Agriculture and Rural Development Committee and stakeholder groups. It is difficult to accurately predict the timetable for decisions, but I would expect that, by this time next year, all decisions would have been reached, including those on the implementation timetable. I am afraid that I cannot offer Members any more detail than that.

I want to move on to the Welsh perspective, but I will take Glyn's intervention first.

Glyn Davies: With regard to amendment 1, do you accept that supporting a continued reduction in market support measures would not tie your hands in terms of the dairy regime options? It would still allow you complete freedom.

Michael German: That is a technical point. I am reluctant not to support amendment 1, as it is in the spirit of what we want to support.

wahanol amaethyddiaeth yng Nghymru? A allwch ein sicrhau nad agwedd Llywodraeth y DU fydd diogelu amaethyddiaeth yn Lloegr yn unig?

Michael German: Gallaf eich sicrhau—ac yr wyf yn credu fy mod wedi dweud hyn eisoes—y bydd cyd-destun cymdeithasol ffermio yng Nghymru yn bwysig iawn yn ein dogfen strategaeth.

Glyn Davies: A ildiwch?

Michael German: Mae'n eithaf anodd, oherwydd dim ond 31 eiliad sydd gennyf yn weddill, ac os derbyniaf eich ymyriad, ni fydd gennyf ddigon o amser i grynhoi'r cynnig ar y diwedd. A wyf yn iawn ynglŷn â'r amser, Ddirprwy Lywydd?

Y Dirprwy Lywydd: Mae gennych 15 munud i gyd.

Michael German: Cymeraf ymyriad Glyn yn y funud felly

Disgwylir y testunau deddfwriaethol drafft yn awr yn Ionawr 2003, ac maent yn debygol o ganolbwyntio ar ddatgysylltu a sut y caiff ei weithredu. Trefnaf i'r testunau fod ar gael i'r Cynulliad pan gânt eu cyhoeddi, a byddaf yn parhau i friffio'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a grwpiau rhanddeiliaid. Mae'n anodd rhagweld yr amserlen ar gyfer penderfyniadau yn gywir, ond byddwn yn disgwyl, erbyn yr adeg hon y flwyddyn nesaf, y byddai pob penderfyniad wedi ei wneud, yn cynnwys y rheini ar yr amserlen weithredu. Yn anffodus ni allaf gynnig mwy o fanylion na hynny i'r Aelodau.

Yr wyf am symud ymlaen yn awr at y persbectif Cymreig, ond derbyniaf ymyriad Glyn yn gyntaf.

Glyn Davies: Ynglŷn â gwelliant 1, a dderbyniwch na fyddai parhau i gefnogi gostyngiad parhaus mewn mesurau cymorth y farchnad yn clymu eich dwylo o ran opsiynau'r gyfundrefn laeth? Byddai'n parhau i roi rhyddid llwyr i chi.

Michael German: Mae hwnnw'n bwynt technegol. Yr wyf yn gyndyn i beidio â chefnogi gwelliant 1, gan ei fod yn ysbryd yr

However, I cannot support it because of a technicality: we do not know what proposals will eventually emerge for dairy farming. It would have an impact if my hands were tied in those negotiations. I cannot support amendment 1 for that reason, but I support the principle stated in the amendment.

On the Welsh perspective, I welcome the European Commission's commitment to press ahead with decoupling for the reasons I have previously outlined and those stated in amendment 4, namely, that decoupling is an essential step in preparing the European Union negotiating position. Therefore, I will be pleased to support amendment 4.

Not everyone in the farming community will welcome the changes to the CAP. However, as we indicated in our document—which has received widespread support across the industry—we must face up to the process of change if the industry is to survive in a sustainable way. I recognise that there will be pain, but decoupling is not about reducing payments. Payments will be historically based and essentially income-neutral. In Wales, as in the rest of the UK, modulation has been operated since 2001. That has enabled the Assembly Government, with full match funding from the Treasury, to significantly increase support for wider rural development actions, namely Farming Connect and Tir Gofal. Over the six years of the rural development plan for Wales, modulation will generate some £39 million, with an additional £39 million coming directly from the Treasury.

Amendments 2 and 3 reflect the importance of modulation to Wales, but I am afraid that, for technical reasons alone, I cannot support them at this point. They are a little modest in what they propose and their wording is not technically tight enough.

The detail on how dynamic modulation will work is not yet known. The preliminary ideas in the commission's July paper suggest that it is unlikely that the UK would be a net contributor to the commission. It is possible that UK modulated funds would be used to

hyn y dymunwn ei gefnogi. Fodd bynnag, ni allaf ei gefnogi oherwydd pwynt technegol: ni wyddom pa gynigion a ddaw i'r amlwg yn y pen draw ar gyfer ffermio llaeth. Byddai yn cael effaith pe bai fy nwylo wedi eu clymu yn y negodiadau hynny. Ni allaf gefnogi gwelliant 1 am y rheswm hwnnw, ond cefnogaf yr egwyddor a fynegir yn y gwelliant.

Ar y persbectif Cymreig, croesawaf ymrwymiad y Comisiwn Ewropeaidd i frwr ymlaen gyda datgysylltu am y rhesymau a amlinellais ynghynt a'r rheini a nodir yng ngwelliant 4, sef, bod datgysylltu yn gam hanfodol yn y broses o baratoi safbwynt negodi yr Undeb Ewropeaidd. Felly, bydd yn dda gennyf gefnogi gwelliant 4.

Ni fydd pawb yn y gymuned ffermio yn croesawu'r newidiadau i'r PAC. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ein dogfen—sydd wedi cael cefnogaeth eang ar draws y diwydiant—rhaid inni wynebu proses o newid os yw'r diwydiant i oroesi mewn modd cynaliadwy. Cydnabyddaf y bydd poen, ond nid yw datgysylltu yn golygu gostwng taliadau. Bydd y taliadau wedi eu seilio'n hanesyddol ac yn ei hanfod yn niwtral o ran incwm. Yng Nghymru, fel mewn rhannau eraill o'r DU, gweithredwyd modiwlleiddio ers 2001. Galluogodd hynny i Lywodraeth y Cynulliad, gydag arian cyfatebol llawn gan y Trysorlys, i gynyddu cefnogaeth yn sylweddol i gamau datblygu gwledig ehangach, sef Cyswllt Ffermio a Thir Gofal. Dros chwe blynedd cynllun datblygu gwledig Cymru, bydd modiwlleiddio yn creu rhyw £39 miliwn, gyda £39 miliwn ychwanegol yn dod yn uniongyrchol o'r Trysorlys.

Adlewyrcha gwelliannau 2 a 3 bwysigrwydd modiwlleiddio i Gymru, ond yn anffodus, am resymau technegol yn unig, ni allaf eu cefnogi ar hyn o bryd. Maent ychydig yn gynnil yn yr hyn a gynigiant ac nid yw eu geiriad yn ddigon tynn yn dechnegol.

Nid yw manylion sut y bydd modiwlleiddio deinamig yn gweithio yn hysbys eto. Awgryma'r syniadau cychwynnol ym mhapur Gorffennaf y comisiwn ei bod yn annhebygol y bydd y DU yn gyfrannwr net i'r comisiwn. Mae'n bosibl y defnyddir

fund rural development in southern Europe. If that were the case, we would have a strong argument to make.

I recognise that implementing reforms will require adjustment. We are currently assessing the likely impact of the reforms on the industry in Wales, although, until the commission's detailed texts become available, there is still much uncertainty. The key objective is for Wales to get a fair financial deal overall, with adequate funding under pillar 2 to help the process of adaptation. Given the historic underfunding of rural development, and the difficulties that our peripheral rural communities are already experiencing, my objectives are as follows. First, we need to ensure that the UK makes it clear to the European Commission that UK support for the reform package is dependent on the UK getting a fair share of pillar 2 funding that rectifies past underfunding. Secondly, we aim to secure adequate funding under pillars 1 and 2, so that CAP reforms can be implemented successfully in Wales. Finally, we will take an active part in discussions. We need a modern CAP that delivers what society values: prosperous rural areas, a better deal for the environment, high-quality safe food, high animal welfare standards, a better deal for farmers, and better value for money for taxpayers and consumers. All that is in line with our 'Farming for the Future' strategy.

I am keen to hear Members' views. In the minute that I have to respond at the end of the debate, I will try to respond to them.

3:40 p.m.

Peter Rogers: I propose the following amendments in the name of Jonathan Morgan. Amendment 1: add a new point:

supports the continued commitment to market support reduction measures contained in the proposals.

I propose amendment 2. Add a new point:

cronfeydd wedi'u modiwlleiddio y DU i ariannu datblygiad gwledig yn ne Ewrop. Os mai dyna fyddai'n digwydd, byddai gennym ddadl gref i'w rhoi gerbron.

Yr wyf yn cydnabod y bydd gweithredu diwygiadau yn galw am addasu. Yr ydym ar hyn o bryd yn asesu effaith debygol y diwygiadau ar y diwydiant yng Nghymru, er, hyd nes y bydd testunau manwl y comisiwn ar gael, bod cryn ansicrwydd o hyd. Yr amcan allweddol i Gymru yw cael bargaen ariannol deg yn gyffredinol, gydag arian digonol o dan biler 2 i gynorthwyo'r broses addasu. O gofio'r tanariannu hanesyddol ym maes datblygu gwledig, a'r anawsterau y mae ein cymunedau gwledig ymylol yn eu ddioddef yn barod, dyma yw fy amcanion. Yn gyntaf, mae angen inni sicrhau bod y DU yn ei gwneud yn glir i'r Comisiwn Ewropeaidd bod cefnogaeth y DU i'r pecyn diwygio yn ddibynnol ar y ffaith y bydd y DU yn cael cyfran deg o arian piler 2 sy'n cywiro'r tanwario yn y gorffennol. Yn ail, anelwn at sicrhau arian digonol o dan bileri 1 a 2 fel bod modd gweithredu diwygiadau PAC yn llwyddiannus yng Nghymru. Yn olaf, byddwn yn cymryd rhan weithredol yn y trafodaethau. Mae angen PAC modern sy'n cyflwyno yr hyn y mae cymdeithas yn ei werthfawrogi: ardaloedd gwledig ffyniannus, bargaen well i'w amgylchedd, bwyd diogel o safon, safonau lles anifeiliaid uchel, bargaen well i ffermwyr, a gwell gwerth am arian i drethdalwyr a defnyddwyr. Mae hyn i gyd yn unol â'n strategaeth 'Ffermio i'r Dyfodol'.

Yr wyf yn awyddus i glywed barn yr Aelodau. Yn y funud sydd gennyf i ymateb ar ddiwedd y ddadl, byddaf yn ceisio ymateb iddynt.

Peter Rogers: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Jonathan Morgan. Gwelliant 1: ychwanegu pwynt newydd:

yn cefnogi parhau â'r ymrwymiad i'r mesurau i roi llai o gymorth i'r farchnad a gynhwysir yn y cynigion.

Cynigiau welliant 2. Ychwanegu pwynt newydd:

supports the distribution of any funds arising from modulation being distributed within the member state from which such funds arise.

I propose amendment 3. Add a new point:

supports the principal of co-financing in any future modulation regulations.

I propose amendment 4. Add a new point:

supports the principles of decoupling as an essential step in preparing the European Union negotiating position prior to the September meeting of the Doha round of the World Trade Organisation negotiations.

Here we go again. The European Commission's determination to simplify the CAP support mechanism was a goal set in the original Agenda 2000 reforms. However, we have failed miserably to supply a Welsh context for that. Decoupling farm income CAP payments, to reduce the unacceptable levels of bureaucracy and red tape, given the conditions that are currently attached to the commodity schemes, are to be welcomed. I will leave the Conservative amendments to my colleague Glyn Davies, who will discuss them. I will deal with the delivery and processing of the present CAP support by the Assembly, which is a disgrace.

We must consider the Welsh sheep farmers who are totally dependent on the sheep annual premium scheme. It is a lifeline for those farmers. For many years, the payment was made in three equal instalments—one in August, another in October and one in the spring. This year it was announced, well beforehand, that this scheme would be changed, and that all farmers in the United Kingdom would receive a single payment. That meant that it was more important than ever to ensure that the payment was made on time. Throughout the summer, questions have been asked and lobbying undertaken to ensure that the Assembly would adhere to one payment. There is no escaping the fact that most farmers' finances—their standing order arrangements for bills and other financial commitments—are budgeted for in

yn cefnogi dosbarthu unrhyw arian sy'n deillio o fodiwleiddio o fewn yr aelod wladwriaeth o le y daw'r arian hwnnw.

Cynigiau welliant 3. Ychwanegu pwynt newydd:

yn cefnogi'r egwyddor o gyd-ariannu mewn unrhyw reoliadau ar fodiwleiddio yn y dyfodol.

Cynigiau welliant 4. Ychwanegu pwynt newydd:

yn cefnogi egwyddorion datgysylltu fel cam hanfodol tuag at baratoi safbwynt negodi'r Undeb Ewropeaidd cyn y cyfarfod a gynhelir ym mis Medi yn rownd Doha o drafodaethau Corff Masnach y Byd.

Dyma ni eto. Mae penderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd i symleiddio mecanwaith cymorth y PAC yn nod a osodwyd yn niwygiadau gwreiddiol Agenda 2000. Fodd bynnag yr ydym wedi methu'n alaethus â darparu cyd-destun Cymreig ar gyfer hynny. Mae datgysylltu taliadau PAC incwm ffermydd, i leihau'r lefelau annerbyniol o fiwrocratiaeth, o gofio'r amodau sydd ynghlwm â chynlluniau nwyddau ar hyn o bryd, i'w groesawu. Gadawaf welliannau'r Ceidwadwyr i'm cyd-Aelod Glyn Davies, a fydd yn eu trafod. Ymdriniaf â'r ffordd y mae'r Cynulliad yn cyflwyno a phrosesu'r cymorth PAC presennol, sy'n warthus.

Rhaid inni ystyried ffermwyr defaid Cymru sy'n gwbl ddibynnol ar y cynllun premiwm defaid blynyddol. Mae'n achubiaeth i'r ffermwyr hynny. Ers blynyddoedd lawer, gwnaed y taliad mewn tri rhandaliad cyfartal—un fis Awst, un arall fis Hydref, ac un yn y gwanwyn. Eleni, cyhoeddwyd, ymhell ymlaen llaw, y byddai'r cynllun hwn yn cael ei newid, ac y byddai holl ffermwyr y Deyrnas Unedig yn derbyn un taliad. Golygai hynny ei bod yn bwysicach nag erioed sicrhau bod y taliad yn cael ei wneud yn brydlon. Drwy gydol yr haf, gofynnwyd cwestiynau a lobiwyd i sicrhau y byddai'r Cynulliad yn glynu at un taliad. Ni ellir dianc rhag y ffaith bod materion ariannol y rhan fwyaf o ffermwyr—eu trefniadau archebion sefydlog ar gyfer biliau ac ymrwymadau ariannol eraill—yn cael ei drefnu yn yr

the autumn, starting in October. We were given assurances throughout the last six months that the date of payment would be 16 October—

Cynog Dafis: Pa bryd y bydd Peter yn dechrau siarad am ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin?

He is talking about the current—

The Deputy Presiding Officer: Order. I have been listening carefully and thus far I have heard nothing out of order. Thank you, Cynog, for your assistance, but I am happy.

Delyth Evans: Point of order.

The Deputy Presiding Officer: I will take a point of order after this speech.

Peter Rogers: How long do I have?

The Deputy Presiding Officer: You have five minutes in total.

Peter Rogers: I have noticed that the period for payment has now been extended from 16 October until April. It is no good Mike German shaking his head and saying that payment was not promised on 16 October. It was promised then; there was a commitment that it would be paid then. We must have parity with England, Scotland and Ireland, and if their farmers received payment at that time, then Welsh farmers also deserve to receive theirs.

Thirty-five days have passed since 16 October and there is complete chaos. Divisional offices have been held up with telephone calls from bank managers and concerned financial consultants, and nothing has been done. We have had promise after promise of what you will deliver, Minister, but there is no escaping the fact that you came to a Committee meeting last week having left off the agenda the problems with this—

Cynog Dafis: Pwynt o drefn.

The Deputy Presiding Officer: Does this

hydref, gan ddechrau fis Hydref. Rhoddwyd sicrwydd inni drwy gydol y chwe mis diwethaf mai dyddiad y taliad fyddai 16 Hydref—

Cynog Dafis: When will Peter start talking about CAP reform?

Mae'n siarad am—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Yr wyf wedi bod yn gwrando'n ofalus a hyd yn hyn ni chlywais ddim a oedd allan o drefn. Diolch yn fawr ichi Cynog am eich cymorth, ond yr wyf i'n fodlon.

Delyth Evans: Pwynt o drefn.

Y Dirprwy Lywydd: Byddaf yn derbyn pwynt o drefn ar ôl yr araith hon.

Peter Rogers: Faint o amser sydd gennyf?

Y Dirprwy Lywydd: Mae gennych gyfanswm o bum munud.

Peter Rogers: Yr wyf wedi sylwi bod y cyfnod ar gyfer y taliad bellach wedi ei ymestyn o 16 Hydref i fis Ebrill. Nid yw'n werth i Mike German ysgwyd ei ben a dweud na addawyd gwneud y taliad ar 16 Hydref. Fe'i addawyd bryd hynny; yr oedd ymrwymiad y byddai'n cael ei dalu bryd hynny. Rhaid inni gael cydraddoldeb â Lloegr, yr Alban ac Iwerddon, ac os cafodd eu ffermwyr hwy y taliad ar yr amser hwnnw, yna mae ffermwyr Cymru hefyd yn haeddu derbyn eu rhai hwythau.

Aeth 35 o ddiwrnodau heibio ers 16 Hydref ac mae anhrefn llwyr. Rhoddwyd pwysau ar swyddfeydd rhanbarthol gyda galwadau gan reolwyr banc ac ymgynghorwyr ariannol sy'n pryderu, ac ni wnaed dim. Cawsom addewid ar ôl addewid ynglŷn â'r hyn y byddwch yn ei gyflawni Weinidog, ond nid oes dianc rhag y ffaith ichi ddod i gyfarfod y Pwyllgor yr wythnos diwethaf a pheidio a chynnwys y problemau gyda hyn ar yr agenda—

Cynog Dafis: Point of order.

Y Dirprwy Lywydd: A yw hyn yn

pertain to the speech? If not, it is not fair to interrupt Members.

Cynog Dafis: Yr wyf eisiau eich atgoffa, Ddirprwy Lywydd, a gweddill y Cynulliad, bod amser wedi ei neilltuo i drafod y mater hwn yr wythnos nesaf. Felly, oni fyddai'n synhwyrol i Peter aros tan yr wythnos nesaf i drafod y materion hyn yn lle dwyn amser trafod PAC?

The Deputy Presiding Officer: Order. I have heard enough. This is a wide-ranging debate. It concerns the CAP mid-term review, which means that a Member is in order if he or she argues that the CAP should be altered in some way in future. I have not heard anything out of order.

Peter Rogers: I have tried to raise the concerns of the agricultural industry by means of two urgent questions, but they were not allowed. In Committee meetings, when we tried to press the Minister to give a commitment as to when the money would be paid, he told us—this was last week—that he disagreed with the First Minister's announcement that it would be done before the end of November. That was quite obvious. He then gave me a commitment that, for anybody facing financial hardship, he would order payment to be processed manually so that those people would receive it. He knows very well that no manual arrangements were made to pay hard-pressed farmers.

Kirsty Williams: You are out of time, Peter.

The Deputy Presiding Officer: Order. I am well aware that the clock says five minutes and 18 seconds. I thank you for trying to help, but I am aware of the time. Peter, you must wind up.

The First Minister: He is talking bollocks.

Peter Rogers: I am not talking bollocks at all, First Minister. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] Edwina Hart has already stated today that the £18 payment has been sent. You know very well that that payment has not been sent to the farmers. All that has been

berthnasol i'r araith hon? Os nad yw, nid yw'n deg torri ar draws Aelodau.

Cynog Dafis: I would like to remind you, Deputy Presiding Officer, and the rest of the Assembly, that time has been allocated to discuss this matter next week. Therefore, would it not be sensible for Peter to wait until next week to discuss these matters, instead of taking up the time set aside to discuss CAP?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Yr wyf wedi clywed digon. Mae hon yn ddadl eang. Mae'n ymwneud ag adolygiad canol tymor PAC, sy'n golygu bod Aelod mewn trefn os bydd ef neu hi yn dadlau y dylai PAC gael ei newid mewn rhyw ffordd yn y dyfodol. Nid wyf wedi clywed dim sydd allan o drefn.

Peter Rogers: Ceisiais godi pryderon y diwydiant amaeth trwy gyfrwng dau gwestiwn brys, ond ni chawsant eu caniatáu. Pan wnaethom ymdrech, mewn cyfarfodydd y Pwyllgor, i bwysu ar y Gweinidog i roi ymrwymiad ynglŷn â pha bryd y cai'r arian ei dalu, dywedodd wrthym—yr oedd hyn yr wythnos diwethaf—ei fod yn anghytuno â chyhoeddiad y Prif Weinidog y byddai'n cael ei dalu cyn diwedd Tachwedd. Yr oedd hynny'n gwbl amlwg. Yna rhoddodd ymrwymiad i mi y byddai'n gorchymyn i daliad gael ei brosesu â llaw ar gyfer unrhyw un oedd yn wynebu caledi ariannol, fel bod y bobl hynny yn ei dderbyn. Gŵyr yn dda na wnaed unrhyw drefniadau â llaw i dalu ffermwyr sy'n ei chael yn anodd i gael dau ben llinyn ynghyd.

Kirsty Williams: Mae eich amser ar ben, Peter.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Gwn yn iawn fod y cloc yn dangos pum munud a 18 eiliad. Yr wyf yn ddiolchgar ichi am geisio cynorthwyo, ond yr wyf yn ymwybodol o'r amser. Peter, mae'n rhaid ichi ddirwyn i ben.

Y Prif Weinidog: Mae'n malu cachu.

Peter Rogers: Nid wyf yn malu cachu o gwbl, Brif Weinidog. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.'] Cyhoeddodd Edwina Hart yn barod heddiw fod y taliad o £18 wedi ei anfon. Yr ydych yn gwybod yn iawn nad yw'r taliad hwnnw wedi cael ei anfon i'r

sent is the processing £13 or so. You do not know exactly what has happened. I am asking for a review and for someone who understands the problems. The industry cannot continue unless it receives fair financial returns.

The Deputy Presiding Officer: I appeal to Members to be brief. We have 10 speakers and we cannot fit everybody in unless expeditious speeches are made. I also remind Members to watch their language. I will not rule on the recent outburst, but I do not want to hear such words while I am in the Chair.

Delyth Evans: Point of order. Peter Rogers was called to present amendments 1, 2, 3 and 4 in the name of Jonathan Morgan, and referred to none of them. I ask for a ruling on whether that was in order.

David Melding: Further to that point of order, I suggest that, in grammatical terms, the proposal of the amendments could be inferred.

The Deputy Presiding Officer: I will read the Record of Proceedings carefully. However, I have not heard anything out of order. I ask Members to make progress on the matter at hand.

Rhodri Glyn Thomas: Cynigiau welliant 5 yn enw Jocelyn Davies. Ychwanegu pwynt newydd:

yn galw ar y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor i sicrhau bod Cymru'n elwa i'r eithaf ar yr adolygiad polisi.

Yr wyf yn parchu eich penderfyniad, Ddirprwy Lywydd. Tybiaf nad oes hawl gennym ddefnyddio termau amaethyddol yn y ddadl hon am i chi farnu fod termau Peter Rogers yn anaddas. Efallai eu bod yn gwbl addas yng nghyd-destun y drafodaeth hon. Nodaf hefyd na chynigiodd Peter Rogers y gwelliannau ac felly cymeraf yn ganiataol fod y gwelliannau yn methu o'r herwydd.

Gadewch inni ddychwelyd at yr adolygiad canol tymor o'r PAC. Mae Peter wedi ein

ffermwyr. Yr unig beth a anfonwyd yw y £13, neu tua hynny, ar gyfer prosesu. Ni wyddoch yn iawn beth a ddigwyddodd. Gofynnaf am adolygiad ac am rywun sy'n deall y problemau. Ni all y diwydiant barhau os na fydd yn derbyn elw teg.

Y Dirprwy Lywydd: Apeliad ar Aelodau i fod yn gryno. Mae gennym 10 siaradwr ac ni allwn gynnwys pawb heddiw os na wneir areithiau cyflym. Hefyd, hoffwn atgoffa'r Aelodau i fod yn wyladwrus o'u hiaith. Ni wnaf ddyfarniad ar y ffrwydrad diweddar, ond nid wyf am glywed geiriau o'r fath tra byddaf i yn y Gadair.

Delyth Evans: Pwynt o drefn. Galwyd Peter Rogers i gyflwyno gwelliannau 1, 2, 3 a 4 yn enw Jonathan Morgan, ac ni chyfeiriodd at yr un ohonynt. Gofynnaf am ddyfarniad ar a oedd hynny mewn trefn.

David Melding: Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, awgrymaf, mewn termau gramadegol, y gellid tybio i'r gwelliannau gael eu cynnig.

Y Dirprwy Lywydd: Darllenaf Gofnod y Trafodion yn ofalus. Fodd bynnag ni chlywais unrhyw beth allan o drefn. Gofynnaf i'r Aelodau fwrw ymlaen â'r mater dan sylw.

Rhodri Glyn Thomas: I propose amendment 5 in the name of Jocelyn Davies. Add a new point:

calls upon the Deputy First Minister and Minister for Rural Development and Wales Abroad to ensure that Wales benefits fully from the policy review.

I respect your decision, Deputy Presiding Officer. I take it that we cannot use agricultural terms in this debate since you ruled that the terms Peter Rogers used were inappropriate. Perhaps they are entirely appropriate in the context of this discussion. I also note that Peter Rogers did not propose the amendments and therefore I assume that the amendments fall.

Let us return to the mid-term review of the CAP. Peter referred us to a specific matter

cyfeirio at fater penodol nad yw'n ymwneud â'r adolygiad. Mae cyfle gwirioneddol yma i sicrhau bod y diwydiant amaethyddol a'r economi wledig yn manteisio ar yr adolygiad hwn. Rhaid cydnabod bod y PAC yn draddodiadol wedi ffafrio ffermwyr yn neddwyrain Lloegr, sef ffermwyr cnydau. Nid yw'r polisi wedi ffafrio cynhyrchwyr yng Nghymru. Felly, mae cyfle yn awr. Fodd bynnag, mae agwedd y Gweinidog tuag at y trafodaethau hyn yn ofid mawr imi. Mae'n ymddangos ei fod yn ceisio cymryd y clod am yr holl newidiadau a gynigiwyd yn yr adolygiad, a'i fod yn honni bod y comisiynwyr yn Ewrop wedi darllen y ddogfen a lansiwyd gan Carwyn Jones, ei ragflaenydd, gan godi'r holl newidiadau o'r ddogfen honno. Go brin fod hynny'n wir.

I ba raddau y mae'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau mewnbwn o Gymru i'r trafodaethau ar yr adolygiad, a sut y mae'n gwneud hynny? Cododd Ieuan Wyn Jones y pwynt. Un bleidlais fydd gan Brydain yn y trafodaethau. I ba raddau mae Mike German yn sicrhau mewnbwn o Gymru? A yw'n cydnabod bod amaethyddiaeth yng Nghymru yn dra gwahanol i amaethyddiaeth yn Lloegr? Ni fydd yr hyn sydd o fantais i Loegr o reidrwydd o fantais i Gymru. Yn wir, mae'n annhebygol o fod o fantais i Gymru. Ymhle yn Ewrop y mae'n chwilio am gynghreiriaid? Mae gwladwriaethau a rhanbarthau eraill yn chwilio am yr un manteision ag y mae Cymru yn chwilio amdanynt? A yw wedi targedu'r cynghreiriaid hynny? A yw wedi chwilio am bynciau sy'n caniatáu inni greu'r cynghreiriaid hynny? A yw hyn wedi digwydd, neu a yw'r Gweinidog yn gorffwys ar ei rwyfau, gan geisio manteisio ar ei sefyllfa a dweud y bydd hyn oll yn digwydd, ac yn y pen draw, hawlio ei fod wedi llwyddo i gael hyn a hyn i Gymru? Beth yn union y mae'n ceisio ei gyflawni drwy'r trafodaethau hyn?

3.50 p.m.

A yw wedi ystyried y posibilrwydd o edrych ar bwerau dewisol ar lefel is-wladwriaeth i Gymru? A yw wedi llwyddo i ddarganfod i ba raddau y mae ef, fel cynrychiolydd Cymru, yn gallu dylanwadu ar y trafodaethau hyn?

that is not connected to the review. There is a real opportunity here to ensure that the agricultural industry and the rural economy benefit from this review. We must accept that the CAP has traditionally favoured farmers in the south-east of England, that is, crop farmers. The policy has not favoured producers in Wales. There is, therefore, an opportunity now. However, the Minister's attitude to these discussions is of great concern to me. He seemed to be trying to take the credit for all the changes proposed in the review, and suggesting that the European commissioners had read the document that Carwyn Jones, his predecessor, launched, and had taken all the changes from that document. That is hardly likely.

To what extent does the Minister intend to ensure a Welsh input into the negotiations on the review, and how is he doing that? Ieuan Wyn Jones raised the point. Britain will have just one vote in the negotiations. To what extent is Mike German ensuring a Welsh input? Does he acknowledge that agriculture in Wales is considerably different from agriculture in England? What will benefit England will not necessarily benefit Wales. Indeed, it is unlikely to benefit Wales. Where in Europe is he looking for allies? There are other states and regions seeking the same benefits that Wales seeks. Has he targeted those allies? Has he looked for subjects that will allow us to form those alliances? Has this happened, or is the Minister resting on his laurels, trying to take advantage of his situation, saying that this will all happen, and in the end, claiming success for obtaining such and such for Wales? What exactly is he trying to achieve in these discussions?

Has he considered the possibility of looking at selective powers on a sub-state level for Wales? Has he managed to find out to what extent he, as Wales's representative, can influence these discussions?

Cyfeiriodd at symud o biler 1 i biler 2. Yn gyffredinol, gellid dadlau y byddai hynny'n fanteisiol i Gymru, ond rhaid inni astudio'r manylion. Bu sôn am gyllid cyfatebol. A yw'n gallu gwarantu cyllid cyfatebol o 100 y cant, os digwydd y symudiadau hyn? Bydd yn fanteisiol i'r economi wledig pe bai hynny'n digwydd.

Soniodd hefyd am ddatgysylltu fel mesur manteisiol, ond nid yw wedi dechrau ateb y cwestiwn a fydd y taliadau wedyn yn cael eu seilio ar daliadau hanesyddol. Mae'r diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru wedi dioddef oherwydd clwy'r traed a'r genau a, chyn hynny, BSE. Pa flwyddyn fydd y Gweinidog yn ei defnyddio fel sail i'r taliadau hanesyddol hynny?

Beth sydd yn digwydd i denantiaid os caiff taliadau eu datgysylltu? A yw'r Gweinidog wedi meddwl am hynny? Sut y caiff tenantiaid eu trin? Cyfyd pob math o gwestiynau nad yw'r Gweinidog fel pe bai hyd yn oed wedi'u hystyried eto.

Ar welliannau'r Torïaid, am unwaith cytunaf â'r Gweinidog. Maent wedi eu geirio yn eithriadol o wael. Mae gwelliant 1, fel ag y saif, o blaid gostwng prisiau a gostwng gwerth. Mae sôn am fodiwleiddio, ac am sicrhau bod arian yn dychwelyd at y wladwriaeth, ond mae angen sicrhau bod arian yn dychwelyd i Gymru o fodiwleiddio.

Ceir sôn am ariannu ar y cyd, ond ar ba lefel? Deg y cant, 20 y cant—beth sy'n dderbyniol? Byddwn yn pleidleisio yn erbyn gwelliant 1, yn ymatal ar y gwelliannau eraill ac yn annog pawb i gefnogi'n gwelliant ni, sy'n galw ar y Gweinidog i ystyried y manau lle y gall ddylanwadu ar hyn er budd y diwydiant a'r economi wledig yng Nghymru.

Lynne Neagle: I welcome the opportunity to contribute to this debate. The Assembly's response on this issue will reveal much about where we stand on the central issue of social justice. Do we stand for a Europe that delivers a fair and equal settlement for applicant states, a Europe that will lower the price of food for consumers and, crucially, do we stand for fair trade for poor farmers and workers in the developing world? It will be a

He referred to the transition to pillar 1 to pillar 2. Generally, it could be argued that that would be beneficial to Wales, but we must study the small print. Reference has been made to match funding. Can he guarantee 100 per cent match funding, should these transitions go ahead? It would benefit the rural economy if that were to happen.

He also mentioned decoupling as an advantageous measure, but he has not begun to answer the question of whether the payments would then be based on historic payments. The agricultural industry in Wales has suffered as a result of foot and mouth disease, and BSE before that. Which year would the Minister use as a basis for those historic payments?

What will happen to tenants if payments are decoupled? Has the Minister considered that? How will tenants be treated? All manner of questions arise that the Minister appears not to have even considered yet.

In terms of the Tories' amendments, for once I agree with the Minister. They have been exceptionally poorly worded. Amendment 1, as it stands, favours lowering prices and lowering value. There is reference to modulation, and to ensuring that money returns to the state, but we want to ensure that money returns to Wales from modulation.

There is reference to joint funding, but on what level? Ten per cent, 20 per cent—what is acceptable? We will vote against amendment 1, abstain on the other amendments and we encourage everyone to support our amendment, which calls on the Minister to consider the areas that he could influence for the benefit of the industry and the rural economy in Wales.

Lynne Neagle: Croesawaf y cyfle i gyfrannu i'r ddadl hon. Bydd ymateb y Cynulliad ar y mater hwn yn dadlennu llawer ynghylch lle yr ydym yn sefyll ar fater canolog cyfiawnder cymdeithasol. A safwn dros Ewrop sy'n cyflwyno setliad teg a chyfartal ar gyfer gwladwriaethau sy'n gwneud cais i ymuno, Ewrop a fydd yn gostwng pris bwyd ar gyfer defnyddwyr ac, yn hollbwysig, a ydym yn sefyll dros fasnachu teg i ffermwyr a

test for Plaid Cymru and its claim to internationalist credentials, and a test for the Tory leadership at a UK level. Will the Tory approach to Europe be about keeping what is wrong with it, such as the common agricultural policy, while simultaneously rejecting the single currency and the benefits that that would bring to our manufacturing industries?

Moving away from subsidies for production towards environmental management is welcome in the short term, but it is not a solution to the problems of rural Wales.

Jonathan Morgan: The Member referred to the single European currency. Many of us in the Chamber believe that we should head as quickly as possible towards a referendum on the issue. At least then the British people can decide.

Lynne Neagle: I welcome your support for the single currency, Jonathan.

It is not a long-term solution to the problems facing the farming industry if it means preserving farming for the sake of it, and simply paying people to be landowners. Some Assembly Members will disagree with me on that point. If they do, perhaps they should say whether or not they propose to give working-class allotment owners in my constituency money to manage their plots. Or are we only interested in giving money to those who own more land, and who have done so for generations?

Reforming the CAP could also impact upon the drugs menace that is doing so much damage to our Valleys communities. It is a sad fact that, for many farmers in the developing world, it is easier to grow the drugs that are poisoning our communities and smuggle them into this country than it is for them to legally import food produce. It is time that all governments were honest with farmers. It is time that they were told that a liberal approach means free trade, and that this means that our priorities in future should be about weaning farmers off subsidy and getting them to do more than produce overly expensive and unwanted food. By decoupling production from subsidy, we can obtain more

gweithwyr tlawd yn y byd sy'n datblygu? Bydd yn her i Blaid Cymru a'i honiad bod ganddi gymwysterau rhyngenedlaethol, ac yn her i'r Arweinyddiaeth Geidwadol ar lefel y DU. A fydd ymagwedd y Toriaid tuag at Ewrop yn golygu cadw'r hyn sydd o'i le arni, megis y polisi amaethyddol cyffredin, ac ar yr un pryd gwrthod yr arian sengl a'r manteision a fyddai'n dod yn ei sgîl i'r diwydiannau gweithgynhyrchu.

Mae symud oddi wrth gymorthdaliadau ar gyfer cynhyrchu tuag at reoli'r amgylchedd i'w groesawu yn y byrdymor, ond nid yw'n ateb i broblemau Cymru wledig.

Jonathan Morgan: Cyfeiriodd yr Aelod at arian sengl Ewrop. Cred llawer ohonom yn y Siambr y dylem fwrw ymlaen cyn gynted â phosibl â refferendwm ar y mater. O leiaf wedyn caiff pobl Prydain benderfynu.

Lynne Neagle: Coesawaf eich cefnogaeth i'r arian sengl, Jonathan.

Nid yw'n ateb hirdymor i'r problemau sy'n wynebu'r diwydiant ffermio os yw'n golygu diogelu ffermio er ei fwyn ei hun, a thalu pobl i fod yn ddim ond tirfeddianwyr. Bydd rhai Aelodau o'r Cynulliad yn anghytuno â mi ar y pwynt hwnnw. Os felly, efallai y dylent ddweud a fwriadant roi arian i ddeiliaid rhandiroedd dosbarth gweithiol yn fy etholaeth i i reoli eu plotiau, ai peidio. Neu ai dim ond diddordeb mewn rhoi arian i'r rheini sy'n berchen ar fwy o dir, ac sydd wedi gwneud felly ers cenedlaethau sydd gennym?

Gallai diwygio'r PAC hefyd gael effaith ar felltith cyffuriau sy'n gwneud cymaint i niweidio ein cymunedau yn y Cymoedd. Mae'n ffaith drist ei bod yn haws i lawer o ffermwyr yn y byd sy'n datblygu dyfu'r cyffuriau sy'n gwenwyno ein cymunedau a'u smyglo i mewn i'r wlad hon nag ydyw iddynt fewnforio cynnyrch bwyd yn gyfreithlon. Mae'n bryd i bob llywodraeth fod yn onest â ffermwyr. Mae'n hen bryd iddynt gael gwybod bod ymagwedd ryddfrydol yn golygu masnach rydd, a bod hynny'n golygu y dylai ein blaenoriaethau yn y dyfodol ganolbwyntio ar ddiddyfnu ffermwyr oddi ar gymorthdaliadau a'u hannog i wneud mwy na chynhyrchu bwyd yn rhy gostus ac sy'n

affordable and better-quality produce from developing countries and, at the same time, take real steps to end the drugs menace in our Valleys.

David Davies: If the Member supports a liberal approach, does she also feel that farmers in this country should not have to adhere to higher standards than farmers in the countries from where these cheap imports are coming?

Lynne Neagle: The farmers are well-regulated, David. If you are defending the CAP, it is no surprise that you are defending the indefensible. That is what I would expect from a Tory. It is not consistent—

Rhodri Glyn Thomas *rose*—

Lynne Neagle: I cannot take any more interventions. It is not consistent with a commitment to social justice to continue to burden our steel and manufacturing communities with subsidising farmers to produce unwanted food that eventually ends up being dumped on the markets of the developing world. It causes poverty in the developing world and perpetuates the gross inequalities between the western world and the developing world. I know that my constituents in Torfaen would rather see their taxes spent on urban and rural schools, transport and police. They would rather see that than continue to subsidise farmers when the average value of a Welsh family farm is £400,000. This is an important debate, and we must send a strong message to the EU that we will not allow this gross abuse of public money to continue. No-one wins as a result of CAP. It does not deliver for rural communities, it does not deliver for the taxpayer and for consumers and it does not deliver for the developing world. That is the clear message that we must send out today—that only a radical reform of CAP that ends subsidy for production will be acceptable to this Assembly.

Glyn Davies: The mid-term review of the

ddiangen. Trwy ddatgysylltu cynhyrchu oddi wrth gymhorthdal, gallwn gael cynnyrch mwy fforddiadwy o ansawdd gwell o wledydd sy'n datblygu ac, ar yr un pryd, gymryd camau gwirioneddol i roi terfyn ar felltith cyffuriau yn ein Cymoedd.

David Davies: Os cefnoga'r Aelod ymagwedd ryddfrydol, a ydyw hefyd yn teimlo na ddylai ffermwyr yn y wlad hon lynu at safonau uwch na ffermwyr yn y gwledydd y daw'r mewnforion rhad hyn ohonynt?

Lynne Neagle: Mae'r ffermwyr yn cael eu rheoleiddio'n dda, David. Os ydych yn amddiffyn y PAC, nid yw'n syndod eich bod yn ceisio amddiffyn yr hyn na ellir ei amddiffyn. Dyna beth y byddwn yn ei ddisgwyl oddi wrth Dori. Nid yw'n gyson—

Rhodri Glyn Thomas *a gododd*

Lynne Neagle: Ni allaf dderbyn rhagor o ymyriadau. Nid yw'n gyson ag ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol i barhau i drethu ein cymunedau dur a gweithgynhyrchu drwy roi cymorthdaliadau i ffermwyr i gynhyrchu bwyd nad oes ei angen sydd yn y pen draw yn cael ei ddadlwytho ar farchnadoedd y byd sy'n datblygu. Mae'n achosi tlodi yn y byd sy'n datblygu ac yn gwaethygu'r anghyfartaleddau difrifol rhwng y byd gorllewinol a'r byd sy'n datblygu. Gwn y byddai'n well gan fy etholwyr yn Nhorfaen weld eu trethi'n cael eu gwario ar ysgolion trefol a gwledig, ar drafnidiaeth a'r heddlu. Byddai'n well ganddynt weld hynny na pharhau i roi cymorthdaliadau i ffermwyr pan fo gwerth y fferm deuluol Gymreig ar gyfartaledd yn £400,000. Mae hon yn ddadl bwysig a rhaid inni anfon neges gref i'r UE na chaniatawn i'r camddefnydd difrifol hwn o arian cyhoeddus barhau. Nid oes neb ar ei ennill o ganlyniad i'r PAC. Nid yw'n cyflawni dim i gymunedau gwledig, nid yw'n cyflawni dim i'r trethdalwyr a'r defnyddwyr ac nid yw'n cyflawni dim i'r byd sy'n datblygu. Dyna'r neges glir y mae'n rhaid inni ei chyfleu heddiw—mai dim ond diwygiad radical o'r PAC a fydd yn rhoi terfyn ar gymorthdaliadau cynhyrchu, a fydd yn dderbyniol i'r Cynulliad hwn.

Glyn Davies: Mae'r adolygiad canol tymor

CAP is a difficult issue to cover in a five-minute speech. It is also difficult to address this issue before the EU puts more detail on the skeletal ideas published by Commissioner Fischler last July. A huge number of questions remain; I accept Rhodri Glyn Thomas's point in that regard. However, we accept that there must be a significant mid-term review. We have known about this since 1999 because of the need to finalise some of the Agenda 2000 issues, which were put to one side because of the difficulties in reaching conclusions at that time. We think that it is right to reform the CAP, so that it can accommodate the 10 new accession countries that we anticipate will be joining the EU in 2004. We also think that it is necessary to enable the EU to enter the next major Doha round meeting of the World Trade Organisation next September. I agree with the Deputy First Minister that we must go into that meeting with a positive agenda.

Finally, we need a CAP that responds to the sustainable development agenda that was agreed at Göteborg last year and further developed at the Johannesburg summit, which the First Minister attended. When we see more detail on Commissioner Fischler's paper next January, and as the Government responds to that as negotiations continue through the early part of next year, I expect points of disagreement to arise between us. However, at this stage there is not a strong need to challenge the Government's approach. We also wish to see a CAP that is more in tune with world markets and encourages farmers across the EU to deliver goods—in the broadest sense—that taxpayers are content to pay for. We wish to see a CAP that makes much fewer demands in terms of bureaucracy and enables the EU to challenge the US, and, indeed, now the Cairns Group, I believe, over its newly introduced trade-destroying farm aid programmes.

Delivering goods that are acceptable to the taxpayer is particularly important to me. When I began farming, the non-farming public regarded us with affection. Much of that has gone. We sometimes see that negativity—we saw a little of it today from

hwn o'r PAC yn fater anodd i'w gwmpasu mewn araith bum munud. Mae hefyd yn anodd mynd i'r afael â'r mater hwn cyn i'r UE roi mwy o gnawd ar esgyrn y syniadau a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Fischler fis Gorffennaf diwethaf. Mae llawer o gwestiynau'n parhau; derbyniam bwynt Rhodri Glyn Thomas yn hynny o beth. Fodd bynnag, derbyniwn fod yn rhaid wrth adolygiad canol tymor sylweddol. Yr ydym wedi gwybod am hyn ers 1999 oherwydd yr angen i gwblhau rhai o faterion Agenda 2000, a roddwyd o'r neilltu oherwydd yr anawsterau i ddod i gasgliadau ar yr adeg honno. Credwn ei bod yn briodol diwygio'r PAC er mwyn iddo allu cynnwys y 10 gwlad y rhagwelwn y byddant yn ymuno â'r UE yn 2004. Credwn hefyd ei bod yn angenrheidiol i alluogi'r UE i ymuno yn y cyfarfod cylch Doha mawr nesaf o Gorff Masnach y Byd fis Medi nesaf. Cytunaf â'r Dirprwy Brif Weinidog fod yn rhaid inni fynd i'r cyfarfod hwnnw gydag agenda gadarnhaol.

I gloi, mae angen PAC sy'n ymateb i'r agenda datblygu cynaliadwy a gytunwyd yn Göteborg y llynedd ac a ddatblygwyd ymhellach yn uwch-gynhadledd Johannesburg, a fynychwyd gan y Prif Weinidog. Pan welwn ragor o fanylion ar bapur y Comisiynydd Fischler fis Ionawr nesaf, ac wrth i'r Llywodraeth ymateb i hwnnw wrth i negodiadau barhau drwy ran gyntaf y flwyddyn nesaf, disgwyliaf inni anghytuno ar rai pwyntiau. Fodd bynnag, ar yr adeg hon nid oes angen mawr i herio ymagwedd y Llywodraeth. Yr ydym hefyd am weld PAC sydd yn fwy cydnaws â marchnadoedd y byd ac sy'n annog ffermwyr ledled yr UE i ddarparu nwyddau—yn yr ystyr ehangaf—y mae trethdalwyr yn fodlon talu amdanynt. Yr ydym am weld PAC sy'n gofyn llawer llai o ran biwrocratiaeth ac sy'n galluogi'r UE i herio'r Unol Daleithiau, ac, yn wir, yn awr Grŵp Cairns, mi gredaf, ynglŷn â'i raglenni cymorth i ffermydd sy'n dinistrio masnach a gyflwynwyd yn ddiweddar.

Mae darparu nwyddau sy'n dderbyniol i'r trethdalwr yn arbennig o bwysig i mi. Pan ddechreuais ffermio, yr oedd gan y cyhoedd nad oedd ganddynt gysylltiad â ffermio gryn gydymdeimlad â ni. Mae llawer o hwnnw wedi diflannu. Weithiau gwelwn yr agwedd

Lynne—erupting in the Chamber. We also see negativity from other Members. Much of that change in attitude—

Rhodri Glyn Thomas *rose*—

Glyn Davies: Let me finish my point. Much of this change in attitude is due to the creation of butter mountains and wine lakes in the 1970s and 1980s. The waste involved in that overproduction, combined with a common agricultural policy with no environmental cross-compliance, was a scandal that outraged many people. People did not understand that it was the system that was at fault, not individual farmers.

4:00 p.m.

Rhodri Glyn Thomas: Do you agree that Lynne Neagle's contribution was pure Thatcherism, in terms of its advocacy of no intervention and no distortion of the market? I would have thought that a Conservative would welcome Lynne's contribution, as it contained pure Thatcherite economics.

Glyn Davies: If you took yourself seriously, Rhodri, you would be extremely good. I was commenting on the tone of Lynne's contribution. Perhaps I am wrong, but I sensed an anti-farming tone at times. If you did not spot that, there must also be something wrong with your hearing.

Since the early 1990s, there has been an incremental reduction in the market support regime. I believe that that regime has caused problems over a period of 40 years. This reduction is one of the fundamental principles of Fischler's proposals, and we have sought to reflect our support for that in amendment 1. I accept the Deputy First Minister's point, in that he wants to keep his options open. However, amendment 1, as proposed by Peter Rogers, will stand.

Dynamic modulation is another important feature of the proposals. We know that this proposal does not enjoy universal support, and the details of it be of particular

negyddol honno—gwelsom rywfaint ohoni heddiw gan Lynne—yn ffrwydro yn y Siambr. Gwelwn hefyd agwedd negyddol gan Aelodau eraill. Mae llawer o'r newid hwn mewn agwedd—

Rhodri Glyn Thomas *a gododd*

Glyn Davies: Gadewch imi orffen fy mhwynt. Mae llawer o'r newid agwedd hwn yn deillio o greu mynyddoedd menyn a llynnoedd gwin yn y 1970au a'r 1980au. Yr oedd y gwastraff a oedd yn gysylltiedig â'r gorgynhyrchu hwnnw, o'i gyfuno â pholisi amaethyddol cyffredin heb unrhyw drawsgydymffurfio amgylcheddol, yn warth a gythruddodd lawer o bobl. Nid oedd pobl yn deall mai'r system oedd ar fai ac nid ffermwyr unigol.

Rhodri Glyn Thomas: A gytunwch fod cyfraniad Lynne Neagle yn Thatcheriaeth bur, o ran annog dim anffurfio na dim ymyrraeth yn y farchnad? Byddwn yn tybio y câi cyfraniad Lynne groeso gan Geidwadwr, gan ei fod yn cynnwys economeg Thatcheraidd bur.

Glyn Davies: Pe baech yn cymryd eich hunan o ddifrif, Rhodri, gallech fod yn dda iawn. Yr oeddwn yn gwneud sylw ar naws cyfraniad Lynne. Efallai fy mod yn camgymryd, ond yr oeddwn yn synhwyro naws wrthwynebus i ffermio weithiau. Os na wnaethoch sylwi ar hynny yna mae'n rhaid bod rhywbeth o'i le ar eich clyw.

Ers dechrau'r 1990au bu gostyngiad cynyddol graddol yn y gyfundrefn cymorth i'r farchnad. Credaf fod y gyfundrefn wedi achosi problemau dros gyfnod o 40 mlynedd. Y gostyngiad hwn yw un o egwyddorion sylfaenol cynigion Fischler, ac yr ydym wedi ceisio adlewyrchu ein cefnogaeth i hynny yng ngwelliant 1. Derbyniaf bwynt y Dirprwy Brif Weinidog, nad yw am gyfyngu ar ei opsiynau. Fodd bynnag, bydd gwelliant 1, fel y'i cynigiwyd gan Peter Rogers, yn sefyll.

Nodwedd bwysig arall o'r cynigion yw modiwlleiddio deinamig. Gwyddom nad oes cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn, ac y bydd ei fanylion o bwys mawr. Un agwedd

importance. One aspect that particularly concerns us is the distribution of modulated moneys, and transfers from pillar 1 to pillar 2. Given the UK Government's reluctance to access pillar 2 funds in the past, we believe that it is crucial that modulated moneys should be redistributed within each member state. Another aspect that concerns us is the absence of a commitment to co-financing. The main reason why the current voluntary modulation scheme has been successful is that it has been co-financed. It is these concerns that have led us to table amendments 2 and 3, which are important.

Amendment 4 refers to decoupling. There are many questions about how decoupling will work in practice. However, I believe that the process is inevitable. It is the only way to reduce the huge burden of paperwork, and it is inevitable if World Trade Organisation demands are to be met and if we are to accommodate the accession of new states, particularly Poland, into the European Union.

There will be many questions about how the mid-term review progresses. There will also be many discussions in Plenary and in Committee, where I expect many disagreements to arise. However, we are dealing with broad principles at present, and I see no reason to object to the line taken by the Minister.

Mick Bates: It is a pleasure to participate in this debate, as we must remind Members that this mid-term review is fundamental. It is set against the need to establish a European position for the WTO talks next September. It is also worth reminding Members that the Doha development agenda, to which the Conservatives refer in amendment 4, aims to reduce agriculture subsidies. Despite the rural-urban split emerging in the Chamber, there is a genuine attempt through the Doha development agenda to address some of the major concerns about third world agricultural products and how the international market is condemning those countries to poverty because of the high subsidies in Europe. That issue is understood, and this mid-term review is part of the process of forming an opinion on it.

sy'n ein poeni'n arbennig yw dosbarthiad yr arian a fodiwleiddir, a'r trosglwyddo o biler 1 i biler 2. O gofio amharodrwydd Llywodraeth y DU i ddefnyddio arian piler 2 yn y gorffennol, credwn ei bod yn hanfodol bod arian wedi'i fodiwleiddio yn cael ei ailddosbarthu ym mhob aelod-wladwriaeth. Agwedd arall sy'n ein pryderu yw absenoldeb unrhyw ymrwymiad i gyd-ariannu. Y prif reswm pam y bu'r cynllun modiwleiddio gwirfoddol presennol yn llwyddiant yw ei fod wedi ei gyd-ariannu. Y pryderon hyn a'n harweiniodd i gyflwyno gwelliannau 2 a 3, sy'n rhai pwysig.

Mae gwelliant 4 yn cyfeirio at ddatgysylltu. Mae llawer o gwestiynau ynglŷn â sut y bydd datgysylltu yn gweithio'n ymarferol. Fodd bynnag, credaf fod y broses yn anorfod. Dyma'r unig ffordd o leihau baich enfawr y gwaith papur, ac mae'n anorfod os yw gofynion Corff Masnach y Byd i gael eu cwrdd ac os ydym am dderbyn gwladwriaethau newydd, yn enwedig Gwlad Pŵyl, i mewn i'r Undeb Ewropeaidd.

Bydd llawer o gwestiynau ynghylch sut y mae'r adolygiad canol tymor yn datblygu. Bydd hefyd llawer o drafodaethau yn y Cyfarfod Llawn ac yn y Pwyllgor, lle y disgwyliaf i sawl anghytundeb ddigwydd. Fodd bynnag yr ydym yn ymdrin ag egwyddorion cyffredinol ar hyn o bryd, ac ni welaf unrhyw reswm i wrthwynebu'r ymagwedd a gymerwyd gan y Gweinidog.

Mick Bates: Mae'n bleser cyfrannu at y ddatl hon, gan fod yn rhaid inni atgoffa Aelodau bod yr adolygiad canol tymor hwn yn hollbwysig. Fe'i gosodir yng nghydestun yr angen i sefydlu safbwynt Ewropeaidd ar gyfer trafodaethau Corff Masnach y Byd fis Medi nesaf. Mae hefyd yn werth atgoffa'r Aelodau bod agenda ddatblygu Doha y cyfeiria'r Ceidwadwyr ati yng ngwellaint 4, yn anelu at leihau cymorthdaliadau amaethyddol. Er gwaethaf y rhwyg rhwng y wlad a'r dref a ddaw i'r amlwg yn y Siambr, ceir ymdrech wirioneddol drwy agenda ddatblygu Doha i fynd i'r afael â rhai o'r prif bryderon ynglŷn â chynnyrch amaethyddol y trydydd byd a sut mae'r farchnad ryngwladol yn condemnio'r gwledydd hynny i dlodi oherwydd y cymorthdaliadau uchel yn Ewrop. Deallir y

mater hwnnw, ac mae'r adolygiad canol tymor hwn yn rhan o'r broses o ffurfio barn arno.

We should remind ourselves what we want to achieve from this mid-term review—an economically viable Welsh agriculture industry. In our contributions to this debate, we should remind ourselves that, while average farm incomes in Europe last year increased by 14 per cent, they decreased by 42 per cent in the UK. There is obviously a problem with the system in the UK, as it makes our businesses unprofitable. Therefore, we must ensure that one of our aims is to emerge from this review, and all these rounds, having ensured that agriculture is a commercially profitable business, for the sake of rural Wales.

We must take into account the fact that the European Union will expand to include 25 countries, rather than 15. It is proposed that the candidate countries will receive 25 per cent of the level of the decoupled payments. The overall budget has been fixed to 2013, to include an annual inflationary clause. The questions we should be asking are set against the commodities of sheep, beef or dairy, and the fact that 80 per cent of Wales is designated as a less-favoured area, and that 75 per cent of Wales is under environmental designation. How can we ensure that the industry in Wales does not lose money when we take on a single decoupled payment? A suggestion has been made that we should have temporary aids to assist the industry to meet environmental, welfare and occupational requirements. It is important that we negotiate the availability of these temporary aids to meet any reduction in support.

The historical basis of payment is an important aspect of decoupling, and I would like to hear from you, Minister, on my suggestion that the basis cannot be set pre-2002, as there have been so many changes in the system during the last few years. Also, we should raise issues concerning the quality of land and the position of tenants, as referred to by Rhodri Glyn. We must ensure that a clear path is provided for people to assess the security of their businesses, particularly if

Dylem atgoffa ein hunain o'r hyn yr ydym am ei gyflawni drwy'r adolygiad canol tymor hwn—diwydiant amaethyddol yng Nghymru sy'n hyfyw yn economaidd. Yn ein cyfraniadau i'r ddadl hon, dylem atgoffa ein hunain, er bod incwm ffermydd yn Ewrop wedi cynyddu 14 y cant ar gyfartaledd y llynedd, gostwng 42 y cant a wnaeth yn y DU. Mae'n amlwg bod problem gyda'r system yn y DU, gan ei bod yn gwneud ein busnesau yn amhroffidiol. Felly, rhaid inni sicrhau mai dod drwy'r adolygiad hwn a'r holl rowndiau trafod, gan sicrhau bod amaethyddiaeth yn fusnes masnachol proffidiol, er budd Cymru wledig, yw un o'n hamcanion.

Rhaid inni ystyried y ffaith y bydd yr Undeb Ewropeaidd yn ehangu i gynnwys 25 gwlad, yn hytrach na 15. Bwriedir i'r gwledydd sy'n gwneud cais dderbyn 25 y cant o lefel y taliadau datgysylltu. Pennwyd y gyllideb gyffredinol tan 2013, i gynnwys cymal ar gyfer chwyddiant blynyddol. Mae'r cwestiynau y dylem fod yn eu gofyn yn ymwneud â nwyddau defaid, cig eidion neu laeth, a'r ffaith bod 80 y cant o Gymru wedi ei phennu yn ardal llai ffafriol, a bod 75 y cant o Gymru yn ardal amgylcheddol ddynodedig. Sut y gallwn sicrhau nad yw'r diwydiant yng Nghymru yn colli arian pan dderbyniwn un taliad datgysylltu? Gwnaed awgrym y dylem gael cymhorthion dros dros i gynorthwyo'r diwydiant i ddiwallu anghenion amgylcheddol, lles a galwedigaethol. Mae'n bwysig ein bod yn negodi argaeledd y cymhorthion dros dro hyn i gwrdd ag unrhyw ostyngiad mewn cymorth.

Mae sail hanesyddol y taliad yn agwedd bwysig ar ddatgysylltu a byddai'n dda gennyf glywed eich barn, Weinidog, am fy awgrym nad all y sail gael ei bennu cyn 2002, gan fod y system wedi newid gymaint yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Hefyd, dylem godi materion yn ymwneud ag ansawdd y tir a sefyllfa tenantiaid. Cyfeiriwyd at hynny gan Rhodri Glyn. Rhaid inni sicrhau y gall pobl asesu sefydlogrwydd eu busnesau yn rhwydd, yn enwedig os ydynt yn denantiaid. Ni

they are tenants. I failed to find in the documents an assessment of the full effects of decoupling on farmers in receipt of organic farming and Tir Gofal scheme money.

I support the suggestion in the review—I know that it is the fourth option suggested by the Assembly—that current agri-environment schemes are too restrictive and that they should be open to all farmers. I have long argued that Tir Gofal—no matter how fine a scheme it is—is far too elitist and, as every farmer will be modulated, agri-environment schemes must be available to all farmers. We are told that decoupling to a single payment will reduce bureaucracy. We need some guarantee as a result of these negotiations that that money will be recycled into the single decoupled payment rather than being lost to the central Exchequer.

Yr oedd gan gynnyrch gwaith ASW farchnad barod, a gobeithio y daw Celsa o hyd i ffordd o aildechrau cynhyrchu. Drwy ddefnyddio sgiliau a phrofiad llawer o'r cyn-weithlu, gobeithiwn y gall greu cwmni dichonol a ffyniannus, yn cyfuno traddodiadau dur y Basgiaid a'r Cymry. Byddai hynny'n gyflawniad i'w groesawu, ond ni fyddai'n tawelu pryderon cyn-weithlu ASW yn llwyr. Mae sawl ffactor wedi cyfuno i danseilio'n sylweddol y tebygolrwydd y cânt lefel y pensiwn y mae ganddynt yr hawl i'w chael yn foesol. Mae angen rhoi ystyriaeth frys i adfer yn llawn hawliau pensiwn a iawndal am golli gwaith.

Canolbwyntiaf ar hawl pensiwn ac effaith y broses dirwyn i ben. Mae'r rhan fwyaf o ymddiriedolaethau pensiwn a buddsoddiadau eraill wedi gweld gostyngiadau mewn cronfeydd i raddau amrywiol. Fodd bynnag, gall y mwyafrif o fuddsoddwyr obeithio o leiaf y caiff eu cyfoeth ei adfer yn y tymor hir neu'r tymor canolig. Nid felly'r rhai hynny y caiff eu hymddiriedolaethau pensiwn eu dirwyn i ben. Er na dderbynnir cyfraniadau bellach, bydd y cynllun ASW yn parhau i

half a dozen professional bodies that prey on the fund.

It is also understood that there was a shortfall in the pension fund when the scheme closed. It is hoped that any shortfall in the employer's contribution to pension funds will be met by the UK Government, but that remains to be seen. When it comes to prioritising the distribution of moneys in the pension trust, current members find themselves ranked eighth or ninth on the list. It is only when the interests of the existing 2,400 pensioners and pensioners' widows and the other priority beneficiaries have been assessed that it is determined how much, if any, of the fund remains to meet the benefits due to the current members. If no moneys remain to meet the benefits payable under the original scheme, members will be credited only with a guaranteed minimum pension determined by the National Insurance Contributions Office. However, with reference to schemes being wound up, the relevant House of Commons note states that the guaranteed minimum pension is likely to represent only a proportion of the benefit that would have been payable under a pension scheme.

The winding-up of a pension fund is said to take between four and five years, and the charges raised by the professional bodies concerned are considerable. Coming as it does in the wake of redundancy, the wind-up process can only be described as a thoroughly insensitive mechanism. Government indifference and professional interests greatly outweigh the attention given to the needs of ordinary citizens.

The pensions of Members of Parliament, Assembly Members, civil servants, teachers and local government workers are protected; why not those of other members of society? Some would argue that I should not raise issues such as pensions because they are Westminster's business. They are quick to point out that it is not a devolved matter. Others say 'We Welsh should learn to walk before we can run.' How pathetic. 'London knows best,' they say. Does it not just? I am a member of Plaid Cymru because I believe that it is the duty of the people of Wales to

dalù pensiynwyr presennol a thalu costau hanner dwsin o gyrff proffesiynol sy'n ceisio elwa ar y gronfa.

Deellir hefyd fod diffyg yn y gronfa bensiwn pan gaeodd y cynllun. Gobeithir y caiff unrhyw ddiffyg yng nghyfraniad y cyflogwr i gronfeydd pensiwn ei dalu gan Lywodraeth y DU, ond rhaid aros i weld. O ran blaenoriaethu'r modd y dosberthir yr arian yn yr ymddiriedolaeth bensiwn, gwêl yr aelodau presennol mai hwy yw'r wythfed neu'r nawfed ar y rhestr. Dim ond pan fydd buddiannau'r 2,400 o bensiynwyr a gwŷr a gwragedd gweddw pensiynwyr presennol a'r buddiolwyr blaenoriaethol eraill wedi cael eu hasesu y gellir pennu faint, os o gwbl, o'r gronfa sydd yn weddill i dalu'r budd-daliadau sy'n ddyledus i'r aelodau presennol. Os nad oes arian ar ôl i dalu'r budd-daliadau sy'n daladwy o dan y cynllun gwreiddiol, dim ond isafswm pensiwn gwarantedig wedi ei bennu gan y Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a gaiff ei gredu i'r aelodau. Fodd bynnag, gan gyfeirio at gynlluniau yn cael eu dirwyn i ben, noda nodyn perthnasol Tŷ'r Cyffredin mai dim ond cyfran o'r budd-dal a fyddai wedi bod yn daladwy o dan gynllun pensiwn y mae'r isafswm pensiwn gwarantedig yn debygol o'i chynrychioli.

Dywedir bod y broses o ddirwyn cronfa bensiwn i ben yn cymryd rhwng pedair a phum mlynedd, ac mae'r taliadau a godir gan y cyrff proffesiynol dan sylw yn sylweddol. A hithau'n dod yn sgîl diswyddiadau, ni ellir ond disgrifio'r broses dirwyn i ben fel dull hollol ansensitif. Mae difaterwch y Llywodraeth a buddiannau proffesiynol yn drech o lawer na'r sylw a roddir i anghenion dinasyddion cyffredin.

Mae pensiynau Aelodau Seneddol, Aelodau'r Cynulliad, gweision sifil, athrawon a gweithwyr llywodraeth leol wedi eu diogelu; pam nid pensiynau aelodau eraill o'r gymdeithas? Byddai rhai yn dadlau na ddylwn godi materion megis pensiynau gan mai busnes San Steffan ydynt. Nid ydynt fawr o dro cyn dweud mai nid mater datganoledig ydyw. Dywed eraill 'Dylem ni'r Cymry ddysgu sut i gerdded cyn y gallwn redeg.' Mae hynny mor druenus. 'Llundain a wŷr orau,' dywedant. Wfft i hynny. Yr wyf yn aelod o Blaid Cymru gan fy mod yn credu

put their own house in order.

The Occupational Pensions Regulatory Authority, the body set up by the UK Government to ensure that company pension schemes are properly run, has been criticised by the Association of Consulting Actuaries for failing to address some of the core weaknesses of the final salary pension schemes, such as the wind-up process that follows insolvency.

In its annual report, the Office of the Pensions Advisory Service called for a change in arrangements to address the lack of adequate provision made for current pension scheme members in insolvency cases, such as that of ASW. OPAS criticised the freedom given to independent trustees during the wind-up process, and calls for their work to be carefully monitored and scrutinised. It refers to one group of trustees who have been winding up a pension trust for over seven years and charging £150,000 a year to do so. Clearly, there is no legal or financial incentive for independent trustees to accelerate the completion of the wind-up. On the contrary, the longer the process takes, the more they get paid. So much for OPRA's extra powers to speed up the wind-up—some speed-up.

The process of agreeing the guaranteed minimum pension entitlement of each scheme member is carried out by cross-checking the records held by NICO against those passed to the independent pension trustees. If, as it seems, there is a backlog of work at NICO and/or with the independent trustees, a case can sit in limbo for long periods that can be further extended while both organisations wait to hear from each other.

During the summer recess I began to make inquiries into the progress being made on the wind-up of the ASW pension trust as I found it difficult to believe that the process was likely to last the four or five years quoted. After a number of letters and phone calls, I discovered in October that NICO had been

mai dyletswydd pobl Cymru yw rhoi trefn ar eu pethau hwy.

Beirniadwyd yr Awdurdod Rheoleiddio Pensiynau Galwedigaethol, y corff a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU er mwyn sicrhau y caiff cynlluniau pensiwn cwmni eu rhedeg yn briodol, gan Gymdeithas yr Actiwarïaid Ymgynghorol am fethu ag ymdrin â rhai o wendidau craidd y cynlluniau pensiwn cyflog terfynol, megis y broses dirwyn i ben sy'n dilyn ansolfedd.

Yn ei hadroddiad blynyddol, galwodd Swyddfa'r Gwasanaeth Pensiynau Ymgynghorol am newid mewn trefniadau i ymdrin â'r ffaith na wneir darpariaeth ddigonol ar gyfer aelodau presennol cynlluniau pensiwn mewn achosion o ansolfedd, megis ASW. Beirniadodd y Swyddfa y rhyddid a roddir i ymddiriedolwyr annibynnol yn ystod y broses dirwyn i ben, gan alw am fonitro a chraffu ar eu gwaith yn ofalus. Cyfeiria at un grŵp o ymddiriedolwyr sydd wedi bod yn dirwyn ymddiriedolaeth bensiwn i ben dros fwy na saith mlynedd ac sy'n codi £150,000 y flwyddyn am wneud hynny. Yn amlwg, nid oes unrhyw gymhelliad cyfreithiol nac ariannol i ymddiriedolwyr annibynnol gyflymu'r broses dirwyn i ben. I'r gwrthwyneb, po hwyaf y cymer y broses, y mwyaf y cânt eu talu. Peidiwch â sôn am bwerau ychwanegol OPRA i gyflymu'r broses dirwyn i ben—cyflymu, go brin.

Cyflawnir y broses o gytuno ar hawl i isafswm pensiwn gwarantedig pob aelod o'r cynllun drwy groesgyfeirio'r cofnodion a ddelir gan NICO yn erbyn y rheini a drosglwyddir i'r ymddiriedolwyr pensiwn annibynnol. Os, fel yr ymddengys, fod gwaith wedi ôl-gronni yn NICO a/neu gyda'r ymddiriedolwyr annibynnol, gall achos fynd yn angof am gyfnodau hir o amser y gellir eu hystyn ymhellach wrth i'r ddau sefydliad aros i glywed oddi wrth ei gilydd.

Yn ystod toriad yr haf dechreuais wneud ymholiadau i'r cynnydd a gâi ei wneud o ran dirwyn ymddiriedolaeth pensiwn ASW i ben gan imi ei chael hi'n anodd credu bod y broses yn debygol o bara'r pedair neu'r pum mlynedd a ddyfynnwyd. Ar ôl nifer o lythyrau a galwadau ffôn, darganfŵm ym mis

waiting since 22 August for a reply from the independent pension trustees of ASW who, not realising this for some obscure reason, were in turn waiting to be contacted by NICO. As a result of my prompting, NICO received the information it wanted on 10 October, after an unnecessary and expensive delay of seven weeks. How much longer might it have been without my prompting, and how many more delays like this will occur?

4:40 p.m.

If pension schemes affecting professional bodies were regularly being wound up, as are those of manufacturing companies, would the UK Government tolerate such a cumbersome and unjust system that feathers the pockets of the few at the expense of the many? Plaid Cymru and the Trades Union Congress, independently of one another, have recently called upon the Westminster Government to introduce legislation to guarantee full pension benefits for workers when companies go into liquidation. Both proposals support the principle of establishing parity of access to a guaranteed pension for all employees.

Plaid Cymru proposes the establishment of an insolvency insurance body to safeguard companies' final salary schemes. The Plaid Cymru MP, Adam Price, has called for a company's pension guarantee Bill, leading to the establishment of a pensions guarantee authority. His proposal precedes the Government's Green Paper on the reform of occupational pensions. A similar body, set up in the United States in the wake of the collapse of the Studebaker car company in the 1960s, has been very successful. There has not been any problem in finding insurance companies to cover such risks, and companies as large as LTV, with its 82,000 employees, are part of the insolvency insurance system, as are thousands of businesses of nominal size. In the UK, the highly regarded publication, *Money Matters*, has recently praised the American scheme.

When one looks for a company to compare with ASW, there is the Northwestern Steel and Wire Company in the USA, which became insolvent in December 2000 without

Hydref fod NICO wedi bod yn aros ers 22 Awst am ateb gan ymddiriedolwyr pensiwn annibynnol ASW a oedd, heb sylweddoli hyn am ryw reswm astrus, yn aros i NICO gysylltu â hwy. O ganlyniad i'm hanogaeth, derbyniodd NICO y wybodaeth yr oedd ei hangen arni ar 10 Hydref, ar ôl oedi diangen a chostus o saith wythnos. Faint yn hwy y byddai wedi bod heb fy anogaeth i, a faint yn fwy o oedi fel hyn fydd yn digwydd?

Pe bai cynlluniau pensiwn sy'n effeithio ar gyrff proffesiynol yn cael eu dirwyn i ben yn rheolaidd, fel rhai'r cwmnïau gweithgynhyrchu, a fyddai Llywodraeth y DU yn goddef system mor feichus ac anghyfiawn sy'n llenwi pocedi'r ychydig ar draul llawer? Yn ddiweddar, galwodd Plaid Cymru a Chyngres yr Undebau Llafur, yn annibynnol ar ei gilydd, ar Lywodraeth San Steffan i gyflwyno deddfwriaeth i warantu budd-daliadau pensiwn llawn i weithwyr pan fydd cwmnïau yn mynd i'r wal. Mae'r ddau gynnig yn cefnogi'r egwyddor o sefydlu cydraddoldeb o ran rhoi pensiwn gwarantedig i bob cyflogai.

Mae Plaid Cymru yn cynnig sefydlu corff yswiriant ansolfedd i ddiogelu cynlluniau cyflog terfynol cwmnïau. Mae AS Plaid Cymru, Adam Price, wedi galw am Fesur gwarantu pensiwn cwmni, a fydd yn arwain at sefydlu awdurdod gwarantu pensiynau. Mae ei gynnig yn rhagflaenu Papur Gwyrdd y Llywodraeth ar ddiwygio pensiynau galwedigaethol. Bu corff tebyg, a sefydlwyd yn yr Unol Daleithiau yn sgîl cwmp y cwmni ceir Studebaker yn y 1960au, yn llwyddiannus iawn. Ni fu'n anodd dod o hyd i gwmnïau yswiriant i yswirio risgiau o'r fath, ac mae cwmnïau mor fawr ag LTV, gyda'i 82,000 o gyflogeion, yn rhan o'r system yswiriant ansolfedd, fel y mae miloedd o fusnesau bach. Yn y DU, canmolwyd y cynllun Americanaidd yn ddiweddar yn y cyhoeddiad safonol, *Money Matters*.

Pan fydd rhywun yn chwilio am gwmni i'w gymharu ag ASW, gellir sôn am gwmni Northwestern Steel and Wire yn yr Unol Daleithiau, a aeth yn fethdalwr ym mis

suffering the pension problems now faced in Wales. Under Plaid Cymru's plan, the UK Government would introduce a Bill to create a similar authority and the seed capital to launch the system, and it would remain the insurers of last resort. However, the provision of financial cover and the revenue to maintain the authority's operation would come from the premiums supplied by companies. The scheme would be compulsory for companies over a certain size and for all their staff who would contribute a moderate sum towards the company's insurance premium in order to safeguard their pensions against the effects of insolvency.

In the USA, the legislation introducing the companies' pension guarantee authority was retrospective, and therefore addressed situations similar to those of ASW. ASW's former employees would not normally benefit from the proposed new UK legislation on occupational pensions. However, notwithstanding the general non-retrospective nature of UK legislation, the European Commission's insolvency directive of 1980 instructs all member states to fully compensate workers for loss of pensions or wages resulting from their company's insolvency. The directive states that:

'Member States shall ensure that the necessary measures are taken to protect the interests of employees and of persons having already left the employer's undertaking or business at the date of the onset of the employer's insolvency in respect of rights conferring on them immediate or prospective entitlement to old-age benefits, including survivors' benefits, under supplementary company or inter-company pension schemes outside the national statutory social security schemes.'

The fact that no UK Government has sought to implement this directive does not detract from its validity. In 1992, a case was fought and won in the European Court against the Italian Government's failure to implement the directive. This directive is central to the case of the former ASW workers.

Rhagfyr 2000 heb ddiodef y problemau pensiwn a wynebir yn awr yng Nghymru. O dan gynllun Plaid Cymru, byddai Llywodraeth y DU yn cyflwyno Mesur i greu awdurdod tebyg a'r cyfalaf cychwynnol i lansio'r system, a byddai'n parhau fel yswirwyr pan fetho popeth arall. Fodd bynnag, byddai darparu sicrwydd ariannol a'r refeniw i gynnal gweithrediad yr awdurdod yn dod o'r premiymau a gyflenwir gan gwmnïau. Byddai'r cynllun yn orfodol i gwmnïau dros faint arbennig ac i bob aelod o'u staff a fyddai'n cyfrannu swm cymharol fach tuag at bremiwm yswiriant y cwmni er mwyn diogelu eu pensiynau yn erbyn effeithiau ansolfedd.

Yn UDA, yr oedd y ddeddfwriaeth a oedd yn cyflwyno awdurdod gwarantu pensiynau cwmnïau yn ôl-weithredol, ac felly yn ymdrin â sefyllfaoedd a oedd yn debyg i rai ASW. Ni fyddai cyn-gyflogeion ASW fel arfer yn elwa ar ddeddfwriaeth newydd arfaethedig y DU ar bensiynau galwedigaethol. Fodd bynnag, er gwaethaf natur gyffredinol deddfwriaeth y DU nad yw'n ôl-weithredol, mae cyfarwyddeb ansolfedd 1980 y Comisiwn Ewropeaidd yn cyfarwyddo pob aelod-wladwriaeth i ddigolledu gweithwyr yn llawn am bensiynau neu gyflogau a gollwyd o ganlyniad i ansolfedd eu cwmni. Noda'r gyfarwyddeb:

Bydd Aelod-wladwriaethau yn sicrhau y cymerir y camau angenrheidiol i ddiogelu buddiannau cyflogeion a phobl sydd eisoes wedi gadael ymgymeriad neu fusnes y cyflogwr ar ddyddiad dechrau ansolfedd y cyflogwr mewn perthynas â hawliau sy'n rhoi hawl iddynt ar unwaith neu hawl arfaethedig iddynt i fudd-daliadau henaint, gan gynnwys budd-daliadau goroeswyr, o dan gynlluniau pensiwn atodol cwmnïau neu ryng-gwmnïau y tu allan i gynlluniau nawdd cymdeithasol statudol cenedlaethol.

Nid yw'r ffaith nad oes unrhyw Lywodraeth y DU wedi ceisio gweithredu'r gyfarwyddeb hon yn tynnu oddi ar ei dilysrwydd. Yn 1992, cafodd achos ei ymladd a'i ennill yn y Llys Ewropeaidd yn erbyn methiant Llywodraeth yr Eidal i weithredu'r gyfarwyddeb. Mae'r gyfarwyddeb hon yn ganolog i achos cyn-weithwyr ASW.

Adam Price is calling upon the UK Government to implement article 8 of EC directive 80/987, and thus to secure the full pension entitlements of the former ASW workforce as well as full compensation for loss of wages, national insurance contributions and redundancy pay. It is high time that the Westminster Government treated people as well as they are treated in other member states.

It is appropriate that we, as a National Assembly, should be able to discuss such matters on behalf of our constituents. Given full self-government, we could do more than just discuss matters or seek to influence Westminster: we could deal with matters for ourselves and build a Wales that reflected our egalitarian traditions by means of a Welsh parliament that fully addressed the needs of the people.

The Minister for Economic Development (Andrew Davies): As Owen John Thomas said, responsibility for pensions has not been devolved, but it is appropriate that we discuss the issue in the Assembly. [*Interruption.*]

The Deputy Presiding Officer: Order.

Andrew Davies: Pension schemes are provided by employers on a voluntary basis and are dependent upon the employers ensuring that there are sufficient funds to meet the pensions promised. Unfortunately, this situation changes significantly when an employer becomes insolvent, and no further contributions are available to be paid into the pension fund. Legislation provides that, when a salary-related occupational pension scheme winds up or a sponsoring employer becomes insolvent, any deficiency in the pension fund becomes a debt on the employer. It provides a mechanism for the trustees to be able to take action to pursue the debt without prejudicing any other remedy the trustees may have in respect of any deficiency in the scheme's assets. The independent trustee must first establish the fund's assets and liabilities. This can often be a long and protracted process, as Owen John accepted. Once the assets and liabilities are known, members' pension entitlements must be secured in accordance with the statutory

Mae Adam Price yn galw ar Lywodraeth y DU i weithredu erthygl 8 cyfarwyddeb y CE 80/987, ac felly i sicrhau hawliau pensiwn llawn i gyn-weithlu ASW yn ogystal â'u digolledu'n llawn am gyflogau, cyfraniadau yswiriant gwladol a thaliadau diswyddo a gollwyd. Mae'n hen bryd i Lywodraeth San Steffan drin pobl cystal ag y cânt eu trin mewn aelod-wladwriaethau eraill.

Mae'n briodol y dylem ni, fel Cynulliad Cenedlaethol, fod yn gallu trafod materion o'r fath ar ran ein hetholwyr. O gael hunanlywodraeth lawn gallem wneud mwy na thrafod materion yn unig neu geisio dylanwadu ar San Steffan: gallem ddelio â materion ein hunain ac adeiladu Cymru sy'n adlewyrchu ein traddodiadau egalitaraidd drwy gyfrwng senedd i Gymru a fyddai'n ymdrin yn llawn ag anghenion y bobl.

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies): Fel y dywedodd Owen John Thomas, nid yw'r cyfrifoldeb dros bensiynau wedi ei ddatganoli, ond mae'n briodol ein bod yn trafod y mater yn y Cynulliad. [*Torri ar draws.*]

Y Dirprwy Lywydd: Trefn.

Andrew Davies: Darperir cynlluniau pensiwn gan gyflogwyr ar sail wirfoddol ac maent yn ddibynnol ar gyflogwyr yn sicrhau bod digon o arian ar gael i dalu'r pensiynau a addawyd. Yn anffodus, mae'r sefyllfa hon yn newid yn sylweddol pan fydd cyflogwr yn mynd yn fethdalwr, ac nid oes rhagor o gyfraniadau ar gael i'w talu i mewn i'r gronfa pensiwn. Pan fydd cynllun pensiwn galwedigaethol ar sail cyflog yn dirwyn i ben neu pan fydd cyflogwr sy'n noddi yn mynd yn fethdalwr, mae deddfwriaeth yn sicrhau bod unrhyw ddiffyg yn y gronfa pensiwn yn mynd yn ddyled ar y cyflogwr. Mae'n ffordd o sicrhau y gall yr ymddiriedolwyr gymryd camau ynglŷn â'r ddyled heb beryglu unrhyw ateb arall a allai fod gan yr ymddiriedolwyr mewn perthynas ag unrhyw ddiffyg yn asedau'r cynllun. Rhaid i'r ymddiriedolwr annibynnol nodi asedau a rhwymedigaethau'r gronfa yn gyntaf. Gall hyn fod yn broses hir ac estynedig yn aml, fel y derbyniodd Owen John. Unwaith y bydd yr asedau a'r rhwymedigaethau yn hysbys, rhaid sicrhau

priority order and in line with the priority set out in the scheme rules.

The cost of winding up the process itself is usually the first priority, followed by the scheme's liabilities for pensions and other benefits. The rationale behind the priority order is to produce an equitable distribution of assets when a scheme winds up. However, if the scheme is winding up with an insolvent employer and the trustees are unable to recover any additional funding under the debt on the employer, there may be insufficient assets to meet the total liabilities of the scheme. The UK Government is concerned about this and will set out its proposals on pensions in a Green Paper later this year, taking account of the recommendations of the Pickering report and those of Ron Sadler, as well as the yet-to-be-published Inland Revenue report on tax and the quinquennial review of the Occupational Pensions Regulatory Authority.

Pinsent Trustees has been assigned by the receivers to act as independent trustees of both ASW pension fund schemes. As you are no doubt aware, it is unable to precisely quantify the shortfall until a full evaluation is completed. However, it is clear that a large part of that shortfall is due to stock market performance.

Lorraine Barrett: Thank you for allowing me to intervene for a minute. I asked Owen John Thomas for a minute to contribute—

The Deputy Presiding Officer: Order. You cannot have a minute; this is an intervention and it should be brief and to the point.

Lorraine Barrett: I was referring to a hypothetical minute in the first instance. It was Owen John Thomas's prerogative to refuse me a minute of his time, but that is okay.

As Owen John raised the issue, how many billions of pounds of taxation shortfall would we have if Wales were totally independent? Will you continue to work with Ministers at

hawliau pensiwn yr aelodau yn unol â'r gorchymyn blaenoriaethol statudol ac yn unol â'r flaenoriaeth a nodir yn rheolau'r cynllun.

Fel arfer, y flaenoriaeth gyntaf yw'r gost o ddirwyn y broses ei hun i ben, ac yna rwymedigaethau'r cynllun ar gyfer pensiynau a budd-daliadau eraill. Y rhesymeg y tu ôl i'r gorchymyn blaenoriaethol yw sicrhau y caiff asedau eu dosbarthu'n deg pan fydd cynllun yn cael ei ddirwyn i ben. Fodd bynnag, os bydd y cynllun yn dirwyn i ben gyda chyflogwr sydd wedi mynd yn fethdalwr a'r ymddiriedolwyr yn methu adennill unrhyw arian ychwanegol o dan y ddyled ar y cyflogwr, efallai na fydd digon o asedau i dalu rhwymedigaethau llawn y cynllun. Mae Llywodraeth y DU yn pryderu ynghylch hyn a bydd yn nodi ei chynigion ar bensiynau mewn Papur Gwyrdd yn ddiweddarach eleni, gan ystyried argymhellion adroddiad Pickering a rhai Ron Sadler, yn ogystal ag adroddiad Cyllid y Wlad nas cyhoeddwyd eto ar dreth ac adolygiad pob pum mlynedd yr Awdurdod Rheoleiddio Pensiynau Galwedigaethol.

Pennwyd Ymddiriedolwyr Pinsent gan y derbynwyr i weithredu fel ymddiriedolwyr annibynnol dau gynllun cronfa bensiwn ASW. Fel y gwyddoch mae'n siŵr, nid yw'n gallu mesur y diffyg yn union hyd nes y cwblheir gwerthusiad llawn. Fodd bynnag, mae'n amlwg mai perfformiad y farchnad stoc sy'n gyfrifol am ran fawr o'r diffyg hwnnw.

Lorraine Barrett: Diolch ichi am ganiatáu imi ymyrryd am funud. Gofynnais i Owen John Thomas am funud i gyfrannu—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Ni allwch gael munud; ymyriad yw hyn a dylai fod yn fyr ac yn gryno.

Lorraine Barrett: Yr oeddwn yn cyfeirio at funud ddamcaniaethol yn y lle cyntaf. Yr oedd gan Owen John Thomas yr hawl i wrthod munud o'i amser imi, ond mae hynny'n iawn.

Gan i Owen John godi'r mater, sawl miliwn o bunnoedd o ddiffyg o ran trethiant fyddai gennym pe bai Cymru yn llwyr annibynnol? A fyddwch yn parhau i weithio gyda

Westminster and with the Iron and Steel Trades Confederation, as you have done since the beginning of this dreadful situation, to ensure that UK Governments do everything possible to protect the pensions of ASW workers?

Andrew Davies: The First Minister and I have taken up this issue with the Department for Work and Pensions and other Whitehall departments, as have Labour Members of Parliament representing south Wales constituencies. Hywel Francis and Cardiff MPs have discussed a whole range of issues affecting ASW with the Department for Work and Pensions and the Department of Trade and Industry. We welcome any support from Owen John or anyone else. We have also worked closely with the trade unions.

You are right to draw attention to the logical inconsistency of the position taken by Owen John Thomas and Plaid Cymru. When it suits them, they want independence and a self-governing Wales. However, as usual, Plaid Cymru's Mickey Mouse politics means that it never says where the money will come from. It may well be okay in dealing with ASW's position, but it does not give any quantifiable amount.

Brian Hancock *rose—*

Andrew Davies: I am not taking interventions. If you allow a scheme for ASW, you must also allow it for other companies. Plaid Cymru is calling for legal provision, which is costly, but it does not note any quantifiable amount. We must be told what this will cost. The UK Government has taken up this issue, and it will be included in its Green Paper.

4:50 p.m.

On the ASW pensions, the possibility of a reinstatement to the state earnings-related pension scheme, SERPS, has been discussed. I have taken that up with the Westminster Government. Provisions were introduced as part of the Pensions Act 1995 to replace the payment of state scheme rights to the state second pension, previously known as SERPS.

Gweinidogion yn San Steffan a chyda Cydffederasiwn y Crefftau Haearn a Dur, fel y gwnaethoch ers dechrau'r sefyllfa ofnadwy hon, i sicrhau bod Llywodraethau'r DU yn gwneud popeth o fewn eu gallu i ddiogelu pensiynau gweithwyr ASW?

Andrew Davies: Mae'r Prif Weinidog a minnau wedi codi'r mater hwn gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ac adrannau eraill Whitehall, fel y gwnaeth Aelodau Seneddol y blaid Lafur sy'n cynrychioli etholaethau de Cymru. Mae Hywel Francis ac AS Caerdydd wedi trafod ystod gyfan o faterion sy'n effeithio ar ASW gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Masnach a Diwydiant. Croesawn unrhyw gefnogaeth gan Owen John neu unrhyw un arall. Yr ydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r undebau llafur.

Yr ydych yn iawn i dynnu sylw at anghysondeb rhesymegol y safbwynt a arddelwyd gan Owen John Thomas a Phlaid Cymru. Pan fydd yn gyfleus iddynt, maent am gael annibyniaeth a Chymru hunanlywodraethol. Fodd bynnag, fel arfer, mae gwleidyddiaeth Mickey Mouse Plaid Cymru yn golygu nad yw byth yn dweud o ble y daw'r arian. Efallai y bydd yn iawn i ddelio â sefyllfa ASW, ond nid yw'n rhoi unrhyw swm mesuradwy.

Brian Hancock *a gododd—*

Andrew Davies: Nid wyf yn cymryd ymyriadau. Os caniatewch gynllun ar gyfer ASW, rhaid ichi ei ganiatáu hefyd ar gyfer cwmnïau eraill. Mae Plaid Cymru yn galw am ddarpariaeth gyfreithiol, sy'n gostus, ond nid yw'n nodi unrhyw swm mesuradwy. Rhaid inni gael gwybod beth fydd y gost. Mae Llywodraeth y DU wedi trafod y mater hwn, a chaiff ei gynnwys yn ei Phapur Gwyrdd.

O ran pensiynau ASW, trafodwyd y posibilrwydd o'u hadfer i gynllun pensiwn y wladwriaeth ar sail enillion, sef SERPS. Yr wyf wedi codi'r mater hwnnw gyda Llywodraeth San Steffan. Cyflwynwyd darpariaethau fel rhan o Ddeddf Pensiynau 1995 i ddisodli'r broses o dalu hawliau cynllun y wladwriaeth i ail bensiwn y

The provisions can only be applied when the date of scheme wind-up is on or after 6 April 1997. It is also dependent on the scheme satisfying certain conditions before a scheme member has the option of securing rights within the state scheme. Therefore, provisions exist to restore members' state scheme rights, and several pension schemes have already inquired about this option.

As I said in my reply to Lorraine Barrett, we understand the appalling situation facing the ASW workforce, and we have worked with the trade unions, the receivers and parliamentary colleagues on this matter. Not only have these workers lost good quality jobs, some have also lost their redundancy payment, and face a potentially serious pension shortfall. However, the UK Government has already put in place a range of non-financial measures through Jobcentre Plus in conjunction with key partner organisations who have delivered tailored services to an employee advice centre, located in the railway club in close proximity to the ASW site.

The Welsh Assembly Government will do, and has done, all it can to assist. However, you will appreciate that while understanding the concerns of the ASW workforce, and being extremely sympathetic to their situation, neither the Welsh Assembly Government nor the UK Government are responsible for making good any shortfall in the pension fund. I know that the ASW pension scheme members will be disappointed about this. I sympathise with their position, but the Government cannot accept liability for any occupational pension shortfall.

Alun Cairns: I am grateful to the Minister for giving way, unlike Owen John Thomas. We could have moved forward with consensus in this debate, and there could have been cross-party support for the same cause.

I accept many of the Minister's points, and understand the reality behind supporting

wladwriaeth, sef SERPS yn flaenorol. Dim ond pan fydd dyddiad dirwyn y cynllun i ben ar neu ar ôl 6 Ebrill 1997 y gellir cymhwyso'r darpariaethau. Rhaid i'r cynllun fodloni rhai amodau penodol hefyd cyn y bydd gan aelod o'r cynllun yr opsiwn o sicrhau hawliau o fewn cynllun y wladwriaeth. Felly, mae darpariaethau yn bodoli i adfer hawliau'r aelodau o ran cynllun y wladwriaeth, a gwnaeth sawl cynllun pensiwn eisoes ymholiadau am yr opsiwn hwn.

Fel y dywedais yn fy ymateb i Lorraine Barrett, deallwn y sefyllfa echrydus sy'n wynebu gweithlu ASW, ac yr ydym wedi gweithio gyda'r undebau llafur, y derbynwyr a chyd-aelodau seneddol ar y mater hwn. Nid yn unig y mae'r gweithwyr hyn wedi colli swyddi da, ond mae rhai wedi colli eu taliad diswyddo hefyd ac yn wynebu diffyg difrifol o bosibl yn eu pensiynau. Fodd bynnag, mae'r ystod o fesurau anariannol a roddwyd ar waith gan Lywodraeth y DU eisoes drwy'r Ganolfan Byd Gwaith ar y cyd â phartneriaid allweddol wedi darparu gwasanaethau wedi teilwra i ganolfan cyngor i gyflogeion, sydd wedi ei lleoli yn y clwb rheilffordd yn agos at safle ASW.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i helpu, a gwnaeth hynny. Fodd bynnag, fe sylweddolwch, er eu bod yn deall pryderon gweithlu ASW ac yn cydymdeimlo'n llwyr â'u sefyllfa, nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru na Llywodraeth y DU yn gyfrifol am unioni unrhyw ddiffyg yn y gronfa bensiwn. Gwn y bydd aelodau cynllun pensiwn ASW yn siomedig ynglŷn â hyn. Cydymdeimlaf â'u sefyllfa, ond ni all y Llywodraeth dderbyn cyfrifoldeb dros unrhyw ddiffyg mewn pensiwn galwedigaethol.

Alun Cairns: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ildio, yn wahanol i Owen John Thomas. Gallem fod wedi cael consensws wrth i'r ddadl hon fynd rhagddi a gellid bod wedi cael cefnogaeth drawsbleidiol i'r un achos.

Derbyniaf lawer o bwyntiau'r Gweinidog, a deallaf y realiti y tu ôl i gefnogi cronfeydd

pension funds. The Minister highlighted the volatility of the stock market, and its effect on pension funds. Will the Minister also acknowledge that changes in the tax treatment of pension funds, introduced since 1997, have not helped the situation? I do not pretend for a minute that it is the only cause, but it has not helped the situation. It has partly introduced some of the volatility in the market, but it has also taken large sums of money away from the pension funds of all sorts of companies, and therefore has not supported the ASW scheme.

Andrew Davies: We will have to disagree on that, Alun. By far the major contributory factor towards the shortfall of pension funds in ASW and elsewhere, and the decline of payments, is the performance of the UK stock market.

Brian Hancock *rose*—

Andrew Davies: However, the UK Government is working to increase protection for pension scheme members, and there will be further opportunities to contribute to the debate around pension provision in the consultation period after the pensions Green Paper is published.

Mick Bates: I am also disappointed that we were not allowed the customary one minute to contribute to this debate. However, there is an opportunity during the pensions consultation period, to which you referred, for us to examine thoroughly the American system, which appears to underwrite pensions when there is default by a company. Will you undertake to examine that system, so that we can inform Westminster—it may be examining it now—so that we can move forward together on this issue? There is a willingness for the Assembly to ensure that we can show that we want to protect the pensions rights of all workers.

Andrew Davies: That is a constructive suggestion, Mick. We will take this forward in terms of any response we make to the UK Government following the publication of the Green Paper. I assume that Members and Committees would want to discuss this crucially important issue.

peniwn. Pwysleisiodd y Gweinidog anwadalrwydd y farchnad stoc a'i heffaith ar gronfeydd peniwn. A wnaiff y Gweinidog gydnabod hefyd nad yw newidiadau yn y ffordd yr ymdrinnir â chronfeydd peniwn o ran treth, a gyflwynwyd ers 1997, wedi helpu'r sefyllfa? Nid wyf yn cymryd arnaf am eiliad mai dyma'r unig reswm, ond nid yw wedi helpu'r sefyllfa. I ryw raddau, mae wedi cyflwyno peth o'r anwadalrwydd yn y farchnad, ond mae hefyd wedi tynnu symiau mawr o arian o gronfeydd peniwn pob math o gwmnïau, ac felly nid yw wedi cefnogi'r cynllun ASW.

Andrew Davies: Bydd yn rhaid inni anghytuno ar hynny, Alun. Y ffactor sy'n cyfrannu mwyaf o ddigon at y diffyg mewn cronfeydd peniwn yn ASW a lleoedd eraill, a'r lleihad mewn taliadau, yw perfformiad marchnad stoc y DU.

Brian Hancock *a gododd*—

Andrew Davies: Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn gweithio i gynyddu diogelwch i aelodau cynlluniau peniwn, ac felly bydd rhagor o gyfleoedd i gyfrannu at y ddadl ynglŷn â darpariaeth pensiynau yn y cyfnod ymgynghori ar ôl i'r Papur Gwyrdd ar bensiynau gael ei gyhoeddi.

Mick Bates: Yr wyf yn siomedig hefyd na chaniatawyd y funud arferol inni gyfrannu at y ddadl hon. Fodd bynnag, bydd cyfle yn ystod y cyfnod ymgynghori ar bensiynau, y cyfeiriasoch ato, inni archwilio'r system Americanaidd yn drylwyr, system yr ymddengys ei bod yn gwarantu pensiynau pan fydd cwmni yn methu â thalu. A wnewch chi addo archwilio'r system honno, fel y gallwn hysbysu San Steffan—efallai ei bod yn ei harchwilio yn awr—fel y gallwn symud ymlaen gyda'n gilydd ar y mater hwn? Mae parodrwydd ar ran y Cynulliad i sicrhau y gallwn ddangos ein bod am ddiogelu hawliau pensiynau pob gweithiwr.

Andrew Davies: Mae hynny'n awgrym adeiladol, Mick. Byddwn yn datblygu hyn o ran unrhyw ymateb a wnawn i Lywodraeth y DU yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyrdd. Cymeraf yn ganiataol y byddai'r Aelodau a'r Pwyllgorau am drafod y mater hollbwysig hwn.

I say once again, in response to the debate's initiator, that there is no legal basis for making payments to make up a shortfall in pensions.

Brian Hancock *rose*—

The Deputy Presiding Officer: Order. The Minister will not give way, Brian.

Brian Hancock: For the third time?

The Deputy Presiding Officer: I do not think that he is giving way.

Andrew Davies: There is no legal basis for the Government to make up a shortfall in pensions. To do so would leave it open to legal challenge and would set a precedent for other companies where a similar situation has, lamentably, occurred. Governments must be responsible and cannot make policy on the back of an envelope, as Plaid Cymru has done with this debate and with many previous contributions.

This is a serious issue. We are aware of the situation regarding the EU insolvency directive 1980. The directive is about protections in employment, and deals with protecting holiday pay and deductions from employees' salaries. In respect of pension schemes wound up as a result of employer insolvency, as in the case of ASW, the Government fulfils its obligations under the directive by allowing insolvency practitioners to claim, through the redundancy payment service, unpaid contributions from the national insurance fund. If a claim is successful, funds are paid to the trustees of the scheme being wound up. The Secretary of State for Work and Pensions, Andrew Smith, has said that the situation is serious for employees facing sudden cuts in their pension scheme contributions. This type of situation is a serious challenge, and I have asked for it to be considered as part of our work on the Green Paper. That is the act of a serious government. We have reacted responsibly as a Government to ensure that employees are not faced with a similar situation in future. However, there are right and wrong ways of doing this.

Dywedaf unwaith eto, mewn ymateb i gychwynnydd y ddadl, nad oes sail gyfreithiol dros wneud taliadau i unioni diffyg mewn pensiynau.

Brian Hancock *a gododd*—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Ni wnaiff y Gweinidog ildio, Brian.

Brian Hancock: Am y trydydd tro?

Y Dirprwy Lywydd: Ni chredaf ei fod yn ildio.

Andrew Davies: Nid oes sail gyfreithiol i'r Llywodraeth unioni diffyg mewn pensiynau. Byddai gwneud hynny yn ei gadael yn agored i her gyfreithiol a byddai'n gosod cysail i gwmnïau eraill lle y mae sefyllfa debyg wedi digwydd, gwaetha'r modd. Rhaid i Lywodraethau fod yn gyfrifol ac ni allant wneud polisi ar gefn amlen, fel y gwnaeth Plaid Cymru gyda'r ddadl hon a chyda llawer o gyfraniadau blaenorol.

Mae hwn yn fater difrifol. Yr ydym yn ymwybodol o'r sefyllfa o ran cyfarwyddeb ansolfedd yr UE 1980. Mae a wnelo'r gyfarwyddeb â diogelu cyflogaeth, ac mae'n delio â diogelu tâl gwyliau a didyniadau o gyflogau cyflogeion. Mewn perthynas â chynlluniau pensiwn a gaiff eu dirwyn i ben o ganlyniad i ansolfedd cyflogwyr, fel yn achos ASW, cyflawna'r Llywodraeth ei rhwymedigaethau o dan y gyfarwyddeb drwy ganiatáu i ymarferwyr ansolfedd hawlio, drwy'r gwasanaeth taliadau diswyddo, gyfraniadau nas talwyd o'r gronfa yswiriant gwladol. Os bydd cais yn llwyddiannus, telir arian i ymddiriedolwyr y cynllun sy'n cael ei ddirwyn i ben. Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, Andrew Smith, fod y sefyllfa'n ddifrifol i gyflogeion sy'n wynebu gostyngiadau sydyn yng nghyfraniadau eu cynllun pensiwn. Mae'r math hwn o sefyllfa yn gosod her ddifrifol, a gofynnais iddi gael ei hystyried fel rhan o'n gwaith ar y Papur Gwyrdd. Dyna weithred llywodraeth sydd o ddifrif. Yr ydym wedi ymateb yn gyfrifol fel Llywodraeth i sicrhau na fydd cyflogeion yn wynebu sefyllfa debyg yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae ffyrdd cywir ac anghywir o wneud hyn.

The Deputy Presiding Officer: That brings today's proceedings to a close. **Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 4.57 p.m.
The session ended at 4.57 p.m.*